



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher 5 Ebrill 2000**

**Wednesday 5 April 2000**

## Cynnwys Contents

3	Cynnig Trefniadol <i>Procedural Motion</i>
3	Ethol i Bwyllgorau Sefydlog <i>Elections to Standing Committees</i>
5	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant <i>Questions to the Secretary for Education and Children</i>
13	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig <i>Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development</i>
20	Datganiad ar yr Arolygaeth Cynllunio <i>Statement on the Planning Inspectorate</i>
24	Datganiad ar Gyllid Amaethyddol <i>Statement on Agricultural Finance</i>
28	Cynnig Trefniadol <i>Procedural Motion</i>
29	Pwynt o Drefn <i>Point of Order</i>
31	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 <i>National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000</i>
35	'Gwellcymru.com' <i>'Betterwales.com'</i>
86	Diwygio Rheolau Sefydlog <i>Revision of Standing Orders</i>
95	Dadl Fer: Dim Safleoedd Niwclear Newydd yng Nghymru <i>Short Debate: No New Nuclear Sites in Wales</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

### **Cynnig Trefniadol Procedural Motion**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I propose that

*the Assembly, under Standing Order No. 6.16, agrees to allow me to propose the motions to elect members of the Standing Committees as one motion and, therefore, that we hold only one vote on this matter.*

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigiau fod

*y Cynulliad, dan Reol Sefydlog Rhif 6.16, yn cytuno i ganiatáu imi gyflwyno'r cynigion i ethol aelodau'r Pwyllgorau Sefydlog fel un cynnig ac ein bod, felly, ddim ond yn cynnal un bleidlais ar y mater hwn.*

*Cynnig: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 23, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Essex, Sue  
Gibbons, Brian  
Gwyther, Christine  
Humphreys, Christine  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Lloyd, David  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Pugh, Alun  
Richards, Rod  
Ryder, Janet  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

### **Ethol i Bwyllgorau Sefydlog Elections to Standing Committees**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I propose that

*the Assembly*

*y Cynulliad*

*in accordance with Standing Order No. 59(2) and (4) of the Government of Wales Act 1998, elects the following members to its*

*yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 59(2) a (4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Deddfau:*

*Legislation Committee: Huw Lewis (Labour), John Marek (Labour), Lynne Neagle (Labour), Karen Sinclair (Labour), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), David Lloyd (Plaid Cymru), Owen John Thomas (Plaid Cymru), Nick Bourne (Conservative) and Michael German (Liberal Democrat) to be the chair of the Committee.*

*in accordance with Standing Order No. 60(3) and (5) of the Government of Wales Act 1998, elects the following members to its Audit Committee: Lorraine Barrett (Labour), Brian Gibbons (Labour), Alison Halford (Labour), Jane Davidson (Labour), Geraint Davies (Plaid Cymru), Dafydd Wigley (Plaid Cymru), Alun Cairns (Conservative), Peter Black (Liberal Democrat), and Janet Davies (Plaid Cymru) to be the chair of the Committee.*

*in accordance with Standing Order No. 16.2 elects the following members to its Committee on Standards of Conduct: Richard Edwards (Labour), Val Feld (Labour), Gwenda Thomas (Labour), Janice Gregory (Labour), Janet Davies (Plaid Cymru), Brian Hancock (Plaid Cymru), Gareth Jones (Plaid Cymru), Christine Humphreys (Liberal Democrat), and David Melding (Conservative) to be the chair of the Committee.*

*elects the following members to its Committee on Equality of Opportunity: Christine Chapman (Labour), Richard Edwards (Labour), Alison Halford (Labour), Lorraine Barrett (Labour), Gareth Jones (Plaid Cymru), Helen Mary Jones (Plaid Cymru), Janet Ryder (Plaid Cymru), Glyn Davies (Conservative), David Melding (Conservative), Kirsty Williams (Liberal Democrat), and Edwina Hart (Labour) to be the chair of the Committee.*

*in accordance with Standing Order No. 15.4 elects the following members to its European Affairs Committee: Val Feld (Labour), Christine Gwyther (Labour), Alun Michael (Labour), Alun Pugh (Labour), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru), Phil Williams (Plaid Cymru), Nick Bourne (Conservative), Jonathan Morgan (Conservative), Mick Bates (Liberal Democrat), and Rhodri Morgan (Labour) to*

*Huw Lewis (Llafur), John Marek (Llafur), Lynne Neagle (Llafur), Karen Sinclair (Llafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), David Lloyd (Plaid Cymru), Owen John Thomas (Plaid Cymru), Nick Bourne (Ceidwadwr) a Michael German (Democrat Rhyddfrydol) i fod yn gadeirydd y Pwyllgor.*

*yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 60(3) a (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Archwilio: Lorraine Barrett (Llafur), Brian Gibbons (Llafur), Alison Halford (Llafur), Jane Davidson (Llafur), Geraint Davies (Plaid Cymru), Dafydd Wigley (Plaid Cymru), Alun Cairns (Ceidwadwr), Peter Black (Democrat Rhyddfrydol) a Janet Davies (Plaid Cymru) i fod yn gadeirydd y Pwyllgor.*

*yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 16.2, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad: Richard Edwards (Llafur), Val Feld (Llafur), Gwenda Thomas (Llafur), Janice Gregory (Llafur), Janet Davies (Plaid Cymru); Brian Hancock (Plaid Cymru), Gareth Jones (Plaid Cymru), Christine Humphreys (Democrat Rhyddfrydol) a David Melding (Ceidwadwr) i fod yn gadeirydd y Pwyllgor.*

*yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Cyfle Cyfartal: Christine Chapman (Llafur), Richard Edwards (Llafur), Alison Halford (Llafur), Lorraine Barrett (Llafur), Gareth Jones (Plaid Cymru), Helen Mary Jones (Plaid Cymru), Janet Ryder (Plaid Cymru), Glyn Davies (Ceidwadwr), David Melding (Ceidwadwr), Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol) ac Edwina Hart (Llafur) i fod yn gadeirydd y Pwyllgor.*

*yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 15.4, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd: Val Feld (Llafur), Christine Gwyther (Llafur), Alun Michael (Llafur), Alun Pugh (Llafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru), Phil Williams (Plaid Cymru), Nick Bourne (Ceidwadwr), Jonathan Morgan (Ceidwadwr), Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol) a Rhodri Morgan (Llafur) i fod*

*be the chair of the Committee.*

*yn gadeirydd y Pwyllgor.*

*Cynnig: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion: For 31, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Lloyd, David  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Richards, Rod  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant Questions to the Secretary for Education and Children**

### **Gwasanaethau Therapi Lleferydd Speech Therapy Services**

**C1 David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant i gynyddu'r gwasanaethau therapi lleferydd yng Nghymru? (OAQ4635)

**Q1 David Lloyd:** What plans does the Secretary for Education and Children have to increase speech therapy services in Wales? (OAQ4635)

**The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler):** The provision of speech and language therapy services for all the population, including school age children, is the responsibility of health authorities under the National Health Service Act 1977. The level of speech and language therapy provision is a matter for health authorities to

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw darparu gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys plant oed ysgol. Mae lefel y ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith yn fater i

determine in the light of local need, competing demands and available resources. We have set up an advisory group to look at the provision of speech and language therapy. The group hopes to draw together the first draft report of its findings and recommendations before the end of May, following which, we will move to consultation.

**David Lloyd:** Mae'n bwysig nodi bod prinder therapyddion lleferydd yng Nghymru, yn enwedig ym maes anghenion addysgol arbennig. Yn Ninas a Sir Abertawe, nid oes therapydd lleferydd a all ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg. Yr wyf wedi cyfarfod â phobl sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion Cymraeg na allant dderbyn therapi lleferydd drwy gyfrwng y Gymraeg. A oes strategaeth felly, ar y ffordd orau ymlaen i ddarparu therapyddion lleferydd?

**Rosemary Butler:** We are aware of the difficulties surrounding speech and language therapy in Wales. The Government's special educational needs Green Paper recognised the growing concern over the availability of therapy services, primarily speech and language therapy for children in Wales, including Welsh speaking children. You referred to the lack of a therapy service in Swansea. Initial findings of the therapy working group suggest that, while there may be regional difficulties in recruiting and retaining qualified speech and language therapists, and problems surrounding the availability of Welsh speaking therapists, the primary cause of inadequate service levels where these are most prevalent, is the failure of health authorities to purchase sufficient services to meet demands. In some areas, local education authorities use education resources to fund additional therapy posts to satisfy demand.

**David Melding:** I declare an interest as chair of Meadowbank Special School, Cardiff. This problem is severe. The lack of speech therapists can have a bad outcome on the education of children, particularly young children in the primary sector, whether they are in special needs or in main stream. It is an intensive area that needs many staff to provide a good service. I am sure the

awdurdodau iechyd benderfynu yn ei chylch yng ngoleuni'r anghenion lleol, y gofynion cystadleuol a'r adnoddau sydd ar gael. Yr ydym wedi sefydlu grŵp ymgynghorol i edrych ar y ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith. Mae'r grŵp yn gobeithio llunio'r adroddiad cyntaf o'i ganfyddiadau a'i argymhellion cyn diwedd Mai ac, ar ôl hynny, byddwn yn cynnal ymgynghoriad.

**David Lloyd:** It is important to note that there is a shortage of speech therapists in Wales, especially in the field of special educational needs. In the City and County of Swansea, there is no speech therapist who can provide a service in Welsh. I have met people who have children with special educational needs in Welsh-medium schools who cannot receive speech therapy through the medium of Welsh. Therefore, is there a strategy on how best to proceed with the provision of speech therapists?

**Rosemary Butler:** Yr ydym yn ymwybodol o'r anawsterau sydd yn bodoli ym maes therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru. Cydnabu Papur Gwyrdd y Llywodraeth ar anghenion addysgol arbennig y pryder cynyddol am y gwasanaethau therapi sydd ar gael, therapi lleferydd ac iaith yn bennaf ar gyfer plant yng Nghymru, gan gynnwys plant sydd yn siarad Cymraeg. Cyfeiriasoch at ddiffyg gwasanaeth therapi yn Abertawe. Awgryma canfyddiadau'r gweithgor therapi, tra ceir anawsterau yn rhanbarthol i recriwtio a chadw therapyddion lleferydd ac iaith cymwysedig, a phroblemau gyda nifer y therapyddion Cymraeg eu hiaith sydd ar gael, prif achos y lefelau gwasanaeth annigonol lle mae'r rhain amlycaf, yw methiant yr awdurdodau iechyd i brynu gwasanaethau digonol i fodloni'r galw. Mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau addysg lleol yn defnyddio adnoddau addysg i gyllido swyddi therapi ychwanegol er mwyn bodloni'n galw.

**David Melding:** Yr wyf yn datgan buddiant fel cadeirydd Ysgol Arbennig Meadowbank, Caerdydd. Mae'r broblem hon yn ddifrifol. Gall y diffyg therapyddion lleferydd gael effaith andwyol ar addysg plant, yn enwedig plant ifanc yn y sector cynradd, pa un ai ydynt yn y ffrwd anghenion arbennig neu'r brif ffrwd. Mae'n faes dwys lle mae angen llawer o staff i ddarparu gwasanaeth da. Yr

Assembly Secretary will agree that the disjunction between health authorities and LEAs can cause real difficulties, and that we need to sort this problem out.

**Rosemary Butler:** The problems are not just about numbers of therapists. You are right, David. There are a number of other factors that impact on the quality of key public services. These include the effectiveness of the interface between child health services and local authorities, clinical effectiveness, the role of teachers and support staff in supporting the work of therapists and the need for stronger multi-agency planning in commissioning a wide range of children's services. The group's work will cover these issues. However, the Sure Start programme, which will focus on 0 to 3-year-olds, is aimed at improving health, the ability to learn and social development of young children in the most deprived areas. It will link into the wider social inclusion agenda, by also providing support for parents and encouraging capacity building in the most disadvantaged communities. Three schemes have been identified as including a speech therapy dimension. These are in Pembrokeshire, Rhondda Cynon Taff and the Vale of Glamorgan.

**Christine Humphreys:** You have touched on the question that I was going to ask, or at least Dai Lloyd has. My question related to the provision of speech and language therapy services through the medium of Welsh, particularly for pupils in Welsh medium schools where the situation can be extremely difficult. Will your report consider of that?

**Rosemary Butler:** Hopefully it will. The Welsh advisory group on special educational needs has Welsh language speakers on it and the Welsh Language Board will be invited to a number of its meetings. However, the issue is training. Training is provided by the University of Wales Institute, Cardiff, which offers a BSc (Honours) in speech and language therapy over four years. There is a contract between the Assembly and UWIC for the provision of this education and training. However, there is no postgraduate

wyf yn sicr y bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn cytuno y gall y datgysylltiad rhwng awdurdodau iechyd ac AALlau achosi gwir anawsterau, a bod yn rhaid inni ddatrys y broblem hon.

**Rosemary Butler:** Mae'r problemau yn fwy na dim ond nifer y therapyddion. Yr ydych yn gywir, David. Ceir nifer o ffactorau eraill sydd yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Ymhlith y rhain y mae'r rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd plant ac awdurdodau lleol, effeithiolrwydd clinigol, rôl athrawon a staff cefnogi wrth gefnogi gwaith therapyddion a'r angen am gynllunio aml-asiantaethol cryfach i gomisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau plant. Bydd gwaith y grŵp yn cynnwys y materion hyn. Fodd bynnag, nod y rhaglen Cychwyn Cadarn, a fydd yn canolbwyntio ar blant rhwng 0 a 3 mlwydd oed, yw gwella iechyd, y gallu i ddysgu a datblygiad cymdeithasol plant ifanc yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Bydd yn cysylltu â'r agenda ehangach ar gynhwysiant cymdeithasol drwy hefyd gynnig cefnogaeth i rieni ac annog y cymunedau mwyaf difreintiedig i ddatblygu eu gallu. Dynodwyd tri chynllun fel rhai sydd yn cynnwys dimensiwn therapi lleferydd. Mae'r rhain yn Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

**Christine Humphreys:** Yr ydych wedi cyffwrdd â'r cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn, neu o leiaf mae Dai Lloyd wedi gwneud hynny. Yr oedd fy nghwestiwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig i ddisgyblion mewn ysgolion Cymraeg lle gall y sefyllfa fod yn anodd dros ben. A fydd eich adroddiad yn ystyried hynny?

**Rosemary Butler:** Bydd, gobeithio. Ceir siaradwyr Cymraeg ar y grŵp ymgynghorol Cymreig ar anghenion addysgol arbennig a gwahoddir Bwrdd yr Iaith Gymraeg i nifer o'i gyfarfodydd. Fodd bynnag, hyfforddiant yw'r pwnc trafod. Darperir hyfforddiant gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, sydd yn cynnig gradd BSc (Anrhydedd) mewn therapi lleferydd ac iaith dros bedair blynedd. Lluniwyd contract rhwng y Cynulliad ac Athrofa'r Brifysgol i ddarparu'r addysg a'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, ni cheir

provision in this area and perhaps needs to be considered.

2:10 p.m.

**Jane Davidson:** That is the issue I want to pick up. Before I became an Assembly Member, when I talked with colleagues in health and social services, it was envisaged that one of the tests of the Assembly would be its ability to deal with cross-cutting initiatives such as speech therapy, where there has been a diminution in services in Wales. One of the key issues was that people who were trained would obtain jobs in the public sector and then move to the private sector for greater remuneration. Can we ensure that we consider graduate training and deal with this cross-cutting issue so that the Assembly starts to dictate the number of speech therapists needed in Wales and issue appropriate guidelines to education and health authorities in the future?

**Rosemary Butler:** We will have to wait for the report and examine the final recommendations. However, all trusts in Wales provide the Assembly with annual workforce plans. The workforce plans identify the number of newly qualified staff required in each profession. The number of speech and language therapists in training is in excess of the identified demand from the trust workforce plans because the training funding for this profession was only recently transferred to health. Demand for training for speech and language therapists was identified at 24 for the university intake in 1998 and 1999. The number who started training was 33 in both years. Therefore, the NHS in Wales is exceeding the training requirements identified by the trusts. However, we need to find what happens to the trainees when they finish the course.

darpariaeth ôl-radd yn y maes hwn ac efallai bod angen ystyried hynny.

**Jane Davidson:** Dyna'r mater yr wyf eisiau ei drafod. Cyn imi ddod yn Aelod o'r Cynulliad, wrth siarad gyda'm cydweithwyr ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rhagwelwyd mai un o'r profion ar y Cynulliad fyddai ei allu i ddelio â mentrau trawsbynciol megis therapi lleferydd, lle bu gostyngiad mewn gwasanaethau yng Nghymru. Un o'r materion allweddol oedd y byddai unigolion hyfforddedig yn cael swyddi yn y sector cyhoeddus cyn symud ymlaen i'r sector preifat i gael taliadau uwch. A allwn sicrhau ein bod yn edrych ar hyfforddiant i raddedigion ac yn delio gyda'r mater trawsbynciol hwn er mwyn i'r Cynulliad ddechrau gorchymyn nifer y therapyddion lleferydd y mae eu hangen yng Nghymru a chyflwyno canllawiau addas i awdurdodau addysg ac iechyd yn y dyfodol?

**Rosemary Butler:** Bydd yn rhaid inni aros am yr adroddiad ac archwilio'r argymhellion terfynol. Fodd bynnag, mae pob ymddiriedolaeth yng Nghymru yn cyflwyno cynlluniau gweithlu blynyddol i'r Cynulliad. Mae'r cynlluniau gweithlu yn dynodi nifer y staff newydd gymhwyso y mae eu hangen ym mhob proffesiwn. Mae nifer y therapyddion lleferydd ac iaith sydd yn hyfforddi yn fwy na'r galw a ddynodwyd yng nghynlluniau gweithlu'r ymddiriedolaethau gan mai dim ond yn ddiweddar y trosglwyddwyd cyllid hyfforddiant y proffesiwn hwn i'r maes iechyd. Dynodwyd bod galw am hyfforddi 24 o therapyddion lleferydd ac iaith ym mlynnyddoedd derbyn 1998 ac 1999 y brifysgol. Y nifer a ddechreuodd yr hyfforddiant oedd 33 yn y ddwy flynedd. Felly, mae'r NHS yng Nghymru yn rhagori ar y gofynion hyfforddi a ddynodwyd gan yr ymddiriedolaethau. Fodd bynnag, rhaid inni ganfod beth sydd yn digwydd i hyfforddedigion ar ôl iddynt orffen y cwrs.

### Safonau Cyrhaeddiad ac Ansawdd Adeiladau Standards of Achievement and Quality of Accommodation

**Q2 Janet Ryder:** Will Rosemary Butler make a statement on the link between

**C2 Janet Ryder:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch y cysylltiad rhwng



standards of achievement and quality of accommodation made in the Estyn report 1998-99? (OAQ4644)

**Rosemary Butler:** In 53 per cent of primary schools inspected in 1998-99, the quality of accommodation was judged to be good or very good. Deficiencies were identified in the remainder. In 5 per cent of primary schools these deficiencies had a marked negative effect on standards achieved by pupils. In a further 50 per cent, shortcomings and standards of achievement could be linked to varying degrees of efficiencies in accommodation. The quality of accommodation in secondary schools inspected was judged to be good or very good in 41 per cent of schools. The effect on standards was unsatisfactory in 5 per cent and poor in another 5 per cent. In a further 46 per cent, shortcomings in standards of achievement could be linked to deficiencies in accommodation. The subjects most affected by unsatisfactory accommodation were science, physical education, information technology, English and geography.

**Janet Ryder:** Given those clear links between poor standards of accommodation and educational achievement, I am sure that you would agree that something needs to be done in the long term to start addressing this backlog of repairs that we face in Wales. We welcome the extra £25 million that is going into school buildings from last week's budget announcement. However, it is just a drop in the ocean compared to the £325 million backlog. Can you assure me that this funding will be sustained? Schools and local education authorities need to be assured of sustainable funding in order to plan appropriately if this terrible situation is to be improved.

**Rosemary Butler:** We are increasing provision for investment in schools to ensure that all schools are fit for purpose. That is core to the whole of our strategies. Under our plans, around £175 million is being made available in 2000-01 and 2001-02 to fund capital works. As you said, we announced last week an additional input by Gordon

safonau cyrhaeddiad ac ansawdd adeiladau a wnaethpwyd yn adroddiad Estyn 1998-1999? (OAQ4644)

**Rosemary Butler:** Mewn 53 y cant o'r ysgolion cynradd a arolygwyd yn 1998-99, dyfarnwyd bod ansawdd adeiladau yn dda neu'n dda iawn. Dynodwyd diffygion yn y gweddill. Mewn 5 y cant o'r ysgolion cynradd câi'r diffygion hyn effaith negyddol amlwg ar safonau cyrhaeddiad disgyblion. Mewn 50 y cant arall, gellid cysylltu gwendidau a safonau cyrhaeddiad gyda gwahanol raddau o effeithlonrwydd mewn adeiladau. Dyfarnwyd bod ansawdd adeiladau mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd yn dda neu'n dda iawn mewn 41 y cant o ysgolion. Yr oedd yr effaith ar safonau yn anfoddhaol mewn 5 y cant ac yn wael mewn 5 y cant arall. Mewn 46 y cant arall, gellid cysylltu gwendidau mewn safonau cyrhaeddiad gyda diffygion mewn adeiladau. Y pynciau yr oedd adeiladau anfoddhaol yn effeithio fwyaf arnynt oedd gwyddoniaeth, addysg gorfforol, technoleg gwybodaeth, Saesneg a daearyddiaeth.

**Janet Ryder:** O gofio'r cysylltiadau eglur hynny rhwng safonau gwael adeiladau a chyrhaeddiad addysgol, yr wyf yn sicr y byddech yn cytuno bod yn rhaid gwneud rhywbeth yn y tymor hir i ddechrau mynd i'r afael â'r holl waith atgyweirio sydd wedi cronni ac sydd yn ein hwynebu yng Nghymru. Yr ydym yn croesawu'r £25 miliwn ychwanegol a fydd yn mynd tuag at adeiladau ysgolion yn sgîl cyhoeddiad cyllideb yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, diferyn bach yn y môr yw hyn o'i gymharu â'r pentwr gwaith gwerth £325 miliwn sydd i'w wneud. A allwch fy sicrhau y bydd y cyllid hwn yn parhau? Mae ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol angen sicrwydd cyllid cynaliadwy er mwyn cynllunio'n briodol os yw'r sefyllfa echrydus hon yn mynd i wella.

**Rosemary Butler:** Yr ydym yn cynyddu'r ddarpariaeth i fuddsoddi mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn addas at y pwrpas. Mae hyn yn greiddiol i'n holl strategaethau. Dan ein cynlluniau, bydd tua £175 miliwn ar gael yn 2000-01 a 2001-02 i gyllido gwaith cyfalaf. Fel y dywedaso, cyhoeddassom yr wythnos diwethaf gyfraniad

Brown. As part of a forthcoming round of meetings on school capital programmes, officials will talk to local authorities about inspection findings on the condition of schools in their area. General capital funding for education spending by local authorities will increase by £1.5 million to £44.4 million this year and to £54.9 million next year. Additional funding of £30 million under the New Deal additional capital funding for schools initiative over two years will help tackle the backlog of repairs. We also have 10 private finance initiative schemes for building schools throughout Wales. This is a major problem and we are beginning to address it. I cannot guarantee how much money we will have in future but we will make sure that we get as large a slice as possible of our budget. We must ensure that local authorities generate that into new build and repairs.

**Jonathan Morgan:** Bearing in mind Estyn's damning indictment last week that 50 per cent of schools in Wales that were inspected showed deficiencies that required repair or renovation, what will you do to ensure that education budgets for capital expenditure are ring-fenced in the years ahead?

**Rosemary Butler:** I do not think that we can ring-fence. We must ensure that local authorities wish to take on board our strategy, which is to ensure that all schools in Wales are fit for purpose. Responsibility for school conditions rests with local authorities. Governing bodies are responsible for the use of funding, for routine repairs and maintenance, and that is now included in their delegated budgets. We must be aware of our priorities and all work in the same direction at Partnership Council level and at my level in discussions with the education spokesman, Jeff Jones of the Welsh Local Government Association. Local authorities are keen that we do that. No local authority in Wales that wants to have the reputation of having schools that are not fit for purpose.

ychwanegol, gan Gordon Brown. Fel rhan o gylch o gyfarfodydd a gynhelir maes o law ar raglenni cyfalaf ysgolion, bydd swyddogion yn siarad gydag awdurdodau lleol am ganfyddiadau arolygiadau ar gyflwr ysgolion yn eu hardal. Bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer gwariant awdurdodau lleol ar addysg yn cynyddu £1.5 miliwn i £44.4 miliwn y flwyddyn hon ac i £54.9 miliwn y flwyddyn nesaf. Bydd cyllid ychwanegol o £30 miliwn dan fenter cyllid cyfalaf ychwanegol i ysgolion y Fargen Newydd dros ddwy flynedd yn helpu i ddelio â'r holl waith atgyweirio sydd wedi cronni. Mae gennym hefyd 10 cynllun menter cyllid preifat ar gyfer adeiladu ysgolion ledled Cymru. Mae hon yn broblem ddifrifol ac yr ydym yn dechrau mynd i'r afael â hi. Ni allaf roi sicrwydd o faint o arian a fydd gennym yn y dyfodol ond byddwn yn sicrhau ein bod yn cael tafell mor fawr â phosibl o'n cyllideb. Rhaid inni sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio hynny ar gyfer atgyweiriadau ac adeiladau newydd.

**Jonathan Morgan:** Gan gofio cyhuddiad damniol Estyn yr wythnos diwethaf fod 50 y cant o'r ysgolion yng Nghymru a arolygwyd yn dangos diffygion a oedd yn gofyn am waith atgyweirio neu adnewyddu, beth a wnewch i sicrhau bod cyllidebau addysg ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael eu pridiannu yn ystod y blynyddoedd nesaf?

**Rosemary Butler:** Nid wyf yn meddwl y gallwn bridianu. Rhaid inni sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn dymuno derbyn a defnyddio ein strategaeth, sydd â'r nod o sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn addas at y pwrpas. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyflwr ysgolion. Y cyrff llywodraethu sydd yn gyfrifol am ddefnyddio'r cyllid, ar gyfer gwaith cynnal a chadw a thrwsio arferol, a chynhwysir hyn yn awr yn eu cyllidebau dirprwyedig. Rhaid inni fod yn ymwybodol o'n blaenoriaethau a rhaid i bawb weithio i'r un cyfeiriad ar lefel y Cyngor Partneriaeth ac ar fy lefel i mewn trafodaethau gyda'r llefarydd addysg, Jeff Jones o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r awdurdodau lleol yn awyddus inni wneud hynny. Nid yw unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru eisiau cael enw drwg am fod ganddo ysgolion nad ydynt yn addas at y pwrpas.

**Jenny Randerson:** I am sure that you share my sense of frustration about the state of school buildings in Wales. However, I do not expect you to share my view that private finance initiative projects are of limited value. They deal well with the shiny new school but do not cope with the need to replace the outside toilet block or the leaking roof, which figure large in the list of necessary repairs to school buildings. I understand your comment about ring-fencing, although I do not always agree with that view. When money is given to local authorities with a view to dealing with specific projects, such as nursery provision, what steps are taken to ensure that that money is properly and efficiently spent and fully accounted for?

**Rosemary Butler:** You may not agree with PFI but, as we have already said, the condition of schools in Wales has been so dire, with lack of investment during the 18 years prior to the Labour Government, that we needed to address it from a number of angles that included PFI. The £25 million that we announced last week will be for school building and repairs. The £30 million under the New Deal is subject to bids but my officials are looking carefully at how and where the money is being spent. The WLGA is also monitoring carefully how its members are spending the money. You will find that money earmarked for education is being spent on education.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn sicr eich bod yn rhannu fy ymdeimlad o rwystredigaeth am gyflwr adeiladau ysgolion yng Nghymru. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl ichi rannu fy marn mai gwerth cyfyngedig sydd yna i brosiectau menter cyllid preifat. Maent yn delio'n dda gydag ysgolion newydd sbon ond nid ydynt yn ymdopi gyda'r angen i osod toiledau newydd ar iard ysgolion na thoeau newydd yn lle'r rhai sydd yn gollwng, sydd yn amlwg yn y rhestr o atgyweiriadau angenrheidiol i adeiladau ysgolion. Yr wyf yn deall eich sylwadau am briodiannu cyllid, er nad wyf bob amser yn cytuno â'r farn honno. Pan roddir arian i awdurdodau lleol gyda'r bwriad o ddelio gyda phrosiectau penodol, megis darpariaeth feithrin, pa gamau a gymerir i sicrhau bod yr arian hwnnw yn cael ei wario'n briodol ac yn effeithlon a bod modd rhoi cyfrif am bob ceiniog ohono?

**Rosemary Butler:** Efallai nad ydych yn cytuno gyda'r fenter cyllid preifat ond, fel y dywedasom eisoes, mae cyflwr ysgolion yng Nghymru wedi bod mor druenus, oherwydd diffyg buddsoddiad yn ystod y 18 mlynedd cyn y Llywodraeth Lafur, fel bod yn rhaid inni ddelio â hyn o nifer o onglau a oedd yn cynnwys y fenter cyllid preifat. Bydd y £25 miliwn ychwanegol a gyhoeddasom yr wythnos diwethaf yn mynd tuag at atgyweirio ac adeiladu ysgolion. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y £30 miliwn sydd ar gael dan y Fargen Newydd, ond mae fy swyddogion yn edrych yn ofalus ar sut ac ym mha le y mae'r arian yn cael ei wario. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn monitro'n ofalus sut y mae ei haelodau yn gwario'r arian. Fe welwch fod yr arian a glustnodwyd ar gyfer addysg yn cael ei wario ar addysg.

### **Anghenion Addysgol Arbennig (Deunyddiau Cyfrwng Cymraeg) Special Educational Needs (Welsh Medium Materials)**

**C3 Rhodri Glyn Thomas:** Beth y mae Rosemary Butler yn bwriadu ei wneud i gynyddu'r deunyddiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer anghenion addysgol arbennig? (OAQ4639)

**Rosemary Butler:** The availability of the SEN teaching and assessment materials will

**Q3 Rhodri Glyn Thomas:** What does Rosemary Butler intend to do to increase the materials available for special educational needs through the medium of Welsh? (OAQ4639)

**Rosemary Butler:** Byddwn yn archwilio i'r deunyddiau addysgu ac asesu sydd ar gael ar

be examined as part of an ongoing review of SEN policy and practice. We will work with the Welsh Language Board in addressing a range of priority issues that were identified in the Board's recent conference on Welsh-medium SEN provision.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am nodi bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi tynnu ein sylw at yr angen hwn. A ydych yn hyderus bod gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru y strwythurau mewnol i sicrhau bod y deunyddiau hyn yn cael eu darparu ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion unigol?

**Rosemary Butler:** We instruct ACCAC on what it should commission, and it does so. However, ACCAC is not the only group that should be providing Welsh-medium and other resources to schools. There is a whole raft of private publishing companies that do much work in this field. We are looking carefully to ensure that we get a good spread. I am concerned that schools have good information technology equipment but that they do not have the software in Welsh to deliver the curriculum. Estyn published a report in 1997 on the implementation of the SEN Code of Practice in primary schools in Wales, during the first two years of the code. The report, which is available in the Library, made no distinction between the standards achieved in English-medium schools and those achieved in Welsh-medium schools with regard to the provision for pupils with SEN. We must address the whole issue, but I am looking closely at Welsh-medium provision for pupils with SEN.

2:20 p.m.

**Alun Cairns:** Mae'n amlwg bod y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg—yn enwedig yn ein hysgolion cynradd—yn cynyddu. Mae llawer o bwysau ar rai ysgolion yn enwedig yn Abertawe. Yn Ysgol Gynradd Bryn y Môr, er enghraifft, nid oes digon o le i'r plant chwarae yn ystod yr awr ginio. Bu'n rhaid iddynt gyflwyno system sifft. Pa gynlluniau sydd gennych i estyn darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

gyfer AAA fel rhan o arolwg parhaus o bolisi ac ymarfer AAA. Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fynd i'r afael ag amrediad o faterion blaenoriaeth a ddynodwyd yng nghynhadledd ddiweddar y Bwrdd ar y ddarpariaeth AAA cyfrwng Cymraeg.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for noting that the Welsh Language Board has drawn our attention to this need. Are you confident that the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales has the internal structures to ensure that these materials are provided for local authorities and individual schools?

**Rosemary Butler:** Nyni sydd yn rhoi cyfarwyddiadau i ACCAC am yr hyn y dylai ei gomisiynu, ac mae'n gwneud hynny. Fodd bynnag, nid ACCAC yw'r unig grŵp a ddylai fod yn darparu adnoddau cyfrwng Cymraeg ac adnoddau eraill i ysgolion. Ceir llond gwlad o gwmnïau cyhoeddi preifat sydd yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn. Yr ydym yn edrych yn ofalus i sicrhau ein bod yn cael amrywiaeth dda. Yr wyf yn bryderus bod gan ysgolion offer technoleg gwybodaeth da ond nad oes ganddynt y meddalwedd Cymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Yn 1997, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar weithredu'r Cod Ymarfer AAA mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, yn ystod dwy flynedd gyntaf y cod. Nid oedd yr adroddiad, sydd ar gael yn y Llyfrgell, yn dangos unrhyw wahaniaethau rhwng y safonau a gyrhaeddwyd mewn ysgolion Saesneg a'r rheini a gyrhaeddwyd mewn ysgolion Cymraeg o safbwynt y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Rhaid inni ddelio â'r mater yn ei gyfanrwydd, ond yr wyf yn edrych yn agos ar ddarpariaeth Gymraeg i ddisgyblion ag AAA.

**Alun Cairns:** It is evident that the call for Welsh-medium education—particularly in our primary schools—is increasing. There is considerable pressure on some schools especially in Swansea. Bryn y Môr Primary School for example does not have enough room for the children to play in the playground during the lunch hour. They have had to introduce a shift system. What plans do you have to extend the provision of

yn enwedig yn Abertawe?

Welsh-medium education, particularly in Swansea?

**Rosemary Butler:** The original question was about SEN and its delivery through the medium of Welsh. I accept that you have a lateral frame of mind and tend to bring in other things. We are considering this issue. It is not only a Welsh medium issue. We must ensure that children have space to play and the facilities that they deserve in their schools. It is up to Swansea's LEA to develop an educational strategic plan to ensure that all forms of education requested in that area are catered for.

**Rosemary Butler:** Yr oedd y cwestiwn gwreiddiol yn ymwneud ag AAA a'r modd y'i cyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr wyf yn derbyn bod gennych feddwl ochrol a'ch bod yn tueddu i gynnwys pethau eraill. Yr ydym yn ystyried y mater hwn. Nid mater cyfrwng Cymraeg yn unig ydyw. Rhaid inni sicrhau bod gan blant le i chwarae a'r cyfleusterau y maent yn eu haeddu yn eu hysgolion. Mater i AALl Abertawe yw llunio cynllun strategol addysg i sicrhau y darperir ar gyfer yr holl fathau o addysg y mae galw amdanynt yn yr ardal.

**Lorraine Barrett:** Do you have any plans to address the length of time taken between identification and action for SEN pupils in Wales generally? Many parents are concerned that there is a long period of time before anything is done.

**Lorraine Barrett:** A oes gennych unrhyw gynlluniau i ddelio â'r amser a gymerir rhwng darganfod disgyblion AAA a gweithredu ar eu cyfer yng Nghymru yn gyffredinol? Mae llawer o rieni yn pryderu bod llawer o amser yn mynd heibio cyn i unrhyw beth gael ei wneud.

**Rosemary Butler:** It is part of the Assembly's approach. The Assembly must ensure that it has early intervention and diagnosis of a child's problems. As we said in previous debates, the sooner that we identify these problems, the sooner we can address them. The Welsh Advisory Group on Special Needs is considering that. We will also address that in our early years' discussions in the Committee. We had a good debate on it yesterday. It is essential that disabilities such as those are identified early on. That is part of the educational strategic plan for local education authorities and we will also consider it when reviewing our SEN guidelines. That needs to be at the forefront.

**Rosemary Butler:** Mae hyn yn rhan o ddull gweithredu'r Cynulliad. Rhaid i'r Cynulliad sicrhau ei fod yn ymyrryd ac yn gwneud diagnosis o broblemau plentyn yn fuan. Fel y dywedasom mewn dadleuon blaenorol, gyntaf yn y byd y darganfyddwn y problemau hyn, cyntaf yn y byd y gallwn ddelio â nhw. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Cymreig ar Anghenion Arbennig yn ystyried hyn. Byddwn hefyd yn delio â hynny yn ein trafodaeth ar y blynyddoedd cynnar yn y Pwyllgor. Cawsom ddadl dda am hyn ddoe. Mae'n holl bwysig bod anableddau o'r fath yn cael eu darganfod yn fuan. Mae hwn yn rhan o'r cynllun strategol addysg ar gyfer awdurdodau addysg lleol a byddwn hefyd yn ei ystyried wrth adolygu ein canllawiau AAA. Rhaid i hynny fod yn flaenllaw.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development**

### **Cnydau a Addaswyd yn Enetig Genetically Modified Crops**

**Q1 Christine Humphreys:** Are there any GM crops in Wales that might have been grown pursuant to marketing consents granted under part C of Directive 90/220

**C1 Christine Humphreys:** A oes unrhyw gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a allai fod wedi cael eu tyfu yn unol â chaniatâd marchnata a roddwyd o dan ran C

EEC, and what system is in place to ensure that both the Secretary for Agriculture and Rural Development and the public know of the location of any such crops? (OAQ4597)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** Under the agreement reached between the UK Government and the industry, there will be no commercial growing of genetically modified crops in the UK until the completion of the farm scale evaluations in 2003. Once the relevant part C commissions have been obtained, the crops can be marketed anywhere in Europe without notification.

**Christine Humphreys:** Considering the extra money that the Assembly has recently allocated to organic farming, organic farmers may need to know in the future about the location of any GM crops. What systems will you be setting up to locate these crops?

**Christine Gwyther:** Farm scale evaluation sites are available on the internet and through specific interest groups. I share your concern that these must be made as publicly available as possible.

**Rhodri Glyn Thomas:** A ydych yn cytuno—oherwydd gwaith y Cynulliad a'r math o agenda sydd gennym ar gyfer cefn gwlad a'r diwydiant amaethyddol—fod delwedd Cymru a chanfyddiad y cyhoedd o'r ddelwedd honno yn aruthrol o bwysig? Mae bwyd organig, bod yn gyfeillgar i'r amgylchedd, a chynnyrch o'r safon uchaf posibl o ddiddordeb iddynt. A ydych hefyd yn cytuno bod y penderfyniad yn ystod y dyddiau diwethaf i osod yr hedyn Chardon LL ar y rhestr wedi ennyn adwaith cyhoeddus ac wedi niweidio'r ddelwedd a'r canfyddiad pwysig hwnnw?

**Christine Gwyther:** Rhodri Glyn is being more intellectual about this subject than factual. It is important that, when we discuss this issue, we pay full regard to open government. That was one of the main reasons I decided, along with the previous Chair of the Agriculture and Rural

Cyfarwydddeb 90/220/CEE, a pha system sydd yn ei lle er mwyn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r cyhoedd yn gwybod lle mae unrhyw gnydau o'r fath? (OAQ4597)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Dan y cytundeb a luniwyd rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant, ni chaiff cnydau a addaswyd yn enetig eu tyfu yn fasnachol yn y DU nes cwblhau'r arfarniadau ar raddfa ffermydd yn 2003. Unwaith y byddwn wedi cael y comisiynau rhan C perthnasol, gellir marchnata'r cnydau yn unrhyw le yn Ewrop heb roi gwybod am hynny.

**Christine Humphreys:** O ystyried yr arian ychwanegol y mae'r Cynulliad newydd ei ddyrannu i ffermio organig, efallai y bydd yn rhaid i ffermwyr organig wybod, yn y dyfodol, am leoliad unrhyw gnydau a addaswyd yn enetig. Pa systemau y byddwch yn eu sefydlu i leoli'r cnydau hyn?

**Christine Gwyther:** Mae safleoedd yr arfarniadau ar raddfa ffermydd ar gael ar y rhyngwrwyd a thrwy grwpiau diddordeb penodol. Yr wyf yn rhannu eich pryder y bydd yn rhaid sicrhau bod y rhain mor hawdd â phosibl i'r cyhoedd gael gafael arnynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Do you agree—because of the Assembly's work and the kind of agenda that we have for rural areas and the agricultural industry—that the image of Wales and the public perception of that image is extremely important? Organic food, being eco-friendly and produce of the highest quality possible is of interest to them. Do you also agree that the decision during the last few days to put the Chardon LL seed on the list has engendered a public reaction and damaged that important image and perception?

**Christine Gwyther:** Mae Rhodri Glyn yn bod yn fwy deallusol na ffeithiol am y pwnc hwn. Mae'n bwysig ein bod, wrth drafod y mater hwn, yn rhoi sylw llawn i lywodraeth agored. Dyna oedd un o'r prif resymau pam y penderfynais, ynghyd â chyn Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu

Development Committee, to bring this issue to the Committee. We had a good meeting on it. The Committee decided to recommend that I do not list the seed. With your indulgence, Llywydd, I will read the recommendation:

‘In view of the Committee’s vision for Wales to advise the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development to propose not adding the seed, Chardon LL, to the National List. We recognise though, that this is an executive decision, which will be taken by Christine Gwyther in the light of the responsibilities of her office’.

It is important to communicate that message. The media has not broadcast it in the last week since the decision was made. It was an executive decision, which was based on fact, not emotion.

**William Graham:** You will know that GM rape hybridises easily with non-GM rape, and that pollination can occur up to 10 kilometres away. You will also know how notoriously promiscuous brassicas are. I speak in botanical terms. Brassicas are plants such as wild cabbage, turnip, radish and charlock. Being so notoriously promiscuous, they work for adaptive changes in weed species. Now that you have licensed this crop, how will you control it?

**Christine Gwyther:** The evidence that we took in the Committee meeting last week, made it clear that Chardon LL, T25 or forage maize cannot exist in the wild. There are no wild species in Britain with which it can cross-pollinate. It is a dead crop unless it is farmed and managed. Therefore, I am convinced that there is no possibility of Chardon LL cross-fertilising with other species in the UK.

Gwledig, i ddod â'r mater hwn gerbron y Pwyllgor. Cawsom gyfarfod da ynghylch hyn. Penderfynodd y Pwyllgor fy argymhell i beidio â gosod yr hedyn hwn ar y rhestr. Gyda'ch caniatâd, Lywydd, darllenaf yr argymhelliad:

‘Yng ngoleuni gweledigaeth y Pwyllgor i Gymru yr ydym yn cynghori Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad i gynnig peidio ag ychwanegu'r hedyn, Chardon LL, at y Rhestr Genedlaethol. Yr ydym yn cydnabod serch hynny, fod hwn yn benderfyniad gweithredol, y bydd Christine Gwyther yn ei wneud yng ngoleuni cyfrifoldebau ei swydd’.

Mae'n bwysig cyfathrebu'r neges honno. Nid yw'r cyfryngau wedi ei darlledu yn ystod yr wythnos diwethaf ers gwneud y penderfyniad. Penderfyniad gweithredol ydoedd, a oedd yn seiliedig ar ffeithiau, nid emosiynau.

**William Graham:** Byddwch yn gwybod bod rêp wedi ei addasu yn enetig yn croesi'n rhwydd gyda rêp heb ei addasu yn enetig, ac y gall peillio ddigwydd hyd at 10 cilomedr i ffwrdd. Byddwch hefyd yn gwybod pa mor amryfath yw cnydau bresych. Yr wyf yn siarad mewn termau botanegol. Planhigion fel bresych gwyllt, maip, rhuddygl a mwstard gwyllt yw cnydau bresych. Gan eu bod mor amryfath, maent yn gweithio i gael newidiadau ymaddasol mewn rhywogaethau chwyn. Yn awr eich bod wedi trwyddedu'r cnwd hwn, sut y byddwch yn ei reoli?

**Christine Gwyther:** Dynodai'r dystiolaeth a gawsom yn y cyfarfod Pwyllgor yr wythnos diwethaf yn glir na all Chardon LL, T25 nag india-corn porthi fodoli yn y gwyllt. Ni cheir unrhyw rywogaethau gwyllt y gall groesbeillio gyda hwy ym Mhrydain. Mae'n gnwd marw oni chaiff ei ffermio a'i reoli. Felly, yr wyf yn argyhoeddedig nad oes unrhyw bosibilrwydd i Chardon LL groesffrwythloni gyda rhywogaethau eraill yn y DU.

### **Cynllun Premiwm Blynnyddol Defaid Sheep Annual Premium Scheme**

**Q2 Janet Davies:** What total percentage of claims submitted under the sheep annual premium scheme were a) reduced and b)

**C2 Janet Davies:** Beth oedd cyfanswm canran yr hawliadau a gyflwynwyd o dan y cynllun premiwm blynnyddol defaid a) a

rejected in 1998 and 1999? (OAQ4542)

**Christine Gwyther:** We rejected 0.92 per cent—132 cases—of sheep annual premium claims in 1998, and 1.68 per cent—239 cases—in 1999. We do not maintain readily accessible data on the number of claims reduced.

**Janet Davies:** That is a significant improvement on earlier years. However, any loss makes the farming crisis much worse and our claims rate has been poor compared with other European regions. What measures are you taking to increase acceptance of claims in total?

**Christine Gwyther:** Practical issues are being dealt with in divisional offices. One of these is the provision of a standard flock record book to all sheep farmers in Wales to help them keep a record. For many years, farmers have not kept a proper record, or have written their records on pieces of paper and lost them, which has been a problem. Now that they have this standard record book, we hope it will help them keep their records. You mentioned that things have improved. It is a credit to producers in Wales that there is generally a low rejection rate.

**Peter Rogers:** What representations have you made to the European Union concerning the planned changes to the European Economic Community sheep regime, so that Welsh sheep farmers do not suffer further hardships?

2:30 p.m.

**Christine Gwyther:** This is on the books of the European Union and my officials are discussing it informally with the EU. The time has not yet come for formal representations, but when I went to the Agriculture Council in Brussels recently, I made those informal representations on every possible occasion. I assure you that the channels of communication are open. The

ostyngwyd a b) a wrthodwyd yn 1998 ac yn 1999? (OAQ4542)

**Christine Gwyther:** Gwrthodasom 0.92 y cant—132 o achosion—o hawliadau dan y cynllun premiwm blynyddol defaid yn 1998, ac 1.68 y cant—239 o achosion—yn 1999. Nid ydym yn cadw data y gellir cael gafael arno'n hawdd am nifer yr hawliadau a ostyngwyd.

**Janet Davies:** Mae hynny'n welliant sylweddol ar flynyddoedd cynt. Fodd bynnag, mae unrhyw golled yn gwneud yr argyfwng ffermio yn llawer gwaeth a bu ein cyfradd hawliadau yn wael o'i chymharu â rhanbarthau eraill Ewrop. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i gynyddu cyfanswm yr hawliadau a gaiff eu derbyn?

**Christine Gwyther:** Oddi mewn i'r swyddfeydd adrannol y delir â materion ymarferol. Un o'r materion hyn yw darparu llyfr cofnodi praidd sylfaenol i bob ffermwr defaid yng Nghymru i'w helpu i gadw cofnod. Am lawer o flynyddoedd, nid yw ffermwyr wedi cadw cofnod cywir, neu maent wedi ysgrifennu eu cofnodion ar ddarnau o bapur ac wedi eu colli, a bu hyn yn broblem. Yn awr fod ganddynt y llyfr cofnodion sylfaenol hwn, yr ydym yn gobeithio y bydd yn eu helpu i gadw eu cofnodion. Crybwyllasoch fod pethau wedi gwella. Mae'n glod i gynhyrchwyr yng Nghymru y ceir cyfradd gwrthod cyffredinol is.

**Peter Rogers:** Pa sylwadau yr ydych wedi eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeidd ynghylch y newidiadau y bwriedir eu gwneud i drefn defaid Cymuned Economaidd Ewrop, fel nad yw ffermwyr defaid Cymru yn dioddef rhagor o galedi?

**Christine Gwyther:** Mae hyn ar lyfrau'r Undeb Ewropeaidd ac mae fy swyddogion wrthi'n trafod hyn yn anffurfiol gyda'r UE. Nid yw'n amser, eto, i gyflwyno sylwadau ffurfiol, ond pan euthum i'r Cyngor Amaethyddol ym Mrwsel yn ddiweddar, cyflwynais y sylwadau anffurfiol hynny bob tro yr oedd hynny'n bosibl. Yr wyf yn eich sicrhau bod y sianelau cyfathrebu ar agor.



formal representations will be made through Nick Brown.

**Peter Black:** A great deal of paperwork is filled in by farmers and often the simplest mistake can lead to large cash penalties. What are you doing to address that? Will you consider setting up an independent appeals panel to consider disputes about whether or not a farmer has made a mistake or whether or not these penalties should be incurred?

**Christine Gwyther:** We are attacking all aspects of this problem, including setting up an independent appeals panel. That had great political weight behind it before the Assembly elections. There is now cross-party support for an independent appeals panel for farming. Occasionally, when I have visited farms, people have said that it will just be jobs for the boys. I want to scotch that rumour. This will be a tight unit and will be there to service farmers. It will not be just another level of bureaucracy.

Caiff y sylwadau ffurfiol eu cyflwyno drwy Nick Brown.

**Peter Black:** Mae ffermwyr yn gwneud llawer iawn o waith papur ac, yn aml, gall y camgymeriad symlaf arwain at gosbau ariannol mawr. Beth ydych yn ei wneud i ddelio â hynny? A wnewch chi ystyried ffurfio panel apeliadau annibynnol i bwysu a mesur anghydfodau ynghylch a yw ffermwr wedi gwneud camgymeriad ai peidio neu a ddylid pennu'r cosbau hyn ai peidio?

**Christine Gwyther:** Yr ydym yn ymosod ar bob agwedd ar y broblem hon, gan gynnwys ffurfio panel apeliadau annibynnol. Yr oedd gan hyn gryn bwysau gwleidyddol y tu ôl iddo cyn etholiadau'r Cynulliad. Yn awr, ceir cefnogaeth ar draws y pleidiau i banel apeliadau annibynnol ar gyfer ffermio. Ar achlysuron, wrth ymweld â ffermydd mae pobl wedi dweud mai dim ond swyddi i'r bechgyn fydd hyn. Yr wyf eisiau atal y sibrydion hyn. Bydd hon yn uned drylwyr a bydd yn bodoli er mwyn gwasanaethu ffermwyr. Nid lefel arall o fiwrocratiaeth yn unig mohoni.

### **Cwmnïau Llaethdai Preifat Private Dairy Companies**

**C3 Ieuan Wyn Jones:** A yw Christine Gwyther wedi cynnal trafodaethau gyda chwmnïau llaethdai preifat ynglŷn â'r pris y mae ffermwyr yn ei gael am eu cynnyrch? (OAQ4603)

**Christine Gwyther:** I have met a number of dairy companies as well as the Dairy Industry Federation to discuss a range of issues relating to the industry. I shall meet them again shortly, as well as major retail companies, to discuss the prices paid to dairy farmers for their produce.

**Ieuan Wyn Jones:** A gytunwch, er bod ffermwyr yn croesawu'r arian a ddaw o Ewrop o dan y cynllun amaeth-arianyddol, mai rhywbeth i'w cynorthwyo dros dro yw hynny? Mae arnom angen strategaeth dymor hir gan fod y sector llaeth mewn sefyllfa argyfyngus. A gytunwch fod angen inni gael trafodaethau manwl gyda llaethdai preifat ac archfarchnadoedd er mwyn iddynt sylweddoli

**Q3 Ieuan Wyn Jones:** Has Christine Gwyther held discussions with private dairy companies regarding the price farmers receive for their produce? (OAQ4603)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi cwrdd â nifer o gwmnïau llaethdai yn ogystal â Ffederasiwn y Diwydiant Llaeth i drafod amrywiaeth o faterion sydd yn ymwneud â'r diwydiant. Byddaf yn cwrdd â nhw eto yn fuan, yn ogystal â chwmnïau adwerthu mawr, i drafod y prisiau a delir i ffermwyr llaeth am eu cynnyrch.

**Ieuan Wyn Jones:** Do you agree that, although farmers welcome the money that will come from Europe under the agri-monetary scheme, it is something that will help them temporarily? We need a long-term strategy because the dairy sector is in dire straits. Do you agree that we need to hold detailed discussions with private dairies and supermarkets so that they realise that they

bod ganddynt gyfrifoldeb i ddiogelu diwydiant amaeth ffyniannus ac fel y gall y ffermwyr llaeth sicrhau bywiolaeth iddynt hwy a'u teuluoedd?

**Christine Gwyther:** Major supermarkets were present at last week's summit as well as producers, politicians and unions, which was positive. They said that they were willing to talk to producers, which is important because that communication channel has not always been open. On Government intervention, the Competition Commission's monopoly inquiry into the effect of supermarkets and the way that they conduct their buying is taking place. We should have their findings by the end of April. I will bring them to the Assembly as soon as possible. That will be beneficial. At the summit, the supermarket supremos said that strong buyers prefer to deal with strong sellers. That is cogent for the work that we do in Wales, not only with the livestock co-operative but also in helping our dairy companies where and when we can.

**Dafydd Wigley:** Do you not agree that there is no question of a loss of public interest as far as the Competition Commission is concerned, if the alternative would be for the dairy industry to cease to exist, and that there is a lack of produce for the housewife in the supermarkets? Will you put pressure on those supermarkets that have not followed the lead of two of them to participate in this? The alternative is to lose this industry. People are giving up dairy farming because it is more beneficial to lease out the quota than to do the work. That cannot be the basis for the future of such a vital industry in Wales.

**Christine Gwyther:** I clarify that the agri-monetary compensation for dairy farmers will only go to people who produce milk and not to those who lease out quotas. It is important to channel the money so that it goes to those who deserve it rather than to 'sofa' or 'pub' farmers or whatever you want to call them.

have a responsibility to safeguard a flourishing agricultural industry and so that dairy farmers can secure a livelihood for themselves and their families?

**Christine Gwyther:** Yr oedd archfarchnadoedd blaenllaw yn yr uwch-gynhadledd yr wythnos diwethaf, yn ogystal â chynhyrchwyr, gwleidyddion ac undebau, ac yr oedd hynny'n gadarnhaol. Dywedasant eu bod yn barod i siarad gyda chynhyrchwyr; mae hyn yn bwysig gan na fu'r sianel gyfathrebu hon ar agor bob amser. O safbwynt ymyrraeth y Llywodraeth, mae ymchwiliad monopoli y Comisiwn Cystadleuaeth i effaith yr archfarchnadoedd a'r modd y maent yn cynnal eu gweithgareddau prynu yn mynd rhagddo. Dylai eu canfyddiadau fod mewn llaw erbyn diwedd Ebrill. Dof â nhw gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl. Bydd hynny'n fanteisiol. Yn yr uwch-gynhadledd, dywedodd penaethiaid yr archfarchnadoedd fod yn well gan brynwyr cryf ddelio gyda gwerthwyr cryf. Mae hyn yn argyhoeddiadol i'r gwaith a wnawn yng Nghymru, nid yn unig gyda'r cwmni da byw cydweithredol ond hefyd i helpu ein cwmnïau llaethdai ym mha le bynnag a pha bryd bynnag y gallwn.

**Dafydd Wigley:** Onid ydych yn cytuno nad oes unrhyw gwestiwn o golli diddordeb y cyhoedd cyn belled ag y mae'r Comisiwn Cystadleuaeth dan sylw, os mai'r dewis arall fyddai i'r diwydiant llaeth beidio â bodoli a bod diffyg cynnyrch ar gyfer gwraig y tŷ yn yr archfarchnadoedd? A fyddwch yn rhoi pwysau ar yr archfarchnadoedd hynny nad ydynt wedi dilyn arweiniad dwy ohonynt i gyfranogi yn hyn? Y dewis arall yw colli'r diwydiant hwn. Mae pobl yn rhoi'r gorau i ffermio llaeth gan ei bod yn fwy buddiol iddynt brydlesu eu cwota na gwneud y gwaith. Ni all hyn fod yn sail ar gyfer dyfodol diwydiant mor hanfodol yng Nghymru.

**Christine Gwyther:** Egluraf mai dim ond i'r ffermwyr llaeth sydd yn cynhyrchu llaeth, ac nid i'r rheini sydd yn prydlesu cwotâu, y bydd y cymhorthdal amaeth-arianyddol yn cael ei roi. Mae'n bwysig sianelu'r arian fel ei fod yn mynd i'r rheini sydd yn ei haeddu yn hytrach nag i'r ffermwyr 'soffa' neu'r ffermwyr 'tafam' neu beth bynnag yr ydych

am eu galw.

On our ongoing work with supermarkets and dairy companies, Rhodri Glyn Thomas and I will meet representatives from supermarkets and dairy companies in the near future. We will not be able to name them but I hope that we can give the Agriculture and Rural Development Committee news on that.

Ynghylch ein gwaith parhaus gydag archfarchnadoedd a chwmnïau llaethdai, bydd Rhodri Glyn Thomas a minnau yn cwrdd â chynrychiolwyr yr archfarchnadoedd a'r cwmnïau llaethdai yn y dyfodol agos. Ni fyddwn yn gallu eu henwi ond gobeithiaf y gallwn roi newyddion i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am hynny.

**Nick Bourne:** The resumption of the live export market would help farmers. What are you doing to encourage that and what representations are you making on the animal transport directive? Do you not agree that the approach of Labour's Minister for Fisheries and the Countryside, Elliot Morley, is deeply damaging to Wales?

**Nick Bourne:** Byddai ailgychwyn y farchnad allforion byw yn helpu ffermwyr. Beth ydych yn ei wneud i annog hyn a pha sylwadau ydych yn eu cyflwyno ar y gyfarwyddeb cludo anifeiliaid? Onid ydych yn cytuno bod gweithredoedd y Gweinidog Llafur dros Bysgodfeydd a Chefn Gwlad, Elliot Morley, yn niweidiol iawn i Gymru?

**Christine Gwyther:** You will have to explain how Mr Morley is damaging Wales. That is not my understanding. The live export of calves is not an illegal trade. If and when it resumes, it will be up to the Assembly to support it as a legal trade. I am sure that Peter Rogers and Glyn Davies will have told you that the Agriculture and Rural Development Committee sent a letter to the Prime Minister stating that we wanted free trade of livestock across Europe.

**Christine Gwyther:** Bydd yn rhaid ichi esbonio sut y mae Mr Morley yn niweidio Cymru. Nid dyna yr wyf fi'n ei ddeall. Nid yw allforio lloeau yn fyw yn fasnach anghyfreithlon. Os a phryd y bydd yn ailgychwyn, mater i'r Cynulliad fydd ei gefnogi fel masnach gyfreithlon. Yr wyf yn sicr y bydd Peter Rogers a Glyn Davies wedi dweud wrthyh fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi anfon llythyr at y Prif Weinidog yn dweud ein bod eisiau masnach rydd i dda byw ar draws Ewrop.

**Mick Bates:** I am sure that Christine Gwyther agrees that the dairy industry needs more commitment from this Assembly. I suggest that we start by reintroducing free school milk. What action is the Secretary for Agriculture and Rural Development willing to take to reinstate free school milk in Wales?

**Mick Bates:** Yr wyf yn sicr bod Christine Gwyther yn cytuno bod ar y diwydiant llaeth angen mwy o ymrwymiad gan y Cynulliad hwn. Awgrymaf ein bod yn cychwyn drwy ailgyflwyno llaeth am ddim i ysgolion. Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn barod i'w cymryd i adfer llaeth am ddim i ysgolion yng Nghymru?

**Christine Gwyther:** I will have to discuss that with my Cabinet colleagues because it is not only an agricultural issue. I will have to leave it there because there are funding implications and free school milk crosses educational and nutritional barriers. I cannot be more specific than that. However, I take on board what you said and I know that you had a successful conference.

**Christine Gwyther:** Bydd yn rhaid imi drafod hynny gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet oherwydd ei fod yn fwy na mater amaethyddol yn unig. Bydd yn rhaid imi ei adael yma oherwydd y ceir goblygiadau cyllido ac mae llaeth am ddim i ysgolion yn croesi ffiniau addysgol a maeth. Ni allaf fod yn fwy penodol na hynny. Fodd bynnag, rhoddaf ystyriaeth i'r hyn y dywedasoeh a gwn eich bod wedi cael cynhadledd

lwyddiannus.

**Alun Pugh:** Will you join me in congratulating enterprising dairy farmers who, when faced with poor levels of prices in terms of milk, diversified into activities such as cheese production. Can you assure me that farming co-operatives will be helped with start-up costs and marketing support?

**Alun Pugh:** A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch ffermwyr llaeth mentrus sydd, wrth wynebu prisiau gwael o safbwynt llaeth, wedi arallgyfeirio i weithgareddau megis cynhyrchu caws. A allwch fy sicrhau y bydd cwmnïau ffermio cydweithredol yn cael cymorth gyda chostau sefydlu a chefnogaeth i farchnata?

**Christine Gwyther:** Yes, they will be helped. The Assembly offers a processing and marketing grant scheme and farmers are taking advantage of that. I have nudged my officials to get out there and look for suitable schemes to help in the dairy production industry. That is a political and common sense decision because we need to support this industry. Therefore, I congratulate the farmers who have diversified including those in your constituency who are doing well for themselves and for their country.

**Christine Gwyther:** Gallaf. Byddant yn cael cymorth. Mae'r Cynulliad yn cynnig cynllun grant prosesu a marchnata ac mae'r ffermwyr yn manteisio ar hwn. Yr wyf wedi procio fy swyddogion i fynd allan i'r maes a chwilio am gynlluniau addas i gynorthwyo'r diwydiant cynhyrchu llaeth. Mae hyn yn benderfyniad gwleidyddol a synnwyr cyffredin oherwydd bod yn rhaid inni gefnogi'r diwydiant hwn. Felly, yr wyf yn llongyfarch y ffermwyr sydd wedi arallgyfeirio gan gynnwys y rheini yn eich etholaeth chi sydd yn gwneud yn dda iddynt eu hunain ac i'r wlad.

**The Presiding Officer:** As some of you will have noticed, there is a problem with the sound system. Before I call on Sue Essex to make a statement, I declare a technical adjournment for two minutes.

**Y Llywydd:** Fel y bydd rhai ohonoch wedi sylwi, mae problem gyda'r system sain. Cyn imi alw ar Sue Essex i wneud datganiad, cyhoeddaf ohiriad technegol am ddwy funud.

2:40 p.m.

### **Datganiad ar yr Arolygaeth Cynllunio Statement on the Planning Inspectorate**

**The Secretary for Transport, Planning and the Environment (Sue Essex):** I will make a statement on the Planning Inspectorate Agency's targets and launch its quinquennial review.

**Yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd (Sue Essex):** Cyflwynaf ddatganiad ar dargedau Asiantaeth yr Arolygaeth Cynllunio a lansio ei adolygiad pum mlynedd.

The Planning Inspectorate Agency deals with appeals on planning applications, development plan inquiries, local plan inquiries and the unitary development plans that will come forward. I have set the following key targets for the inspectorate's work in Wales in the forthcoming years. These include tougher targets for providing inspectors for development plan inquiries, and the inspectorate's performance in handling plan inquiries will be the theme for its customer satisfaction survey, with clear

Mae Asiantaeth yr Arolygaeth Cynllunio yn delio gydag apeliadau am geisiadau cynllunio, ymchwiliadau cynlluniau datblygu, ymchwiliadau cynlluniau lleol a'r cynlluniau datblygu unedol a gyflwynir. Yr wyf wedi pennu'r targedau allweddol canlynol ar gyfer gwaith yr arolygaeth yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys targedau mwy caeth ar gyfer darparu arolygwyr ar gyfer ymholiadau cynlluniau datblygu, a pherfformiad yr arolygaeth wrth ddelio ag

requirements to act on the results.

I have decided not to include the financial target that has been set for previous years but to replace it with a suite of efficiency indicators that will better reflect the inspectorate's range of activities. These will be included in the inspectorate's business and corporate plan, and performance against them will be shown in its annual report. These are challenging but realistic targets for the inspectorate this year. I am confident that the inspectorate will continue to maintain the impartiality, quality and efficiency of its work.

I will go through some of the targets for the forthcoming year. In terms of timeliness, 80 per cent of all planning appeals decided by written representations must be determined within 17 weeks, 80 per cent of all those decided by hearings must be determined within 22 weeks and 80 per cent of all those decided by inquiries must be determined within 30 weeks. In terms of local development plan inquiries, inspectors must be provided to local authorities in at least 90 per cent of all cases, and 90 per cent of inspectors' reports on these inquiries must be delivered on time to local authorities. In terms of cost efficiency, we want to generate a 3 per cent improvement on the last year in the use of running costs. That is a high target but the planning inspectorate is committed and feels that it can achieve it in terms of quality of decisions. This is not only a question of efficiency, of producing reports or handling inquiries, it is also about the quality of decisions made. We want that quality to satisfy the advisory panel on standards—an independent external group of advisers. We want the Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions and the Assembly to be satisfied that the standard and quality are being maintained and achieved with at least 99 per cent of the inspectorate's casework free from justified complaint.

ymchwiliadau cynllunio fydd y thema ar gyfer ei harolwg o foddhad cwsmeriaid, gyda gofynion pendant i weithredu ar y canlyniadau.

Yr wyf wedi penderfynu peidio â chynnwys y targed ariannol a bennwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol ond ei ddisodli gyda chyfres o ddangosyddion effeithlonrwydd a fydd yn adlewyrchu amrywiol weithgareddau'r arolygaeth yn well. Caiff y rhain eu cynnwys yng nghynllun busnes a chorfforaethol yr arolygaeth, a bydd y perfformiad yn eu herbyn yn ymddangos yn ei hadroddiad blynyddol. Mae'r rhain yn dargedau heriol ond realistig i'r arolygaeth eleni. Yr wyf yn hyderus y bydd yr arolygaeth yn parhau i gynnal natur ddiudedd, ansawdd ac effeithlonrwydd ei gwaith.

Af drwy rai o'r targedau ar gyfer y flwyddyn nesaf. O ran amseriad, rhaid i 80 y cant o'r holl apeliadau cynllunio y penderfynir arnynt drwy sylwadau ysgrifenedig gael eu gwneud o fewn 17 wythnos, rhaid i 80 y cant o'r holl apeliadau y penderfynir arnynt drwy wrandawiadau gael eu gwneud o fewn 22 wythnos a rhaid i 80 y cant o'r holl apeliadau y penderfynir arnynt drwy ymchwiliadau gael eu gwneud o fewn 30 wythnos. O safbwynt ymchwiliadau cynlluniau datblygu lleol, rhaid darparu arolygwyr i awdurdodau lleol mewn o leiaf 90 y cant o'r holl achosion, a rhaid i 90 y cant o adroddiadau arolygwyr ar yr ymchwiliadau hyn gael eu cyflwyno ar amser i awdurdodau lleol. O safbwynt effeithlonrwydd cost, yr ydym eisiau sicrhau gwelliant o 3 y cant ar y llynedd o safbwynt defnyddio costau rhedeg. Mae hwnnw'n darged uchel, ond mae'r arolygaeth cynllunio yn ymrwymedig a thembla y gall ei gyrraedd o safbwynt ansawdd penderfyniadau. Nid effeithlonrwydd, cynhyrchu adroddiadau na delio ag ymchwiliadau yn unig sydd dan sylw yma, mae ansawdd y penderfyniadau a wneir yn bwysig hefyd. Yr ydym am i'r ansawdd hwnnw fodloni'r panel ymgynghori ar safonau—grŵp allanol annibynnol o ymgynghorwyr. Yr ydym am i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r Cynulliad fod yn fodlon y cedwir ac y cyrhaeddir y safonau a'r ansawdd, a bod o leiaf 99 y cant o waith achosion yr arolygaeth yn rhydd rhag

cwynion cyfiawn.

On providing better information on the way forward, we will carry out a customer satisfaction survey targeted at development plan inquiries, and the inspectorate will be expected to act on the results. I mentioned the quinquennial review, which is in line with our approach regarding other planning executive agencies. This review will be part of the usual arrangements that require a fundamental review to be carried out for the next five years. The previous review was carried out in 1995. The review will be undertaken in two stages. Stage one will consider the organisational options for agencies and will last around three months. Stage two will consider improvement to efficiency and will last around four months. I have made arrangements for this statement to be posted to all Assembly Members.

Wrth ddarparu gwell gwybodaeth am y ffordd ymlaen, byddwn yn cynnal arolwg o foddhad cwsmeriaid, wedi ei anelu at ymchwiliadau cynlluniau datblygu, a disgwylir i'r arolygaeth weithredu ar y canlyniadau. Crybwyllais yr adolygiad pum-mlynedd, sydd yn unol â'n dull o weithredu gydag asiantaethau gweithredol cynllunio eraill. Bydd yr adolygiad hwn yn rhan o'r trefniadau arferol sydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i adolygiad sylfaenol gael ei gynnal am y pum mlynedd nesaf. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 1995. Cynhelir yr adolygiad mewn dau gam. Bydd cam un yn ystyried yr opsiynau trefniadol ar gyfer asiantaethau a bydd yn para am oddeutu tri mis. Bydd cam dau yn ystyried gwelliannau i effeithlonrwydd a bydd yn para oddeutu pedwar mis. Yr wyf wedi gwneud trefniadau i'r datganiad hwn gael ei anfon at holl Aelodau'r Cynulliad.

**Jocelyn Davies:** I thank Sue for her first statement. The targets appear to be ambitious, particularly in the face of growing concerns about the number of appeals and the time taken to determine those appeals. Given that the new Committee meets tomorrow afternoon for the first time, will Sue undertake to discuss this matter with the Committee Members as they will be taking an active part in some planning decisions?

**Jocelyn Davies:** Diolchaf i Sue am ei datganiad cyntaf. Ymddengys y targedau yn uchelgeisiol, yn enwedig yn wyneb y pryderon cynyddol ynghylch nifer yr apeliadau a'r amser a gymerir i benderfynu ar yr apeliadau hynny. O gofio bod y Pwyllgor newydd yn cyfarfod brynhawn yfory am y tro cyntaf, a fydd Sue yn ymgymryd i drafod y mater hwn gydag Aelodau'r Pwyllgor gan y bydd ganddynt ran weithredol i'w chwarae mewn rhai penderfyniadau cynllunio?

**Sue Essex:** I will be pleased to do that at the first Transport, Planning and Environment Committee meeting tomorrow. The targets are ambitious but we have discussed them with the inspectorate, and they would not be set unless we and the inspectorate felt that they could be achieved. We are looking at quality and efficiency in terms of timing. I am sure that everybody here would want to ensure that the quality of decisions made marry the type of standards that we expect to meet. Therefore, we will keep a close eye on that and I am sure that the Committee will also want to be involved.

**Sue Essex:** Buaswn yn falch o wneud hynny yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd yfory. Mae'r targedau yn uchelgeisiol ond yr ydym wedi eu trafod gyda'r arolygaeth, ac ni fyddent wedi cael eu pennu pe na byddem ni a'r arolygaeth yn teimlo eu bod o fewn cyrraedd. Yr ydym yn edrych ar ansawdd ac effeithlonrwydd o safbwynt amseru. Yr wyf yn sicr y byddai pawb yma eisiau sicrhau bod ansawdd y penderfyniadau a wneir yn cydfynd â'r safonau y disgwylir inni eu cyrraedd. Felly, byddwn yn cadw golwg fanwl ar hynny ac yr wyf yn sicr y bydd y Pwyllgor hefyd eisiau bod yn gysylltiedig â hyn.

**David Davies:** The Secretary will no doubt correct me if I am wrong, but I do not recall this matter being discussed before in the

**David Davies:** Yr wyf yn sicr y bydd yr Ysgrifennydd yn fy nghywiro os yr wyf yn anghywir, ond nid wyf yn cofio i'r mater hwn

Committee, and certainly not in such detail. The statement appears to be reasonable enough but the devil is always in the detail. In the second paragraph you stated that you had decided not to include a specific financial target that has been set for previous years, but you then mentioned generating 3 per cent improvement in the use of running costs. Does that mean that there will be 3 per cent less in the budget for the planning inspectorate to spend? Is this a politically correct and clever way of outlining what is basically a cut in spending?

I am sure that we are all impressed by how you have set the efficiency targets but the key question that is not answered in your statement is how you have arrived at them. You must have considered how long it was taking for planning appeals to be decided by representations in the last few years. Is 80 per cent an improvement on that or is it the same or slightly less than before? We cannot tell from looking at these figures whether or not you have set higher and more efficient targets, whether you are asking the inspectorate to do what it was doing before or whether you are asking it to do less than it was doing before for 3 per cent less money. I am sure that you will answer my questions either today or tomorrow and I look forward to hearing the answers.

**Sue Essex:** I could not have put this matter to the Committee because it does not meet until tomorrow, so I thought it was timely to introduce it now. We look towards our agencies achieving an annual reduction in running costs and that is a standard approach to many of the agencies with which the Assembly works. These figures are discussed with the inspectorate. They can be achieved and we will try to achieve them. In terms of looking at what happened before, the reduction has been in the written representation, which was 18 weeks. It is now 17 weeks, which is an improvement. In terms of other targets, if we look retrospectively, we cannot reduce this to nothing. This has happened over the years, and Wales has had a good rate compared to

gael ei drafod o'r blaen yn y Pwyllgor, ac yn sicr nid yn y fath fanylder. Ymddengys y datganiad yn ddigon rhesymol ond yn y manylion y mae'r drwg bob amser. Yn yr ail baragraff dywedasoch eich bod wedi penderfynu peidio â chynnwys y targed ariannol penodol a bennwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol, ond wedyn crybwylloch sicrhau gwelliant o 3 y cant o safbwynt defnyddio costau rhedeg. A yw hynny'n golygu y ceir 3 y cant yn llai yn y gyllideb i'r arolygaeth cynllunio ei wario? Ai ffordd gwleidyddol-gywir a chlyfar o amlinellu'r hyn sydd, yn sylfaenol, yn doriad mewn gwariant ydyw hyn?

Yr wyf yn sicr ein bod ni oll yn edmygu'r ffordd yr ydych wedi pennu'r targedau effeithlonrwydd ond y cwestiwn allweddol nas atebir yn eich datganiad yw sut y penderfynwyd ar y targedau hyn. Mae'n rhaid eich bod wedi ystyried faint o amser y mae'n ei gymryd i benderfynu ar apelïadau cynllunio drwy sylwadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. A yw 80 y cant yn welliant ar hynny ynteu a yw'r un peth neu ychydig yn llai na chynt? Ni allwn ddweud drwy edrych ar y ffigurau hyn a ydych wedi pennu targedau uwch a thargedau mwy effeithlon, a ydych yn gofyn i'r arolygiaeth wneud yr hyn a wnâi o'r blaen neu a ydych yn gofyn iddi wneud llai nag yr oedd o'r blaen am 3 y cant yn llai o arian. Yr wyf yn sicr yr atebwch fy nghwestiynau un ai heddiw neu yfory ac edrychaf ymlaen at glywed eich atebion.

**Sue Essex:** Ni fuaswn wedi gallu cyflwyno'r mater hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd nid yw'n cyfarfod tan yfory, felly credais ei bod yn amserol ei gyflwyno yn awr. Yr ydym am i'n hasiantaethau sicrhau gostyngiad blynyddol mewn costau rhedeg ac mae hyn yn ddull gweithredu sylfaenol gyda llawer o'r asiantaethau y mae'r Cynulliad yn gweithio gyda hwy. Trafodir y ffigurau hyn gyda'r arolygaeth. Mae modd eu cyrraedd a byddwn yn ymdrechu i'w cyrraedd. O safbwynt edrych ar yr hyn a ddigwyddai o'r blaen, y mae'r gostyngiad yn y sylwadau ysgrifenedig, a oedd yn 18 wythnos. Bellach mae'n 17 wythnos, sydd yn welliant. O safbwynt targedau eraill, os edrychwn yn ôl, ni allwn leihau hwn i ddim. Mae hyn wedi digwydd dros y blynyddoedd, a bu gan

England. We have reached a level where we think that this will produce good quality decisions, but in a reasonable length of time. I would be happy to supply further information tomorrow at Committee, which might be more appropriate.

2:50 p.m.

**Christine Humphreys:** Like Jocelyn, I look forward to working with you on the new Committee, which meets for the first time tomorrow—as does David, I am sure. Thank you for setting out these targets. In the next weeks, will you consider re-examining targets for local authorities so that there is a more consistent pattern of the time that local authorities take in dealing with planning applications throughout Wales? Although targets have been set, the pattern is not consistent for meeting the deadlines.

**Sue Essex:** That is outside the control of the Planning Inspectorate but, as you know, there are league tables and targets set for local authorities in terms of handing in applications. Officers in the Planning Division keep a close eye on that. We could consider it in the Committee. Creating this extra Committee will give us an opportunity to look in more detail at performances and, perhaps, to ask questions if we are not happy with those performances.

Gymru gyfradd dda o'i chymharu â Lloegr. Yr ydym wedi cyrraedd lefel lle y credwn y bydd hyn yn esgor ar benderfyniadau o safon, ond o fewn amser rhesymol. Buaswn yn falch o gyflwyno rhagor o wybodaeth yfory yn y Pwyllgor, efallai y byddai hynny'n fwy priodol.

**Christine Humphreys:** Fel Jocelyn, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar y Pwyllgor newydd, sydd yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory—fel y mae yntau, David, yr wyf yn sicr. Diolch ichi am bennu'r targedau hyn. Yn ystod yr wythnosau nesaf, a wnewch chi ystyried ailarchwilio'r targedau ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn sicrhau patrwm mwy cyson o'r amser a gymer awdurdodau lleol i ddelio â cheisiadau cynllunio ledled Cymru? Er i dargedau gael eu pennu, nid yw'r patrwm yn gyson ar gyfer glynu wrth amserlenni.

**Sue Essex:** Mae hyn y tu allan i reolaeth yr Arolygaeth Cynllunio ond, fel y gwyddoch, mae targedau a thablau cynghrair wedi eu gosod ar gyfer awdurdodau lleol o safbwynt cyflwyno ceisiadau. Mae swyddogion yr Adran Gynllunio yn cadw llygad barcud ar hynny. Gallem ystyried hyn yn y Pwyllgor. Drwy greu'r Pwyllgor ychwanegol hwn cawn gyfle i edrych yn fanylach ar berfformiadau ac, efallai, gyfle i godi cwestiynau os nad ydym yn hapus gyda'r perfformiadau hynny.

### **Datganiad ar Gyllid Amaethyddol Statement on Agricultural Finance**

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** I will make a short statement on the extra funds that the Assembly will receive following the package that was agreed at last week's agriculture summit. At yesterday's Welsh Grand Committee, indicative figures were released of the amount coming to Wales for each sector. I regret that the figures were released in this way. It was premature to do so because the apportionment of UK figures to Wales, Scotland and Northern Ireland has not been finally resolved. In any event, additional moneys that come into the Assembly's departmental expenditure limit are entirely a matter for the Assembly to determine. The apportionment of the UK

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Cyflwynaf ddatganiad byr ar y cyllid ychwanegol y bydd y Cynulliad yn ei dderbyn yn sgîl y pecyn y cytunwyd arno yn yr uwch-gynhadledd amaethyddiaeth yr wythnos diwethaf. Yn yr Uwch Bwyllgor Cymreig, rhyddhawyd ffigurau mynegol o'r swm a ddaw i Gymru ar gyfer pob sector. Mae'n resyn gennyf fod y ffigurau wedi eu rhyddhau fel hyn. Yr oedd yn rhy fuan i wneud hynny oherwydd ni phenderfynwyd yn derfynol ar ddsbarthiad ffigurau'r DU i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. A phryn bynnag, mater i'r Cynulliad benderfynu yn ei gylch yw arian ychwanegol a ddaw i derfyn gwariant adrannol y



figures to Wales, Scotland and Northern Ireland has not yet been finally agreed. A meeting is being held tomorrow morning at official level between the four UK agriculture departments to clarify the allocations. The Assembly will be represented by the Head of the Agricultural Division. I hope to make a full statement to the Assembly next week when the figures are agreed.

**Rhodri Glyn Thomas:** I thank Edwina for that statement. The spirit of the statement is important in terms of devolution. During the budget debate, if you recall, Edwina, we discussed the true meaning of devolution, which is that the Assembly Secretary with responsibility makes the decisions and that ministers in Westminster respect those decisions. While we welcome this package for agriculture, as it is an important platform on which we can build an agenda for the rural economy in Wales, I share her concern that this statement was made by Paul Murphy in the Welsh Grand Committee at Westminster yesterday. Does she agree that, unless ministers like Paul Murphy respect the devolution process, it will be difficult for us to carry out that process? We need their co-operation in this matter.

**Edwina Hart:** I am pleased that you welcome the additional resources for agriculture. The Secretary of State for Wales has assured the First Secretary that there was no intention to indicate how the package that is available to Wales should be spent. In the discussions, he gave us figures that indicated the overall benefits of the budget package to Wales. The statement was made in that spirit. However, I am always concerned to ensure that the devolution process is respected at Westminster and here. I am anxious that the first port of call for statements on devolved matters should be this Assembly Chamber and that the discussion will be held in this Chamber.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pwynt o drefn.

**Y Llywydd:** Cymeraf y pwynt o drefn ar ôl y datganiad.

**Peter Rogers:** The Welsh Conservatives

Cynulliad. Ni chytunwyd yn derfynol eto ar ddsbarthiad ffigurau'r DU i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynhelir cyfarfod bore yfory ar lefel swyddogol rhwng pedair adran amaethyddiaeth y DU i esbonio'r dyraniadau. Cynrychiolir y Cynulliad gan Bennaeth yr Adran Amaethyddiaeth. Gobeithiaf gyflwyno datganiad llawn gerbron y Cynulliad yr wythnos nesaf ar ôl cytuno ar y ffigurau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolchaf i Edwina am y datganiad hwn. Mae naws y datganiad yn bwysig o safbwynt datganoli. Yn ystod y drafodaeth ar y gyllideb, os cofiwch Edwina, buom yn trafod gwir ystyr datganoli, sef bod Ysgrifennydd y Cynulliad sydd â'r cyfrifoldeb yn gwneud penderfyniad a bod gweinidogion yn San Steffan yn parchu'r penderfyniadau hynny. Tra'n bod yn croesawu'r pecyn hwn i amaethyddiaeth, gan ei fod yn blatfform pwysig y gallwn adeiladu agenda ar gyfer yr economi wledig yng Nghymru arno, yr wyf yn rhannu ei phryder bod Paul Murphy wedi gwneud y datganiad hwn yn yr Uwch Bwyllgor Cymreig yn San Steffan ddoe. A wnaiff gytuno, oni bai fod gweinidogion fel Paul Murphy yn parchu'r broses datganoli, y bydd yn anodd inni gyflawni'r broses honno? Rhaid inni gael eu cydweithrediad yn y mater hwn.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn falch eich bod yn croesawu'r adnoddau ychwanegol ar gyfer amaethyddiaeth. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi sicrhau'r Prif Ysgrifennydd nad oedd unrhyw fwriad i ddweud sut y dylid gwario'r pecyn sydd ar gael i Gymru. Yn y trafodaethau, rhoddodd ffigurau inni a oedd yn dynodi manteision cyffredinol pecyn y gyllideb i Gymru. Gwnaethpwyd y datganiad yn yr ysbryd hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf wastad yn awyddus i sicrhau y perchir y broses datganoli yn San Steffan ac yma. Yr wyf yn awyddus iawn i ddatganiadau ar faterion datganoledig gael eu cyhoeddi yn Siambr y Cynulliad hwn i ddechrau a chynnal y trafodaethau yn y Siambr hon.

**Rhodri Glyn Thomas:** Point of order.

**The Presiding Officer:** I will take the point of order after the statement.

**Peter Rogers:** Mae'r Ceidwadwyr Cymreig

welcome any help for the beleaguered farming industry. I also note Edwina's concern about how the information was leaked. It is disturbing that this was announced yesterday. It set up expectations that there would be an announcement here today and caused unnecessary concern. That is not good government and it is not good for devolution. I am sure that you will make the point strongly to Paul Murphy that the Assembly should have the first call.

**Edwina Hart:** I thank Peter for his comments. However, the devolution process is ongoing and a learning process for all of us. I make my remarks in that context.

**Mick Bates:** In conjunction with other parties here, I am sure, we welcome the package and the benefit it will bring to Wales, albeit that it does not take up the maximum amount of agri-monetary compensation for beef farming. While we share the serious concerns expressed, the suspicion lingers that information is not readily available through the civil service. How on earth did Paul Murphy announce this without passing the information back through the civil service? I am concerned that information is not being made freely available. I would like to hear what action Edwina is taking to ensure that this does not happen again.

**Edwina Hart:** The problem is over the precise figures. I had hoped to have been in a position to make a statement in the Chamber yesterday. However, the package consisted of certain non-discretionary elements—the agri-monetary compensation elements—that come under annually managed expenditure and are funded by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food on an England and Wales basis. There are also discretionary elements for less favoured areas support, which comes under the Assembly's departmental expenditure limits. It is for the Assembly to decide on those.

The distribution of discretionary resources between the four agriculture departments needs to be formally agreed by them. That was to be done on Thursday. That is why I was not in a position to make a statement

yn croesawu unrhyw gymorth i'r diwydiant amaethyddiaethadfydus. Nodaf hefyd bryder Edwina am sut y datgelwyd yr wybodaeth. Mae'n annifyr bod hyn wedi ei gyhoeddi ddoe. Crëodd ddisgwyliadau y byddai cyhoeddiad yma heddiw ac achosodd bryder diangen. Nid llywodraethu da mo hynny ac nid yw'n dda i ddatganoli. Yr wyf yn sicr y byddwch yn cyflwyno'r pwynt yn gryf i Paul Murphy mai'r Cynulliad a ddylai ddelio â materion o'r fath yn gyntaf.

**Edwina Hart:** Diolchaf i Peter am ei sylwadau. Fodd bynnag, mae'r broses ddatganoli yn broses barhaus ac yn broses o ddysgu i bawb ohonom. Cyflwynaf fy sylwadau yn y cyd-destun hwnnw.

**Mick Bates:** Ar y cyd â phleidiau eraill yma, yr wyf yn sicr, croesawn y pecyn a'r manteision y bydd yn eu sicrhau i Gymru, serch nad yw'n manteisio ar uchafswm y cymhorthdal amaeth-arianyddol i ffermio cig eidion. Tra ein bod yn rhannu'r pryderon difrifol a fynegwyd, erys yr amheuaeth nad yw gwybodaeth ar gael yn hawdd drwy'r gwasanaeth sifil. Sut ar y ddaear y cyhoeddodd Paul Murphy hyn heb drosglwyddo'r wybodaeth yn ei hôl drwy'r gwasanaeth sifil? Yr wyf yn bryderus nad yw gwybodaeth ar gael yn rhwydd. Hoffwn glywed pa gamau y mae Edwina yn eu cymryd i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

**Edwina Hart:** Gyda'r union ffigurau y mae'r broblem. Yr oeddwn wedi gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud datganiad yn y Siambr heddiw. Fodd bynnag, roedd y pecyn yn cynnwys elfennau annewisol penodol—elfennau'r cymhorthdal amaeth-arianyddol—a ddaw dan wariant a reolir yn flynyddol ac a gyllidir gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar sail Cymru a Lloegr. Ceir elfennau dewisol hefyd ar gyfer cefnogi ardaloedd llai ffafriol, a daw'r rhain dan derfynau gwariant adrannol y Cynulliad. Mater i'r Cynulliad yw penderfynu ar y rhain.

Rhaid iddynt gytuno'n ffurfiol ar ddosbarthu'r adnoddau dewisol rhwng y pedair adran amaethyddol. Bwriadwyd gwneud hynny ddydd Iau. Dyna pam nad oeddwn mewn sefyllfa i wneud datganiad

yesterday. The general figures for the package were known in terms of the settlement made after the agriculture summit. I was anxious to give accurate and up-to-date figures when I reported to this Chamber, so that the Assembly would know how much money it had. Information in the civil service, and the exchange of information between civil servants, is at the forefront of my mind in my various discussions with departments in Whitehall.

**Alun Michael:** I was surprised to hear the low rumble of discontent that indicates that Dafydd Wigley is in his seat. Does the Assembly Secretary agree that these indicative figures were not leaked? They were sent to all Members of Parliament representing Welsh constituencies, including those of us who are also Assembly Members. The letter, from David Hanson, made it clear that the figures were indicative and that the actual distribution figures were for the Assembly and Edwina as Finance Secretary to announce in due course. Welsh MPs would expect to hear in a Welsh Grand Committee meeting how a Government decision would impact on Wales. We must be careful. When we issue indicative figures local government always grumbles. Is it not the case that the authoritative figures on the money that will be distributed will be the subject of a statement by you to the Assembly? In this era of open government we should not be too surprised that indicative information is available from a variety of sources, including those within the Assembly and elsewhere.

**Edwina Hart:** I can confirm the content of the letter that was sent to MPs. I appreciate Alun's point on our colleagues in local government and the indicative figures that we give them. The issue is that Members would be concerned that I was not in a position to make a statement to the Assembly yet a statement was being made elsewhere. However, Welsh MPs are as interested as Assembly Members in any good news for the agricultural community, because farmers need help in these difficult times.

ddoe. Yr oedd ffigurau cyffredinol ar gyfer y pecyn yn hysbys o safbwynt y setliad a wnaethpwyd ar ôl yr uwch-gynhadledd amaethyddiaeth. Yr oeddwn yn awyddus i roi'r ffigurau cywir a diweddaraf wrth adrodd i'r Siambr hon, fel bod y Cynulliad yn gwybod faint o arian a oedd ganddo. Mae gwybodaeth o fewn y gwasanaeth sifil, a chyfnewid gwybodaeth rhwng gweision sifil, ym mlaen fy meddwl yn fy amrywiol drafodaethau gydag adrannau yn Whitehall.

**Alun Michael:** Cefais fy synnu o glywed y grwgnach isel o anfodlonrwydd sydd yn dynodi bod Dafydd Wigley yn ei sedd. A yw Ysgrifennydd Cynulliad yn cytuno na ddatgelwyd y ffigurau mynegol hyn? Anfonwyd y rhain at yr holl Aelodau Seneddol sydd yn cynrychioli etholaethau Cymru, gan gynnwys y rheini ohonom sydd hefyd yn Aelodau o'r Cynulliad. Yr oedd yn berffaith amlwg yn y llythyr, oddi wrth David Hanson, fod y ffigurau yn fynegol a bod union ffigurau'r dosbarthiad i gael eu cyhoeddi gan y Cynulliad ac Edwina fel Ysgrifennydd Cyllid maes o law. Byddai ASau Cymru yn disgwyl clywed mewn cyfarfod o'r Uwch Bwyllgor Cymreig sut y byddai penderfyniad gan y Llywodraeth yn effeithio ar Gymru. Rhaid inni fod yn ofalus. Pan gyflwynwn ffigurau mynegol mae llywodraeth leol bob amser yn grwgnach. Oni fydd ffigurau awdurdodol ar yr arian a ddosberthir yn destun datganiad gennych chi gerbron y Cynulliad? Yn yr oes hon o lywodraeth agored ni ddylem gael ein syfrdanu yn ormodol bod gwybodaeth fynegol ar gael o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys y rheini a geir o fewn y Cynulliad ac mewn mannau eraill.

**Edwina Hart:** Gallaf gadarnhau cynnwys y llythyr a anfonwyd at ASau. Gwerthfawrogaf bwynt Alun am ein cydweithwyr mewn llywodraeth leol a'r ffigurau mynegol a roddwn iddynt. Y pwnc dadl yw y byddai Aelodau yn bryderus nad oeddwn mewn sefyllfa i wneud datganiad gerbron y Cynulliad, er bod datganiad yn cael ei wneud mewn man arall. Fodd bynnag, mae gan ASau Cymru yr un diddordeb ag Aelodau'r Cynulliad mewn unrhyw newyddion da i'r gymuned amaethyddol, oherwydd mae ar ffermwyr angen help ar adeg anodd fel hon.

3:00 p.m.

### Cynnig Trefniadol Procedural Motion

**The Presiding Officer:** I call on the Business Secretary to propose a procedural motion under Standing Order No. 6.16 to allow us to consider the report of the Legislation Committee on the National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000.

**Y Llywydd:** Galwaf ar y Trefnydd i gyflwyno cynnig trefniadol dan Reol Sefydlog Rhif 6.16 i ganiatáu inni ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) Rheoliadau 2000.

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I propose that

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynig iaf fod

*the Assembly, under Standing Order No. 6.16, agrees to allow me to propose the no-named day motion to consider the report of the Legislation Committee on the National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000 tabled yesterday.*

*y Cynulliad, dan Reol Sefydlog Rhif 6.16, yn caniatáu imi gyflwyno'r cynnig diwrnod amhenodol i ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 a gyflwynwyd ddoe.*

*Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn

Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Michael, Alun  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Randerson, Jenny  
 Richards, Rod  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Phil

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Y Llywydd:** Ymddiheuraf fy mod wedi anghofio cymryd pwynt o drefn Rhodri Glyn Thomas yn gynharach. Gobeithiaf ei fod yn un da.

**The Presiding Officer:** I apologise for having forgotten to take Rhodri Glyn Thomas's point of order earlier. I hope that it is a good one.

**Rhodri Glyn Thomas:** Wrth gwrs ei fod yn bwynt o sylwedd. Mae'n mynd at galon datganoli ac mae'n ymwneud â phrotocol datganiadau. Yr wyf yn derbyn pwynt Alun Michael ynglŷn â'r wybodaeth a ledaenwyd drwy lythyr gan David Hanson, ond mae gwahaniaeth rhwng hynny a'r datganiad a wnaethpwyd gan Christine Gwyther ddydd Iau diwethaf ynglŷn â'i hasesiad o'r arian, a datganiad Paul Murphy i'r Uwch Bwyllgor Cymreig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Of course it is a point of substance. It goes to the heart of devolution and involves the protocol of statements. I accept Alun Michael's point about the information disseminated in a letter from David Hanson, but there is a difference between that and the statement made by Christine Gwyther last Thursday about her assessment of the funding, and Paul Murphy's statement to the Welsh Grand Committee.

Y gwir yw nad oes sicrwydd am yr arian hwn nes bod Edwina Hart wedi gwneud ei phenderfyniad. Mae'r arian yn mynd o'r Trysorlys i Edwina Hart ac y mae hi a'r Cabinet yn penderfynu sut i ddsbarthu'r arian. Nid oedd Paul Murphy mewn sefyllfa i wneud y datganiad a wnaeth, ac y mae wedi camarwain pobl drwy'r datganiad hwnnw. Ni ddylai fod wedi gwneud datganiad. Mae hynny'n bwynt o drefn sylweddol o ran protocol a hoffwn glywed barn y Llywydd ar y mater.

In truth, there is no certainty about this funding until Edwina Hart has made her decision. The money goes from the Treasury to Edwina Hart and she and the Cabinet decide how to distribute it. Paul Murphy was not in a position to make the statement that he made and he has misled people by that statement. He should not have made a statement. That is a substantial point of order as regards protocol and I would like to hear the views of the Presiding Officer on the matter.

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, nid datganiad ydoedd. Gwneir datganiad yn y

**The First Secretary (Rhodri Morgan):** Further to that point of order, it was not a statement. A statement is made in the

Siambr gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan y Gweinidog Amaeth. Derbyniwn yr hyn a ddywedodd Edwina ynglŷn â ffigurau yn cael eu datgelu a dyna'r treuni yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, nid datganiad ydoedd. Wrth sôn am gamarwain pobl, dylai Rhodri Glyn fod yn fwy ofalus wrth ddewis ei eiriau.

**Rod Richards:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, oni fyddai'n ddilys, yn sgîl yr hyn a glywsom, pan fo Aelodau Seneddol yn derbyn llythyr yn ymwneud â Chymru oddi wrth Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, fod Aelodau Cynulliad yn derbyn yr un llythyr yr un pryd?

**Y Llywydd:** Nid yw'r ohebiaeth a anfonir gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn fater i mi heblaw i'r graddau ei fod yn effeithio ar y Cynulliad. Mae gennym berthynas unigryw â'r Ysgrifennydd Gwladol oherwydd y gall, drwy drefniant ymlaen llaw gyda mi, fod yn bresennol yn ein dadleuon a chymryd rhan ynddynt, fel y byddai Aelod o'r Cynulliad yn ei wneud.

Felly, efallai y byddai'n briodol inni edrych eto ar y protocol rhwng y Cynulliad a Swyddfa Cymru a rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol, y Prif Ysgrifennydd a'r Cynulliad, er mwyn ystyried yr hyn sydd yn briodol mewn perthynas ag amseriad datganiadau a wneir. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid, sef y pwysigrwydd bod datganiad ar faterion sydd yn berthnasol i'r Cynulliad yn cael ei wneud bob amser yn gyntaf yn y Cynulliad. O brofiad hir yn San Steffan, peth anffodus ydyw pan fo unrhyw ddatganiad yn cael ei wneud y tu allan i'r Siambr. Nid oes modd i Aelodau wedyn godi cwestiynau ar y materion a ddatgelir. Dyna bwynt o drefn sylweddol, Rhodri Glyn.

Chamber by the Secretary of State or by the Minister for Agriculture. We accept what Edwina said about figures being leaked and that is the pity in this context. However, it was not a statement. Speaking of misleading people, Rhodri Glyn should be more careful in his choice of words.

**Rod Richards:** Further to that point of order, would it not be valid, following on from what we have heard, if, when Members of Parliament receive a letter appertaining to Wales from the Office of the Secretary of State for Wales, Assembly Members were to receive the same letter at the same time?

**The Presiding Officer:** The correspondence sent by the Office of the Secretary of State for Wales on behalf of the Secretary of State is not a matter for me except to the extent that it affects the Assembly. We have a unique relationship with the Secretary of State because, by prior arrangement with me, he can be present and participate in our debates as an Assembly Member would.

Therefore, perhaps it would be appropriate for us to look again at the protocol between the Assembly and the Wales Office and between the Secretary of State, the First Secretary and the Assembly, in order to consider what is appropriate regarding the timing of statements made. I completely agree with what the Finance Secretary said, namely the importance that statements on matters relevant to Wales are always first made in the Assembly. From long experience at Westminster, it is unfortunate when any statement is made outside the Chamber. It is then not possible for Members to raise questions on the matters disclosed. That is a substantial point of order, Rhodri Glyn.

### **Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 The National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000**

**The Business Secretary (Andrew Davies):** I propose that

*the Assembly considers the principle of the National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000 laid*

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigaf fod

*y Cynulliad yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2000 a gyflwynwyd i'r*

*in the Table Office on 29 March 2000.*

I also propose that

*the Assembly*

*(a) considers the report of the Legislation Committee relating to the draft National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000 laid in the Table Office on 4 April 2000; and*

*(b) approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 March.*

These regulations are to increase the personal allowance of those living in residential and nursing homes, whose places are funded by a local authority. This is a technical annual up-rating exercise, which was discussed in the Business Committee about a week ago.

Under Section 22 of the National Assistance Act 1948, local authorities are required to charge for residential accommodation, with the aim of recovering as much as possible of the costs. They are also required to allow residents to retain an amount of their weekly income towards their personal expenses. This is generally known as the personal expenses allowance and is payable when a resident has less than a prescribed amount of capital, assets or savings. The personal expenses allowance is an agreed amount of money set within the regulations and is uprated in line with the Department of Social Security's income support rules. Therefore new regulations are made each year.

This year's increase in the allowance from £14.75 to £15.45 is in line with the increases in England and Scotland and is due to come into effect on 10 April 2000. The sums for personal allowance regulations are necessary to maintain desirable alignments between local authorities and income support rules. The financial implications of this change have been reflected in the 2000-01 resource settlement budget for local government. While there is some discretion for local authorities to vary the amount in certain

*Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2000.*

Cynigiau hefyd fod

*y Cynulliad*

*(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â'r Gorchymyn drafft Rheoliadau Cymorth Iechyd Cenedlaethol (Symiau ar gyfer Gofynion Personol) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2000; ac*

*(b) yn cymeradwyo y dylid gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2000.*

Bydd y rheoliadau hyn yn cynyddu lwfansau personol y rheini sydd yn byw mewn cartrefi preswyl a nyrsio, y caiff eu lleoedd eu hariannu gan awdurdod lleol. Ymarfer diweddarau technegol blynyddol yw hwn a drafodwyd yn y Pwyllgor Busnes tua wythnos yn ôl.

Dan Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, rhaid i awdurdodau lleol godi ffi am lety preswyl gyda'r nod o adennill cymaint ag y bo modd o'r costau. Rhaid iddynt hefyd adael i breswylwyr gadw cyfran o'u hincwm wythnosol i dalu am eu treuliau personol. Yn gyffredinol, gelwir hyn yn lwfans treuliau personol ac mae'n daladwy pan fo gan breswyllydd lai na swm penodol o gyfalaf, asedau neu gynilion. Mae'r lwfans treuliau personol yn swm o arian y cytunir arno a nodir o fewn y rheoliadau a chaiff ei ddiweddarau yn unol â rheolau ategiad incwm yr Adran Nawdd Cymdeithasol. Felly, caiff rheoliadau newydd eu llunio bob blwyddyn.

Mae'r cynnydd yn y lwfans eleni o £14.75 i £15.45 yn unol â'r cynnydd yn Lloegr ac yn yr Alban a daw i rym ar 10 Ebrill 2000. Mae'r symiau ar gyfer rheoliadau lwfans personol yn angenrheidiol i sicrhau bod rheolau awdurdodau lleol a'r ategiad incwm yn cael eu cadw'n gyson. Mae goblygiadau ariannol y newid hwn wedi'u hadlewyrchu yng nghyllideb setliad adnoddau 2000-01 i lywodraeth leol. Tra bo rhywfaint o ddisgresiwn i awdurdodau lleol amrywio'r swm mewn rhai amgylchiadau, megis i

circumstances, such as to prepare someone for more independent living by encouraging them to manage their own finances, the standard allowance is laid down in these regulations. The regulations are routine changes to the charging for residential accommodation guidelines and are separate from the more substantive work in following up the recommendations of the Royal Commission on the long-term care of the elderly.

**Helen Mary Jones:** Our group will support this Order. However, I want to take this opportunity to raise some general points about how we provide support for vulnerable people in our communities, particularly disabled people.

Assembly Members will be delighted to know that the primary legislation out of which this regulation arises—the National Assistance Act 1948—begins by suppressing the poor law. I am sure we are all glad of that. We have made great progress on how we provide for people with special needs since 1948, but we have a long way to go. The Act is about enabling local authorities to provide accommodation for,

‘persons in need of care and attention’.

This includes disabled people. The Act then refers to the need to provide,

‘accommodation of different descriptions suited to the different descriptions of such persons as are aforementioned in the last foregoing sub-sections’.

Do you not just love legislative language? However, I want to highlight the need to move beyond the concept of providing care and attention in accommodation, towards facilitating truly independent living for disabled people. Many Members will be attending the launch of Disability Wales’s new resource manual ‘Independent Living in Wales’ this evening. Independent living is an exciting concept. It involves local authorities, instead of providing residential accommodation, making payments directly to disabled people to enable them to purchase

baratoi rhywun at fyw’n fwy annibynnol drwy eu hannog i reoli eu cyllid eu hunain, nodir y lwfans safonol yn y rheoliadau hyn. Mae’r rheoliadau hyn yn newidiadau rheolaidd i ganllawiau codi tâl am lety preswyl ac maent ar wahân i’r gwaith mwy sylweddol o ddilyn trywydd argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar ofal tymor hir yr henoed.

**Helen Mary Jones:** Bydd ein grŵp yn cefnogi’r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, carwn fanteisio ar y cyfle hwn i godi rhai pwyntiau cyffredinol ynghylch sut yr ydym yn darparu cefnogaeth i bobl ddiameddiffyn yn ein cymunedau, yn enwedig pobl anabl.

Bydd Aelodau’r Cynulliad yn falch o wybod bod y ddeddfwriaeth sylfaenol y mae’r rheoliad hwn yn tarddu ohoni—Deddf Cymorth Gwladol 1948—yn dechrau drwy ddirymu deddf y tlodion. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch o hynny. Yr ydym wedi gwneud cynnydd mawr ers 1948 o ran sut yr ydym yn darparu i bobl sydd ag anghenion arbennig, ond mae gennym ffordd hir i fynd. Mae’r Ddeddf yn trafod galluogi awdurdodau lleol i ddarparu llety ar gyfer,

‘pobl sydd ag angen gofal a sylw arnynt’.

Mae hyn yn cynnwys pobl anabl. Mae’r Ddeddf yn mynd ymlaen gan gyfeirio at yr angen i ddarparu,

‘llety o wahanol ddisgrifiadau a fyddai’n addas i bobl o wahanol ddisgrifiadau fel a nodwyd yn flaenorol yn yr isadrannau uchod’.

Onid yw iaith ddeddfwriaethol yn hyfryd? Fodd bynnag, yr wyf eisiau tanlinellu’r angen i gamu heibio’r meddylfryd o ddarparu gofal a sylw mewn llety, tuag at hwyluso pobl anabl i fyw’n wirioneddol annibynnol. Bydd nifer o Aelodau’n bresennol yn lansiad llawlyfr adnoddau newydd Anabledd Cymru ‘Byw’n Annibynnol yng Nghymru’ heno. Mae byw’n annibynnol yn syniad cyffrous. Mae’n cynnwys awdurdodau lleol yn hytrach na darparu llety preswyl, talu’n uniongyrchol i bobl anabl i’w galluogi i brynu’r llety a’r gefnogaeth ofal y maent yn ei dewis. Mae



the accommodation and the care support that they choose. It has been successfully pioneered in Cardiff and the Vale of Glamorgan by Cardiff and the Vale Coalition of Disabled People. Colleagues on the Health and Social Services Committee will remember how impressive that scheme was, when the Coalition came to speak to us. I was concerned to hear that funding for the Coalition has been cut this year. That is a great pity when other authorities are developing these independent living schemes and others are considering doing so.

As we pass these regulations, we must move on from the provision of the 1948 Act towards making independent living an option for disabled people throughout Wales. Residential accommodation will always be the right option for some disabled people, whether they are young adults, children or elderly. However, it should be a choice and not the only option, as it often is. We should do this as part of our commitment of enabling disabled people to play their full part as autonomous citizens in our nation.

**Andrew Davies:** You made some useful comments and I am sure that, on her return, Jane Hutt will carry on that dialogue with you. The Government is considering its official response to the Royal Commission's recommendations on long-term care for the elderly. We will take those considerations on board and consider their implications for the long-term care of the elderly in Wales.

3:10 p.m.

**The Presiding Officer:** We will vote first on the principle of the Order.

Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi dangos y ffordd ymlaen yn llwyddiannus yn hyn o beth. Bydd cyd-Aelodau ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cofio pa mor drawiadol oedd y cynllun hwnnw, pan ddaeth y Glymblaid i siarad â ni. Yr oedd yn ddrwg gennyf glywed bod cyllid y Glymblaid wedi ei dorri eleni. Mae hynny'n drueni mawr pan fo awdurdodau eraill yn datblygu'r cynlluniau byw'n annibynnol hyn ac eraill yn ystyried gwneud hynny.

Wrth inni gytuno ar y rheoliadau hyn, rhaid inni symud ymlaen o ddarpariaeth Deddf 1948 tuag at wneud byw'n annibynnol yn ddewis i bobl anabl ledled Cymru. Llety preswyl fydd y dewis cywir ar gyfer rhai pobl anabl o hyd, boed hwy'n oedolion ifanc, yn blant neu'n henoed. Fodd bynnag, dylai fod yn ddewis ac nid yr unig ddewis, fel y mae'n aml. Dylem wneud hyn fel rhan o'n hymrwymiad i alluogi pobl anabl i chwarae eu rhan lawn fel dinasyddion annibynnol yn ein cenedl.

**Andrew Davies:** Gwnaethoch rai sylwadau defnyddiol ac yr wyf yn siŵr y bydd Jane Hutt yn parhau'r ddeialog hon gyda chi pan fydd hi'n dychwelyd. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ei hymateb swyddogol i argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar ofal tymor hir i'r henoed. Byddwn yn ystyried y rhain ac yn trafod eu goblygiadau o ran gofal tymor hir yr henoed yng Nghymru.

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn gyntaf ar egwyddor y Gorchymyn.

*Cynnig: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 43, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Janet

Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Humphreys, Christine  
Jarman, Pauline  
Jones, Carwyn  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Marek, John  
Melding, David  
Michael, Alun  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Randerson, Jenny  
Rogers, Peter  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

**The Presiding Officer:** We will now vote on the approval of the Order.

**Y Llywydd:** Pleidleisiwn yn awr ar gymeradwyo'r Rheol.

*Cynnig: O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion: For 41, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine

Halford, Alison  
 Hart, Edwina  
 Humphreys, Christine  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Ann  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Marek, John  
 Melding, David  
 Michael, Alun  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Randerson, Jenny  
 Rogers, Peter  
 Ryder, Janet  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Phil

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

**‘Gwellcymru.com’**  
**‘Betterwales.com’**

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 8 and 9 in the name of Michael German, amendments 2, 5, 6 and 7 in the name of Cynog Dafis, amendment 3 in the name of Nick Bourne and amendment 4 in the name of David Melding.

**Y Llywydd:** Dewisais welliannau 1, 8 a 9 yn enw Michael German, gwelliannau 2, 5, 6 a 7 yn enw Cynog Dafis, gwelliant 3 yn enw Nick Bourne a gwelliant 4 yn enw David Melding.

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** I propose that

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Cynigiau fod

*the Assembly*

*y Cynulliad*

*endorses the vision, priorities and values set out in the introduction to the corporate plan, ‘Betterwales.com’, laid in the Table Office on 29 March;*

*yn cefnogi'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r gwerthoedd a nodir yn y rhagarweiniad i'r cynllun corfforaethol, ‘Gwellcymru.com’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth;*

*notes the detailed programme for Government set out in the document and the proposals for reporting and reviewing progress; and*

*yn nodi'r rhaglen fanwl ar gyfer y Llywodraeth a geir yn y ddogfen ac yn nodi'r cynigion ar gyfer adrodd ac adolygu cynnydd; ac*

*agrees that the detailed actions should be developed and tested with partners and in discussion in committee.*

*yn cytuno y dylid datblygu a phrofi'r camau gweithredu manwl gyda phartneriaid a'u trafod yn y pwyllgorau.*

On 20 October when we debated the consultation draft, ‘A Better Wales’, I set out my aim that this Assembly should set a world

Ar 20 Hydref, pan drafodasom y drafft ymgynghori, ‘Gwell Cymru’, cyflwynais fy nod y dylai'r Cynulliad hwn osod esiampl o

class example of corporate planning. I strongly believe that endorsement of the document as set out in the terms of the motion today will do exactly that.

First, the plan reflects the input of a fresh and wide-ranging consultation. This has not only involved the Assembly's partners, but it has made full use of information technology and reached out to engage schools and young people in a new way.

Secondly, the plan provides clarity of objectives, and accountability in achieving those objectives, which has never been seen before. This reflects our aim to be open and accountable to the people of Wales and it reinforces our commitment to the Assembly's overall themes of equality, inclusion and, of course, sustainable development.

Thirdly, the motion invites you to endorse a vision, values and priorities for the Assembly as a whole. This offers the Assembly an opportunity to set guidelines for the more detailed work of the Executive and reflects our aim to work across parties. As the motion says, we want to make this a basis for working in Committees to focus on what can make a difference and to build consensus on the big issues.

Fourthly, this is a plan made in Wales for Wales, and while it naturally builds on the inheritance of the work carried out before the Assembly was created, its emphasis is on new thinking and working together to build a distinctive Welsh approach. This is reflected in the fresh proposals regarding children and young people, the economy and tackling deprivation.

The draft plan received strong endorsement in the consultation. Our partners were pleased to see the Assembly setting clear overall direction to guide their contributions. They were also pleased that we set an example by holding ourselves accountable for those goals. It is important to the electorate that we are accountable for what we say and do.

gynllunio corfforaethol gyda'r gorau yn y byd. Credaf yn gryf y bydd cadarnhau'r ddogfen fel y'i cyflwynir yn nhermau'r cynnig heddiw yn gwneud yn union hynny.

Yn gyntaf, mae'r cynllun yn adlewyrchu'r mewnbwn o ymgynghoriad newydd ac eang ei gwmpas. Nid yn unig y mae wedi cynnwys partneriaid y Cynulliad, ond manteisiodd yn llawn ar dechnoleg gwybodaeth gan ymestyn allan i gynnwys ysgolion a phobl ifanc mewn ffordd newydd.

Yn ail, mae'r cynllun yn cynnig eglurder o ran ei amcanion, ac atebolrwydd o ran cyflawni'r amcanion hynny, nas gwelwyd ei debyg o'r blaen. Mae hyn yn adlewyrchu ein nod ni i fod yn agored ac atebol i bobl Cymru ac yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i themâu cyffredinol y Cynulliad o gydraddoldeb, cynwysoldeb ac, wrth gwrs, datblygu cynaliadwy.

Yn drydydd, mae'r cynnig yn eich gwahodd i gadarnhau gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau i'r Cynulliad cyfan. Mae hwn yn gyfle i'r Cynulliad osod canllawiau ar gyfer gwaith mwy manwl y Weithrediaeth ac yn adlewyrchu ein nod o weithio ar draws pleidiau. Fel y dywed y cynnig, yr ydym am wneud hyn yn sylfaen ar gyfer gweithio mewn Pwyllgorau i ganolbwyntio ar yr hyn a all wneud gwahaniaeth a chreu consensws ar y materion mawr.

Yn bedwerydd, mae hwn yn gynllun a wnaethpwyd yng Nghymru ar gyfer Cymru, ac er ei fod yn naturiol yn adeiladu ar dreftadaeth y gwaith a wnaethpwyd cyn creu'r Cynulliad, mae ei bwyslais ar feddylfryd newydd a gweithio gyda'n gilydd i lunio patrwm gweithredu neilltuol Gymreig. Adlewyrchir hyn yn y cynigion newydd ynglŷn â phlant a phobl ifanc, yr economi a mynd i'r afael ag amddifadedd.

Cafodd y cynllun drafft gefnogaeth gref yn ystod yr ymgynghoriad. Yr oedd ein partneriaid yn falch o weld y Cynulliad yn pennu cyfeiriad cyffredinol clir fel arweiniad i'w cyfraniadau. Yr oeddent hefyd yn falch ein bod yn gosod esiampl drwy ein dal ein hunain yn atebol am yr amcanion hynny. Mae'n bwysig i'r etholwyr ein bod yn atebol am yr hyn a ddywedwn ac a wnawn.

I acknowledge the many helpful and constructive comments that have helped to shape the plan. These comments have been summarised on the intranet and copies of the full responses are available in the Library. The web site received some 17,000 hits and was highlighted as an example of best practice in electronic government.

I am pleased that we could develop a cover design with the help of sixth formers from Y Pant Comprehensive School. Alun Michael and I were delighted when we visited the school and met the youngsters at the launch of the document. They assisted us with the design and voted on their preferred choice. That was a nice initiative.

I have also been able to reflect almost all the constructive comments that were made on improving the draft, in particular to address concerns about accountability and delivery. I have added material on the links to other supporting plans. I have indicated lead bodies against objectives and I have highlighted a set of priority actions in the introduction.

On more specific issues raised, we have strengthened the cultural and heritage aspects of the document and incorporated fresh material into the vision for Wales. We have reassessed how the needs of the elderly are reflected and added a fresh commitment to free museum access to the existing one on public transport. We have introduced fresh statements on health and educational development into the 20 priorities in the introduction. We have incorporated fresh commitments on sustainable development into the priorities and improved the links with the draft sustainable development scheme. We have also added a commitment to take forward the housing strategy.

All those who commented were clear that the plan had to be made real through proper accountability and reporting. I strongly endorse this view. However, I want to go further. The plan must shape the way we work and the priorities we take into next

Cydnabyddaf y llu o sylwadau buddiol ac adeiladol a fu'n gymorth i lunio'r cynllun hwn. Mae'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi ar y fewnwyd ac mae copïau o'r atebion llawn ar gael yn y Llyfrgell. Cafwyd tua 17,000 o ymweliadau â'r safle ar y we ac mae sylw wedi ei roi iddo fel enghraifft o'r arfer gorau mewn llywodraeth electronig.

Yr wyf yn falch inni allu datblygu cynllun clawr gyda help disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun y Pant. Yr oedd Alun Michael a minnau wrth ein bodd pan ymwelsom â'r ysgol a chwrdd â'r bobl ifanc wrth lansio'r ddogfen. Cawsom eu cymorth gyda'r cynllun a buont yn pleidleisio ar eu hoff ddewis. Yr oedd hynny'n fenter ddifrif.

Yr wyf hefyd wedi gallu adlewyrchu pob un bron o'r sylwadau adeiladol a wnaethpwyd ynglŷn â gwella'r drafft, yn enwedig i roi sylw i'r pryderon ynglŷn ag atebolrwydd a chyflawni. Yr wyf wedi ychwanegu deunydd ar y dolenni cyswllt at gynlluniau cefnogol eraill. Yr wyf wedi nodi cyrff arweiniol yn erbyn amcanion ac wedi tynnu sylw yn y cyflwyniad at set o gamau gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

Ar faterion mwy penodol a godwyd, yr ydym wedi atgyfnerthu agweddau diwylliannol a threftadaeth y ddogfen ac wedi ymgorffori deunydd newydd yn y weledigaeth ar gyfer Cymru. Ailaseswyd sut mae anghenion yr henoed yn cael eu hadlewyrchu ac ychwanegwyd addewid newydd o fynediad am ddim i amgueddfeydd at yr un cyfredol ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus. Cyflwynwyd datganiadau newydd ar ddatblygu iechyd ac addysg i mewn i'r 20 blaenoriaeth yn y cyflwyniad. Ymgorfforwyd ymrwymadau newydd ar ddatblygu cynaliadwy yn y blaenoriaethau ac mae'r dolenni cyswllt â'r cynllun datblygu cynaliadwy drafft wedi'u gwella. Ychwanegwyd ymrwymiad hefyd i fynd â'r strategaeth tai yn ei blaen.

Yr oedd pawb a wnaeth sylwadau yn glir bod yn rhaid gwneud hwn yn gynllun go-iawn drwy atebolrwydd a threfn adrodd briodol. Cefnogaf y farn hon yn gryf. Fodd bynnag, yr wyf am fynd ymhellach. Rhaid i'r cynllun lunio'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r

year's planning and budget round.

If the plan is simply a document it will fail. It should be a living plan that we keep under review in Committees and Plenary over the coming year. I have said before that policy must drive the budget, so I will set out next month how we can approach the budget round in a way which reflects the commitments and values in 'Betterwales.com' and demonstrates that we are getting down to business.

It is important that the Assembly as a whole endorses the introduction to the document as expressed in the motion. The public and our partners want the Assembly to set a clear direction. They want us to be ready to agree on things that make sense for Wales, regardless of our respective party interests. They want us to get down to business and work together to deliver the things that matter. I therefore ask you not to support Mike German's amendment 1.

The consultation has helped us to strengthen the vision. It suggests that the Assembly's aim should be to promote a Wales that is united, confident and creative and committed to fostering its unique and diverse identity. It should promote a Wales that is prosperous, well educated, skilled, healthy and environmentally and culturally rich; a Wales that is served by modern, effective, efficient and accessible public services. It should also promote a Wales that is active in its local communities and a fairer place to live; a place that values its children and a place where young people want to live and work. That is important.

The document has moved on significantly from the consultation draft. I want to highlight how distinctively 'made in Wales' the priorities set out in the plan are. The plan shows the Assembly making a real difference. We have already achieved commitment to distinctive primary legislation to provide a children's commissioner for Wales and a new Welsh framework to

blaenoriaethau y byddwn yn eu cynnwys yng nghylch cynllunio a chyllideb y flwyddyn nesaf.

Os nad yw'r cynllun yn ddim ond dogfen, bydd yn methu. Dylai fod yn gynllun byw a adolygir mewn Pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn dros y flwyddyn i ddod. Dywedais o'r blaen mai polisi ddylai yrru'r gyllideb, felly byddaf yn nodi fis nesaf sut y gallwn ymdrin â chylch y gyllideb mewn ffordd sydd yn adlewyrchu'r ymrwymadau a'r gwerthoedd yn 'Gwellcymru.com' ac yn dangos ein bod yn bwrw ati i weithio.

Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn ei gyfanwydd yn cadarnhau'r cyflwyniad i'r ddogfen fel y'i mynegwyd yn y cynnig. Mae'r cyhoedd a'n partneriaid am i'r Cynulliad osod cyfeiriad clir. Maent am inni fod yn barod i gytuno ar bethau sydd yn gwneud synnwyr i Gymru, heb ystyried buddiannau ein pleidiau unigol. Maent am inni fwrw ati a gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r pethau pwysig. Gofynnaf felly ichi beidio â chefnogi gwelliant 1 gan Michael German.

Mae'r ymgynghoriad wedi ein helpu i gryfhau'r weledigaeth. Mae'n awgrymu mai priod nod y Cynulliad fyddai hyrwyddo Cymru sydd yn unedig, hyderus a chreadigol ac wedi ymrwymo i feithrin ei hunaniaeth unigryw ac amrywiol. Dylai hyrwyddo Cymru sydd yn ffyniannus, wedi'i haddysgu'n dda, yn sgilgar, iach a chyfoethog ei hamgylchedd a'r diwylliant; Cymru a wasanaethir gan wasanaethau cyhoeddus modern, effeithiol, effeithlon a hawdd eu cyrraedd. Dylai hefyd hyrwyddo Cymru sydd yn weithgar yn ei chymunedau lleol ac yn lle tecach i fyw ynddo; lle sydd yn rhoi gwerth ar ei blant a lle y mae pobl ifanc am fyw a gweithio ynddo. Mae hynny'n bwysig.

Mae'r ddogfen wedi symud ymlaen yn sylweddol o'r drafft ymgynghori. Blaenoriaethau a 'wnaethpwyd yng Nghymru' a geir yn y cynllun ac mae hynny'n amlwg iawn. Mae'r cynllun yn dangos y Cynulliad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yr ydym eisoes wedi sicrhau addewid y ceir deddfwriaeth sylfaenol benodol i ddarparu comisiynydd plant i

support young people. This is the devolution settlement in action.

The introduction to the plan sets out other areas where we establish our own approach to deliver in Wales. For example, the proposals for a communities first approach to tackle local problems across services and agencies, driving ahead with action to increase the use of information and communications technology, the development fund for small businesses, a Wales and the world programme to put us firmly on the map, and proposals to make our commitments to sustainable development a reality.

The plan commits us to delivering best value and, of course, better services. I want us to examine our agencies and ourselves closely to see what could be improved, eliminate overlaps and reduce bureaucracy. We must be seen to be spending money wisely and effectively.

I am particularly pleased that I could include a commitment to an accelerated review of public bodies. It is important that the Assembly is seen to give a strong lead, asking fundamental questions about current structures. People are naturally concerned about accountability and the transparency of public bodies. I want to set a world class example. I therefore have no problem with the reference to public bodies in Mike German's amendment 8.

In this motion I do not seek endorsement of the detailed programme. That is a matter for the Executive and only we can be held accountable for it. However, I ask that this programme is developed and tested in the Committees and across the parties against the Assembly's vision.

The detailed aims underpin the goals of achieving a better and stronger economy, better opportunities for learning, better health and wellbeing, better quality of life and better, simpler government. The plan rightly concentrates on the practical steps required to

Gymru a fframwaith Cymreig newydd i gefnogi pobl ifanc. Dyma gytundeb datganoli ar waith.

Mae'r cyflwyniad i'r cynllun yn nodi'r meysydd eraill lle'r ydym yn sefydlu ein patrwm cyflawni ein hunain yng Nghymru. Er enghraifft, y cynigion i fynd i'r afael â phroblemau lleol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau drwy roi'r lle blaenaf i gymunedau, bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, y gronfa ddatblygu ar gyfer busnesau bach, rhaglen Cymru a'r byd i'n rhoi yn bendant ar y map, a chynigion i wireddu ein hymrwymiaidau ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae'r cynllun yn ein rhwymo i gyflawni'r gwerth gorau ac, wrth gwrs, gwell gwasanaethau. Yr wyf am inni edrych yn fanwl ar ein hasiantaethau ac arnom ein hunain i weld beth y gellid ei wella, dileu unrhyw orgyffwrdd a lleihau biwrocratiaeth. Rhaid i bawb weld ein bod yn gwario arian yn ddoeth ac yn effeithiol.

Yr wyf yn neilltuol o falch imi allu cynnwys ymrwymiad i gynnal arolwg o gyrff cyhoeddus yn fwy cyflym. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cael ei weld yn rhoi arweiniad cryf, yn gofyn cwestiynau sylfaenol am y strwythurau sydd gennym ar hyn o bryd. Mae pobl yn naturiol yn poeni am atebolrwydd a thryloywder cyrff cyhoeddus. Yr wyf am osod esiampl gyda'r gorau yn y byd. Nid oes gennyf unrhyw broblem felly gyda'r cyfeiriad at gyrff cyhoeddus yng ngwelliant 8 gan Michael German.

Yn y cynnig hwn nid wyf yn ceisio cefnogaeth i'r rhaglen fanwl. Mater i'r Weithrediaeth yw hynny a ni yn unig a all gael ein dal yn atebol amdani. Fodd bynnag, gofynnaf am i'r rhaglen hon gael ei datblygu a'i phrofi yn y Pwyllgorau ac ar draws y pleidiau yn erbyn gweledigaeth y Cynulliad.

Y nodau manwl yw sylfaen y targedau o sicrhau gwell economi ac economi gryfach, gwella cyfleoedd i ddysgu, gwell iechyd a lles, gwell ansawdd bywyd a gwell a symlach llywodraeth. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n briodol ar y camau ymarferol

make progress in all these areas, because success will not be judged on the basis of what we say, but on what we do. This has been a continuing message from the consultation. We must make this a practical reality rather than a pious wish list. Politicians are often accused of being pious, but I do not think that any of us in this Chamber have pious wish lists.

3:20 p.m.

The public needs to see us rolling up our sleeves and getting down to detailed work to improve policies and programmes. They are not interested in our indulging in day to day knocking. I support the reference to the role of Committees in Mike German's amendment 8. I say this on the understanding that the slightly colourful wording used does not seek to amend the role of Committees and support policy development as set out in the Assembly's Standing Orders.

**Michael German:** I would not do that.

**Edwina Hart:** No, I know that you would not.

We can only take this forward by engaging all our partners and the people of Wales. The plans can be dull documents that are only attractive to politically minded anoraks. We must enliven this one. I have discussed the plans with each of the formal Assembly partnerships and their views are reflected in the final version of the document. I intend to continue this dialogue. I look forward to see the fruits of the work that those partnerships have commissioned. This will feed fresh thinking into their respective studies on local government and health and voluntary sector funding by their creative use of issues such as delivering on European programmes. This will be fed into reviews of the plan.

I reject the implication in Nick Bourne's amendment 3 that we fail to involve business in the European programme. Business is an equal partner in the process at all levels and as soon as the programmes are adopted we will inform business of how it can benefit. I

sydd yn ofynnol i symud ymlaen ym mhob un o'r meysydd hyn, oherwydd nid ar sail yr hyn a ddywedwn y bernir llwyddiant, ond ar sail yr hyn a wnawn. Bu hynny'n neges barhaus o'r ymgynghoriad. Rhaid inni wneud hyn yn realiti ymarferol yn hytrach na rhestr ddymuniadau rinweddol. Caiff gwleidyddion eu cyhuddo'n aml o fod yn rhinweddol, ond ni chredaf fod gan unrhyw un ohonom yn y Siambr hon restrau dymuniadau ffuantus.

Mae'r cyhoedd am ein gweld yn torchi ein llewys ac yn bwrw ati gyda'r gwaith manwl i wella polisïau a rhaglenni. Nid ydynt am ein gweld yn mwynhau lladd ar ein gilydd o ddydd i ddydd. Cefnogaf y cyfeiriad at rôl Pwyllgorau yng ngwelliant 8 gan Mike German. Dywedaf hyn ar y ddealltwriaeth nad yw'r geiriad digon lliwgar yn ceisio newid rôl Pwyllgorau a chefnogi datblygu polisi yn unol â'r drefn a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

**Michael German:** Ni fyddwn yn gwneud hynny.

**Edwina Hart:** Na fyddech, mi wn.

Dim ond drwy ennyn cyfraniad ein holl bartneriaid a phobl Cymru y gallwn symud hyn yn ei flaen. Gall y cynlluniau fod yn ddogfennau diflas nad ydynt ond yn ddeniadol i anoracs gwleidyddol eu tueddfryd. Rhaid inni fywiogi hwn. Yr wyf wedi trafod y cynlluniau gyda phob un o bartneriaethau ffurfiol y Cynulliad ac adlewyrchir eu barn yn fersiwn terfynol y ddogfen. Bwriadaf barhau â'r deialog hwn. Edrychaf ymlaen at weld ffrwyth y gwaith a gomisiynwyd gan y partneriaethau hynny. Bydd hyn yn bwydo syniadaeth newydd i'w hastudiaethau unigol ar gyllido llywodraeth leol ac iechyd a'r sector gwirfoddol drwy eu defnydd creadigol o bethau fel rhoi rhaglenni Ewropeaidd ar waith. Caiff hyn ei fwydo i mewn i adolygiadau ar y cynllun.

Yr wyf yn gwrthod y goblygiad yng ngwelliant 3 gan Nick Bourne nad ydym yn cynnwys busnes yn y rhaglen Ewropeaidd. Mae busnes yn bartner cydradd yn y broses ar bob lefel a chyn gynted ag y caiff y rhaglenni eu mabwysiadu byddwn yn dweud wrth



ask you to vote against amendment 3 and reject its suggestion that we should reopen the budget in order to increase provision for farm diversification. This is quite unnecessary as the rural development plan, which the Assembly endorsed in December, already contains a coherent package of measures to assist diversification.

This document is not perfect. There are still gaps in the performance framework and overlaps in our programmes. Laying everything out for comment provides us with the challenge to do better next time. In the spirit of review and development, I support amendments 2, 6 and 7 in the name of Cynog Dafis, which relate to how we should develop the plan. I particularly welcome amendment 6, which sets us the challenge of linking policy development and legislation. This is the point of a corporate planning process and I will take this forward over the next year.

I expect the Assembly to help to develop ideas and actions and to show how we could improve over the next year. We can then produce a stronger plan that reflects the outcome of the UK-wide comprehensive spending review.

I have already stated in the document that the goals that we have set reflect the assumption that we will be able to implement our European proposals in full. I support amendment 9 in the name of Mike German or amendment 5 in the name of Cynog Dafis.

I support amendment 4 in the name of David Melding. I was pleased to announce additional funding for health services that will increase capital programmes. I have also included in 'Betterwales.com' a priority to develop a waiting times strategy. I trust that David will agree that the precise nature of this will follow detailed work to see how it could happen and how much it would cost. In particular, we need to see the waiting times strategy development group's results. I agree to set this as our longer-term aspiration as an Assembly.

This is the start of a new process. I believe that this plan points us in the right direction

fusnes sut y gall elwa. Gofynnaf ichi bleidleisio yn erbyn gwelliant 3 a gwrthod ei awgrym y dylem ailagor y gyllideb er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer arallgyfeirio ar ffermydd. Mae'n gwbl ddianghenraid gan fod y cynllun datblygu gwledig, a gadarnhawyd gan y Cynulliad fis Rhagfyr, eisoes yn cynnwys pecyn cydlynol o fesurau i gynorthwyo arallgyfeirio.

Nid yw'r ddogfen yn berffaith. Erys bylchau yn y fframwaith perfformiad a cheir gorgyffwrdd rhwng ein rhaglenni. Mae gosod popeth allan a gwahodd sylwadau yn rhoi her inni i wneud yn well y tro nesaf. Mewn ysbryd o adolygu a datblygu, cefnogaf welliannau 2, 6 a 7 yn enw Cynog Dafis, sydd yn ymwneud â sut y dylem ddatblygu'r cynllun. Croesawaf welliant 6 yn arbennig, sydd yn rhoi inni'r her o gydgyssylltu gwaith datblygu polisi a deddfwriaeth. Pwynt am broses gynllunio gorfforaethol yw hwn a byddaf yn gweithio ar hyn dros y flwyddyn nesaf.

Disgwyliaf i'r Cynulliad helpu i ddatblygu syniadau a chmau gweithredu a dangos sut y gallwn wella dros y flwyddyn nesaf. Wedyn gallwn lunio cynllun cryfach sydd yn adlewyrchu ffrwyth yr adolygiad cynhwysfawr o wariant drwy'r DU gyfan.

Dywedais eisoes yn y ddogfen fod y targedau a osodwyd gennym yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth y byddwn yn gallu gweithredu ein cynigion Ewropeaidd yn llawn. Cefnogaf welliant 9 yn enw Mike German neu welliant 5 yn enw Cynog Dafis.

Cefnogaf welliant 4 yn enw David Melding. Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd a fydd yn cynyddu'u rhaglenni cyfalaf. Yr wyf hefyd wedi cynnwys yn 'Gwellcymru.com' flaenoriaeth i ddatblygu strategaeth ar amserau aros. Hyderaf y bydd David yn cytuno y bydd union natur hyn yn dilyn gwaith manwl i weld sut y gallai ddigwydd a faint y byddai yn ei gostio. Yn arbennig, mae angen inni weld canlyniadau grŵp datblygu'r strategaeth amserau aros. Cytunaf i osod hwn fel ein dyhead tymor hwy fel Cynulliad.

Mae hyn yn ddechrau proses newydd. Credaf fod y cynllun yn ein pwyntio i'r cyfeiriad

to make a real difference for Wales. I commend the terms of the motion. I ask you to endorse the overall values and commitments to a made in Wales agenda, to note the detailed programme and commit to developing and testing it over the coming year so that we can show that the Assembly has got down to business and that we are delivering for the people of Wales who voted for us and for devolution.

**Michael German:** I propose amendment 1. In the first clause delete 'endorses' and replace with 'notes'.

I also propose amendment 8. At the end of the motion add

*notes that the Better Wales programme can be effectively implemented by a minority administration in the Assembly only if that administration recognises (1) the central role of the Assembly Committees in discussing and directing policy (2) the vital importance of public openness and freedom of information (3) the need to democratise Assembly sponsored public bodies.*

I also propose amendment 9. At the end of the motion add

*notes that the attainment of many of the aims set out in Better Wales depends upon securing full match funding from the UK Treasury for the Objective 1 areas of Wales.*

I start by repeating my comments at the consultative stage of the production of this document. The Liberal Democrats welcome the publication of a programme for the government of Wales because it shows that the Assembly's Labour administration is looking further ahead than tomorrow's vote. In the absence of such a document, the Assembly has had no vision. It has been managed from day to day and from vote to vote. The programme also provides an opportunity to hold the Assembly to account. We now have a yardstick by which we can measure the administration's vision, ambition and actions. We have targets and plans with which we and, by the next election, the people of Wales can hold Labour to account.

iawn i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Gymru. Cymeradwyaf delerau'r cynnig. Gofynnaf ichi gadarnhau'r gwerthoedd a'r ymrwymadau cyffredinol i agenda a wnaethpwyd yng Nghymru, nodi'r rhaglen fanwl ac ymrwymo i'w datblygu a'i phrofi dros y flwyddyn i ddod fel y gallwn ddangos bod y Cynulliad wedi bwrw ati a'n bod yn cyflawni ar ran pobl Cymru a bleidleisiodd drosom ni a thros ddatganoli.

**Michael German:** Cynigiau welliant 1. Yn y cymal cyntaf dilëer 'cefnogi'r' a gosoder 'nodi'r' yn ei le.

Cynigiau hefyd welliant 8. Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger

*yn nodi na ellir gweithredu'r rhaglen Gwell Cymru yn effeithiol gan weinyddiaeth o leiafrif yn y Cynulliad oni fydd y weinyddiaeth honno yn cydnabod (1) rôl ganolog Pwyllgorau'r Cynulliad o ran trafod a chyfarwyddo polisi (2) pwysigrwydd hanfodol bod yn agored i'r cyhoedd a rhyddid i gael gwybodaeth (3) yr angen i ddemocrateiddio Cyrff cyhoeddus a noddig gan y Cynulliad.*

Cynigiau hefyd welliant 9. Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger

*yn nodi bod cyflawni llawer o'r amcanion a ddisgrifir yn Gwell Cymru yn dibynnu ar sicrhau cyllid cyfatebol llawn oddi wrth Drysorlys y DU ar gyfer ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru.*

Dechreuaf drwy ailadrodd fy sylwadau yn ystod cyfnod ymgynghorol cynhyrchu'r ddogfen hon. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu cyhoeddi rhaglen ar gyfer llywodraeth Cymru oherwydd mae'n dangos bod gweinyddiaeth Llafur yn y Cynulliad yn edrych ymhellach na phleidlais yfory. Yn absenoldeb dogfen o'r fath, bu'r Cynulliad yn ddiweledigaeth. Cafodd ei reoli o ddydd i ddydd ac o bleidlais i bleidlais. Mae'r rhaglen hefyd yn gyfle i ddal y Cynulliad i gyfrif. Bellach mae gennym ffon fesur i'w defnyddio i fesur gweledigaeth, uchelgais a gweithredoedd y weinyddiaeth. Mae gennym dargedau a chynlluniau y gallwn ni ac, erbyn yr etholiad nesaf, bobl Cymru eu defnyddio i ddal Llafur i gyfrif.

The publication of 'Betterwales.com' is welcome because it sets out a vision of just that—a better Wales. It improves our accountability as politicians. These are big issues—a vision for a better Wales generated with the support of Government action across all areas. Therefore, why has this debate been crammed into half an afternoon and why has it been delayed and deferred nearly until Easter? If we can fit a vision for Wales, together with Government plans for the economy, education, health, environment, art, agriculture, transport, local government, and the setting of targets and the means of monitoring and reviewing the achievements of such targets into just half an afternoon, imagine what the Assembly could do in a week. At a stroke we could disprove the maxim that a week is a long time in politics. We spent more time discussing the Queen's speech and the budget. In effect, we have spent more time on the carts than we have on feeding the horse. Perhaps we have spent more time following Millbank's agenda than we have in setting our own. This is a shame, because there is much that is good in this document.

The Liberal Democrats welcome the emphasis on learning and active citizenship. We welcome the importance given to the improvement of the health of the people of Wales. The attention given to environmental and recycling targets is much needed. The elimination of the need for people to sleep rough is long overdue in a so-called civilised society. However, where are the strategies for sustainable energy and the long promised community development policy? Successful regeneration is built upon building up our communities both economically and socially. This will provide the much-needed boost in support, which our rural economy vitally needs.

There is more in this document with which we can agree than disagree. I am sure that Plaid Cymru Members find themselves in the same position and even some Conservatives might struggle to be their usual negative selves with this document. There are areas where the Liberal Democrats disagree with

Mae cyhoeddi 'Gwellcymru.com' i'w groesawu am ei fod yn cyflwyno gweledigaeth o hynny yn union—gwell Cymru. Mae'n ein gwneud yn fwy atebol fel gwleidyddion. Mae'r rhain yn ystyriaethau mawr—gweledigaeth ar gyfer gwell Cymru a luniwyd gyda chefnogaeth gweithredoedd y Llywodraeth ar draws pob maes. Felly, pam fod y ddadl hon wedi ei gwasgu i hanner prynhawn a pham y cafodd ei hoedi a'i gohirio bron iawn tan y Pasg? Os gallwn wasgu gweledigaeth i Gymru, ynghyd â chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer yr economi, addysg, iechyd, yr amgylchedd, celfyddyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth, llywodraeth leol a gosod targedau a'r modd o fonitro ac adolygu a yw targedau o'r fath yn cael eu cyflawni i ddim ond hanner prynhawn, dychmygwch beth y gallai'r Cynulliad ei wneud mewn wythnos. Ar amrantiad, gallem wrthbrofi'r wireb bod wythnos yn gyfnod maith mewn gwleidyddiaeth. Treuliasom fwy o amser yn trafod araith y Frenhines a'r gyllideb. Mewn gwirionedd, yr ydym wedi treulio mwy o amser ar y cart nag ar fwydo'r ceffyl. Efallai inni dreulio mwy o amser yn dilyn agenda Millbank nag yn gosod ein hagenda ein hunain. Mae hynny'n drueni, oherwydd mae llawer o bethau da yn y ddogfen hon.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r pwyslais ar ddysgu a dinasyddiaeth fyw. Croesawn y pwysigrwydd a roddir i wella iechyd pobl Cymru. Mae mawr angen y sylw a roddir i dargedau amgylcheddol ac ailgylchu. Mae'n hen bryd dileu'r angen ar i bobl gysgu ar y stryd mewn cymdeithas a elwir yn un wâr. Fodd bynnag, ymhle mae'r strategaethau ar gyfer ynni cynaliadwy a'r polisi datblygu cymunedol a addawyd ers cyhyd? Mae adfywio llwyddiannus yn deillio o adeiladu ein cymunedau yn economaidd ac yn gymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi'r hwb o gefnogaeth, y mae ar ein heconomi gwledig gymaint o'i angen.

Mae mwy yn y ddogfen hon y gallwn gytuno ag ef yn hytrach nag anghytuno. Yr wyf yn siŵr bod Aelodau Plaid Cymru yn cael eu hunain yn yr un sefyllfa ac efallai y bydd rhai Ceidwadwyr hyd yn oed yn ei chael hi'n anodd bod mor negyddol ag arfer gyda'r ddogfen hon. Mae yna feysydd lle mae'r

the programme. The programme is timid on the fundamental need to raise Welsh educational standards. The poor state of educational achievement is not adequately emphasised as a core factor to be remedied. The intention to reduce class sizes for infants, while failing to address the problem of larger classes for older children, is a matter of great disappointment and of serious consequence for their future. The vagueness of targets set for the reduction of 16 to 18 year olds without a qualification is disheartening, and where is the commitment to reducing student hardship? We need a Cubie report of our own so that we do not chain the future of our country in debt.

The document is vague on money for our deteriorating school buildings. Pick a figure between £200 million and £500 million, depending on which local government report you read at any one time, and that is the sum of money required to house our children in buildings which will provide a proper learning environment. There is no point passing the buck to local authorities. They need the cash to do the job and that is our responsibility as an Assembly. The programme for Wales is also sadly disappointing in its lack of ambition for our Welsh environment. The lack of targets in this area is likely to lead to a lack of action and achievement. Some targets have been watered down since the first draft. We are now told that it is acceptable for some people in Wales to have bathing, drinking and river water that fails to meet European Union quality standards. The target date for local councils to get bus services back on the road has been delayed by three years. Not only do the buses run late but their masters also. Perhaps we are all expected to have two jaguars. We must address the funding problems of local government to enable it to pay for bread and butter services, and we must ensure that the new funding formula does not disadvantage huge areas of Wales.

The third area of disappointment is the passing reference to European structural funds and the importance of attaining match

Democratiaid Rhyddfrydol yn anghytuno â'r rhaglen. Mae'r rhaglen yn betrus ar yr angen sylfaenol i godi safonau addysgol yng Nghymru. Nid oes pwyslais digonol ar gyflwr gwael cyflawniadau addysgol fel ffactor craidd y mae angen ei gywiro. Mae'r bwriad i ostwng maint dosbarthiadau babanod, tra'n methu â mynd i'r afael â phroblem dosbarthiadau mwy i blant hŷn, yn fater o siom mawr ac iddo ganlyniadau difrifol i'w dyfodol. Mae amhendantwrwydd y targedau a bennwyd er gostwng nifer y rhai 16 i 18 oed sydd heb gymhwyster yn ddigalon, ac ymhle mae'r ymrwymiad i leihau caledi ymysg myfyrwyr? Mae angen ein hadroddiad Cubie ein hunain arnom fel na chadwynwn ddyfodol ein gwlad mewn dyled.

Mae'r ddogfen yn amhendant yn glŷn ag arian ar gyfer ein hadeiladau ysgolion sydd yn dirywio. Dewiswch ffigur rhwng £200 miliwn a £500 miliwn, gan ddibynnu ar ba adroddiad llywodraeth leol yr ydych yn ei ddarllen ar y pryd, a dyna'r swm o arian sydd yn ofynnol i gartrefu ein plant mewn adeiladau a fydd yn cynnig amgylchedd dysgu priodol. Nid oes diben taflu'r baich ar yr awdurdodau lleol. Mae angen yr arian arnynt i wneud y gwaith a'n cyfrifoldeb fel Cynulliad yw hynny. Mae'r rhaglen i Gymru yn siomedig iawn hefyd yn ei diffyg uchelgais i'n hamgylchedd yng Nghymru. Mae'r diffyg targedau yn y maes hwn yn debyg o arwain at ddiffyg gweithredu a chyflawni. Mae rhai targedau wedi cael eu gwanhau ers y drafft cyntaf. Dywedir wrthym yn awr ei bod yn dderbyniol i rai pobl yng Nghymru fod â dŵr ymdrochi, dŵr yfed a dŵr afon nad yw'n cyrraedd safonau ansawdd yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r dyddiad targed i gynghorau lleol gael gwasanaethau bws yn ôl ar y ffordd wedi'i oedi am dair blynedd. Nid yn unig y mae'r bysiau'n rhedeg yn hwyr ond felly hefyd eu meistri. Efallai fod disgwyl i bawb ohonom fod â dau *jaguar*. Rhaid inni roi sylw i broblemau cyllido llywodraeth leol i'w galluogi i dalu am wasanaethau bara ac ymenyn, a rhaid inni sicrhau nad yw'r fformwla gyllido newydd yn peri anfantais i ardaloedd enfawr o Gymru.

Y trydydd maes sydd yn ein siomi yw'r cyfeiriad wrth fynd heibio at arian strwythurol Ewrop a phwysigrwydd cael

funding additional to our block grant. It has not addressed the crisis in the rural economy.

**Phil Williams:** Do you accept that the term 'full match funding' does not exactly describe the core problem, and that the terms 'structural funds from Europe and the necessary extra match funding', used in previous Assembly motions, are a more accurate description for a motion in a Plenary session?

**Michael German:** Yes, and also the necessity for getting the PES cover to go with it, otherwise we will not be able to spend the European money that is allocated to us either. I agree with that entirely. We have not addressed the issues of the crisis in the rural economy sufficiently. Liberal Democrats want a sustainable agriculture integrated in a modern rural economy. However, what will there be to sustain unless the hill and livestock compensatory allowances payments are kept at the current level, or unless we have a supermarket watchdog to curb excess profits. It is not only the opposition parties that say that European money is Wales's big chance. The Labour Party itself trumpets the opportunities such an investment would bring.

3:30 p.m.

Os yw arian Ewrop mor bwysig, ac os yw ffyniant gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dibynnu gymaint arno, pam nad yw arian cyfatebol wrth wraidd y rhaglen hon? Gobeithiaf nad ofn Millbank sydd y tu ôl i hyn ac nad yw arian cyfatebol wedi ei hepgor er mwyn plesio Millbank.

There are areas in this document with which we agree and with which we disagree. We support all of the amendments.

**Alun Michael:** A yw Mike yn sylweddoli mai atebion Cymreig a grëwyd yng Nghymru yw cynnwys y ddogfen hon? Nid oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud â Millbank, fel y ceisiodd awgrymu yn ei bwt Cymraeg.

arian cyfatebol yn ychwanegol at ein grant bloc. Nid yw wedi mynd i'r afael â'r argyfwng yn economi cefn gwlad.

**Phil Williams:** A ydych chi'n derbyn nad yw'r term 'arian cyfatebol llawn' yn llwyr ddisgrifio'r broblem graidd, a bod y termau 'cronfeydd strwythurol o Ewrop a'r arian cyfatebol ychwanegol angenrheidiol', a ddefnyddiwyd mewn cynigion blaenorol gerbron y Cynulliad, yn ddisgrifiad mwy cywir ar gyfer cynnig mewn Cyfarfod Llawn?

**Michael German:** Ydwyf, a hefyd yr anghenraid i gael yr Arolwg Gwariant Cyhoeddus i gyd-fynd ag ef, neu ni fyddwn yn gallu gwario'r arian Ewropeaidd sydd wedi'i neilltuo ar ein cyfer ychwaith. Cytunaf â hynny yn llwyr. Nid ydym wedi rhoi sylw digonol i ystyriaethau'n ymwneud â'r argyfwng yn economi cefn gwlad. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol am gael amaethyddiaeth gynaliadwy wedi ei hintegreiddio i economi wledig modern. Fodd bynnag, beth fydd yna i'w gynnal oni chedwir taliadau'r lwfansau digolledu yng nghyswllt tir uchel a da byw ar y lefel gyfredol, neu oni chawn warchodwr archfarchnadoedd i ffrwyno elw gormodol. Nid dim ond y gwrthbleidiau sydd yn dweud mai arian o Ewrop yw cyfle mawr Cymru. Mae'r Blaid Lafur ei hun yn cyhoeddi'r cyfleoedd a ddeuai yn sgîl buddsoddiad o'r fath ar gyrn a phibau.

If European funding is so important, and if the prosperity of west Wales and the Valleys is so dependent upon it, why is match funding not at the heart of this programme? I hope that a fear of Millbank does not lie behind this and that match funding has not been omitted in order to please Millbank.

Mae meysydd yn y ddogfen hon yr ydym yn cytuno ac anghytuno â hwy. Cefnogwn y gwelliannau i gyd.

**Alun Michael:** Does Mike realise that Welsh solutions created in Wales form the contents of this document? They do not have anything to do with Millbank, as he tried to suggest in his Welsh soundbite.

**Michael German:** The answer to the question is whether we have been debating matters that have been sent to us by the London Government. It is not surprising, therefore, that not one piece of home-made Welsh legislation has emerged from the Assembly. Everything that we have achieved so far came from London. The directions that we are taking will give rise to Assembly legislation, and I look forward to the first piece.

This debate must be about more than Assembly policies. It must be, because we are being asked to sign up to them. If I were being crude I would say that this is an attempt at a stitch-up. Willing the support of all parties today would be giving the administration a stick with which to beat us in every subsequent debate. The introduction to the documents, Edwina, rather prematurely states

‘This introduction provides the context for that detailed programme and has been endorsed by the Assembly as a whole’.

We must acknowledge the realities of politics. The four parties of the Assembly are in competition with each other. During the next election we will want to turn to our electors and point to the things that we have achieved on their behalf. We are in competition, but we must also work together. Mathematics, if not political culture, dictates that we must do so. It is hard to develop co-operation without trust. It is hard to develop trust without equal access to information and without co-operation at ground level. Being handed a document written by another party, being asked to comment on it at the fringes and being given so little time to debate it is not necessarily the way to establish trust. To be politically crude again, parties need to be given clear credit where credit is due. We are not all here to follow Labour’s lead. There must be give and take at all stages in the process of policy formation. We all want to point to policies in the programme that are the result of our own contribution, and which, because of their presence, allow us to compromise on other points and agree to the whole.

**Michael German:** Yr ateb i’r cwestiwn yw a ydym wedi bod yn trafod materion a anfonwyd inni gan Lywodraeth Llundain. Nid yw’n syndod, felly, nad oes yr un darn o ddeddfwriaeth gartref Gymreig wedi dod allan o’r Cynulliad. Mae popeth a gyflawnasom hyd yma wedi dod o Lundain. Bydd y cyfeiriadau yr ydym ar eu trywydd yn arwain at ddeddfwriaeth gan y Cynulliad, ac edrychaf ymlaen at y darn cyntaf.

Rhaid i’r ddadl hon fod am fwy na pholisïau’r Cynulliad. Rhaid iddi, oherwydd gofynnir i ni eu cefnogi. Pe bawn yn siarad yn fras, byddwn yn dweud mai ymgais i daflu llwch i’n llygaid yw hyn. Byddai annog yr holl bleidiau i gefnogi heddiw yn rhoi i’r weinyddiaeth ffon fawr i’n curo â hi ym mhob dadl ddilynol. Dywed y cyflwyniad i’r dogfennau, Edwina, yn gynamserol braidd

‘Ceir yn y rhagarweiniad hwn gyd-destun y rhaglen fanwl honno ac fe’i cymeradwywyd gan y Cynulliad cyfan’.

Rhaid inni gydnabod realiti gwleidyddiaeth. Mae pedair plaid y Cynulliad yn cystadlu â’i gilydd. Yn ystod yr etholiad nesaf byddwn am droi at ein hetholwyr a thynnu sylw at bethau a gyflawnwyd ar eu rhan. Yr ydym yn cystadlu â’n gilydd, ond rhaid inni hefyd weithio gyda’n gilydd. Mae mathemateg, os nad y diwylliant gwleidyddol, yn pennu bod yn rhaid inni. Mae’n anodd datblygu cydweithrediad heb ymddiriedaeth. Mae’n anodd datblygu ymddiriedaeth heb gyfle cydradd i weld gwybodaeth ac heb gydweithrediad ar lawr gwlad. Nid drwy i ddogfen a ysgrifennwyd gan blaid arall gael ei chyflwyno ichi, gyda chais ar ichi gyflwyno sylwadau arni ar y cyrion a chael cyn lleied o amser i’w thrafod, o reidrwydd yw’r ffordd i sefydlu ymddiriedaeth. I fod yn wleidyddol fras eto, mae angen rhoi clod amlwg i bleidiau lle yr haeddir clod. Nid ydym i gyd yma i ddilyn arweiniad Llafur. Rhaid cymryd a rhoi bob cam o’r ffordd yn y broses o lunio polisi. Mae pawb ohonom am bwyntio at bolisïau mewn rhaglen sydd yn ffrwyth ein cyfraniad ni, ac sydd, oherwydd eu presenoldeb, yn caniatáu inni gyfaddawdu ar bwyntiau eraill a chytuno â’r cyfanwaith.

Rhodri's announcement on freedom of information was a good start. Trust needs more than that. We need to use the Assembly's Committees more at the starting point. We need to democratise our quangos so that the whole process of government, from policy formation to delivery is open and accountable. We are still awaiting progress in some of these areas. We will not be able to unite around a programme of government until that progress has been made. We need a bottom-up Assembly and a bottom-up Wales. We must not learn the new co-operative politics at the expense of the people of Wales. We must learn it together from the people of Wales and alongside those people. That would be the new politics.

Yr oedd cyhoeddiad Rhodri ar ryddid gwybodaeth yn ddechrau da. Mae angen llawer mwy na hynny i gael ymddiriedaeth. Mae angen inni ddefnyddio mwy ar Bwyllgorau'r Cynulliad yn y man cychwyn. Mae angen democrateiddio ein cwangos fel bod holl broses llywodraethu, o lunio polisiau i'w cyflenwi yn agored ac atebol. Yr ydym yn dal i ddisgwyl cynnydd mewn rhai o'r meysydd hyn. Ni allwn uno o gwmpas rhaglen lywodraethu hyd nes y bydd y cynnydd hwnnw wedi'i wneud. Mae angen Cynulliad o'r gwreiddiau i fyny a Chymru o'r gwreiddiau i fyny arnom. Rhaid inni beidio â dysgu'r wleidyddiaeth gydweithredol newydd ar draul pobl Cymru. Rhaid inni ei dysgu gyda'n gilydd oddi wrth bobl Cymru ac ochr yn ochr â'r bobl hynny. Dyna fyddai'r wleidyddiaeth newydd.

**Cynog Dafis:** Cynigiau welliant 2. Ar ôl y gair 'cynnydd' yng nghymal 2, ychwaneger

**Cynog Dafis:** I propose amendment 1. After the word 'progress' in clause 2, insert

*gan dderbyn bod angen i'r rhaglen hon fod yn seiliedig ar ddata cadarn.*

*accepting the need for this programme to be based on sound data.*

Cynigiau welliant 5. Ychwaneger y cymal canlynol

I propose amendment 5. Add the following clause

*yn ailbwysleisio y dylai llywodraeth y DU ddarparu arian digonol, gan sicrhau yn arbennig fod arian o'r gronfa strwythurol Ewropeaidd ac arian cyfatebol digonol yn ychwanegol at y bloc Cymreig.*

*re-emphasises that adequate funding should be provided by the UK government, ensuring in particular that European structural fund moneys and adequate match funding are additional to the Welsh block.*

Cynigiau welliant 6. Ychwaneger y cymal canlynol

I propose amendment 6. Add the following clause

*yn nodi bod angen cynnal archwiliad buan o'r graddau y gall y Cynulliad yn effeithiol gysylltu datblygu polisi, deddfwriaeth a gweithredu er mwyn prysuro cynigion ar gyfer gwella.*

*notes the need to carry out an early examination of the extent to which the Assembly is able effectively to link policy development, legislation and implementation in order to bring forward proposals for improvement.*

Cynigiau welliant 7. Ychwaneger y cymal canlynol

I propose amendment 7. Add the following clause

*yn cytuno, wrth adolygu'r rhaglen, y rhoddir ystyriaeth i gasgliadau Uwch-gynhadledd Lisbon, yn enwedig y rheini sydd yn ymwneud â chyflogaeth.*

*agrees that, in any review of the programme, the conclusions of the Lisbon Summit, especially regarding employment, should be taken into account.*

Mae'n ffrind i gael siarad yn gyntaf ar ran Grŵp Plaid Cymru ar fater eithriadol o

It is a privilege to speak first on behalf of the Plaid Cymru Group on an extremely

bwysig, sef yr ymdrech yn y ddogfen Cymru Well—mae'n well gennyf yr enw Cymru Well na Gwell Cymru, a dysgodd Dafydd Iwan inni ddweud hynny—i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru. Mae Plaid Cymru yn croesawu bodolaeth y ddogfen hon a'r ymdrech, am y tro cyntaf efallai, i greu darlun o ddyfodol y genedl hon ar sail cydsyniad democrataidd. Croesawom hefyd y cyfle i ymgynghori'n eang a'r ymateb brwd i'r ymgynghori hwnnw. Mae hynny'n galonogol.

Ar ddechrau'r broses, disgrifiwyd y ddogfen hon fel cynllun corfforaethol—a defnyddiodd Edwina yr ymadrodd hwnnw heddiw—i gorff corfforaethol. Yn fuan, daeth Plaid Cymru i'r casgliad na allem fabwysiadu, fel eiddo cyffredin, set o werthoedd, strategaethau ac argymhellion polisi a luniwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru. Mae hynny'n adlewyrchu ein safbwynt ar natur y Cynulliad. Mae'n gorff corfforaethol, yn ôl llythrennol y gyfraith. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a gefnogasom fel plaid, system gabinet sydd gennym. Y Cabinet hwnnw yw Llywodraeth Cymru, a rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am bolisi ac am ei weithredu.

Nid yw hynny'n golygu nad oes rôl datblygu polisi gan Aelodau a phleidiau nad ydynt yn y Llywodraeth. Rhaid i'r blaid lywodraethol, gan nad oes ganddi fwyafrif, ystyried safbwyntiau'r pleidiau eraill. Dyna bwynt gwelliant 9 Mike German ac yr ydym yn ei dderbyn.

Cydnabyddir y realiti cymhleth hwnnw yng nghynnig y Llywodraeth. Nid ymdrech i gael y Cynulliad i arddel 'Gwellcymru.com' fel cynllun corfforaethol ydyw, ond cais inni gefnogi'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r gwerthoedd yn y rhagarweiniad.

Paratôdd grŵp Plaid Cymru ymateb manwl 17 tudalen ar gyfer yr ymgynghoriad. Ni wn a wnaeth y gwrthbleidiau eraill hynny ond treuliasom gryn amser wrth y gwaith. Ar lawer ystyr, yr oedd yr ymateb hwnnw yn llym ei feirniadaeth o'r drafft gwreiddiol. Teimlem ei fod yn annelwig, yn or-ddibynnol ar agenda bolisi Llafur Newydd yn Llundain

important issue, namely the endeavour in the Better Wales document—I prefer the name of Cymru Well to that of Gwell Cymru, and Dafydd Iwan taught us to say that—to develop a vision for the future of Wales. Plaid Cymru welcomes the existence of this document and the effort, for the first time perhaps, to create a picture of the future of this nation on the basis of democratic consensus. We also welcomed the opportunity to consult widely and the enthusiastic response to that consultation. That is encouraging.

At the beginning of the process, this document was described as a corporate plan—and Edwina used that phrase today—for a body corporate. Plaid Cymru soon came to the conclusion that we could not adopt, as common property, a set of values, strategies and policy recommendations formulated by the Welsh Labour Government. That reflects our view on the nature of the Assembly. It is a body corporate, according to the letter of the law. However, because of changes to the Government of Wales Act 1998, which we as a party supported, we have a cabinet system. That Cabinet is the Government of Wales, and the Government of Wales must carry the responsibility for policy and its implementation.

That does not mean that Members and parties that are not in Government do not have a policy development role. The governing party, as it does not have a majority, must consider the views of the other parties. That is the point of Mike German's amendment 9 and we accept it.

That complex reality is acknowledged in the Government's motion. It is not an attempt to get the Assembly to take ownership of 'Betterwales.com' as a corporate plan, but a request for us to support the vision, priorities and values of the introduction.

The Plaid Cymru group prepared a 17-page detailed response for the consultation. I do not know whether the other opposition parties did that but we spent much time on the work. In many ways, that response was a trenchant criticism of the original draft. We felt that it was vague, overly dependent on the policy agenda of New Labour in London and



ac yn brin o weledigaeth genedlaethol. Yr oedd ei dargedau naill ai'n ddyheadol neu'n rhy anuchelgeisiol i fod o werth ac yr oedd yn brin o ddata cadarn. Y pwynt hwnnw ynglŷn â data sydd y tu ôl i'n gwelliant 2.

Yr oedd ychydig o'n beirniadaeth yn gyffredinol a llawer ohoni'n manylu ar eitemau penodol. Yr oedd ein sylwadau ar bolisi iechyd a datblygu economaidd yn arbennig o hallt. Yr ydym yn dal yn anfodlon â'r adran ar bolisi iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y gwendidau hynny yn syndod inni. Wedi'r cyfan, daeth Llafur Newydd yng Nghymru i rym heb raglen, ar wahân i raglen Llywodraeth Blair wedi ei chymhwyso—ond nid llawer—ar gyfer Cymru. Treuliwyd y misoedd cyn yr etholiad ar ymraffaelion mewnol chwerw, yn hytrach nag ar broses o lunio polisi. Ar wahân i hynny, nid oes gan Lafur Cymru weithdrefnau ar gyfer datblygu na mabwysiadu polisiau sydd yn benodol i Gymru. Credaf mai ffaith yw hynny.

Yr hyn sydd yn angenrheidiol, er mwyn democratiaeth yng Nghymru—

**Lynne Neagle:** I wish to correct you. It is not the case that we do not have procedures for developing policies in Wales. Welsh Labour has a well-developed policy-making process. Therefore, you are wrong on that.

3:40 p.m.

**Cynog Dafis:** Os wyf yn anghywir, derbynïaf hynny. Fodd bynnag, yr argraff sydd gennyf—a'r argraff gyhoeddus gyffredinol—yw nad oes prosesau ar gael ar gyfer datblygu polisiau'n fanwl a mabwysiadu polisi ar gyfer y Blaid Lafur Gymreig yn benodol. Byddai'n wych pe bai hynny'n newid.

**Alun Michael:** Yr oedd Lynne Neagle yn gywir. Nid yw'n gwestiwn o newid. Mae'r strwythur yno i ddatblygu polisiau ac mae'n digwydd eisoes.

**Cynog Dafis:** Nid wyf wedi sylwi ar y canlyniadau. Ni ddaeth Llafur Newydd i'r Cynulliad gydag agenda bolisi sydd yn seiliedig ar flaenoriaethau ac anghenion Cymru. Os oes modd newid yr argraff honno,

lacking in national vision. Its targets were either aspirational or too unambitious to be of worth and it lacked sound data. That point about data is behind our amendment 2.

Some of our criticism was general and much of it detailed specific items. Our comments on health and economic development policy were particularly biting. We are still dissatisfied with the health policy section. However, those weaknesses were no surprise to us. After all, New Labour in Wales came to power without a programme, apart from the Blair Government's programme, which was modified—but not much—for Wales. The months before the election were spent on bitter internal wrangling, rather than on a policy-forming process. Apart from that, Welsh Labour does not have procedures for developing or adopting policies that are specific to Wales. I believe that to be a fact.

What is necessary, for the sake of democracy in Wales—

**Lynne Neagle:** Hoffwn eich cywiro. Nid yw'n wir dweud nad oes gennym weithdrefnau ar gyfer datblygu polisi yng Nghymru. Mae gan Lafur yng Nghymru broses llunio polisiau sydd wedi'i datblygu'n dda iawn. Felly, yr ydych yn anghywir ar hynny.

**Cynog Dafis:** If I am wrong, I will accept that. However, the impression that I have—and the general public impression—is that there are no processes for developing policies in detail and adopting policy for the Welsh Labour Party specifically. It would be wonderful if that changed.

**Alun Michael:** Lynne Neagle was correct. It is not a question of change. The structure is there to develop policies and that is already happening.

**Cynog Dafis:** I have not noticed the results. New Labour did not come to the Assembly with a policy agenda based on the priorities and needs of Wales. If there is a way to change that impression, all the better. What is

gorau oll. Yr hyn sydd yn anghenrheidiol er mwyn iechyd democratiaeth yng Nghymru—ac mae hyn yn awr yn bwynt pwysig a chadarnhaol—yw bod pob plaid, yn enwedig y Plaid Lafur, yn mynd ati o ddifrif i greu neu i berffeithio strwythurau a phrosesau i adeiladu polisiau a rhaglenni a seiliwyd ar flaenoriaethau Cymru. Mae Plaid Cymru yn gyfarwydd â gwneud hynny. Dyna sydd wedi ein galluogi i gyflwyno cyfres o argymhellion polisi yn y Cynulliad ac fel rhan o'r broses ymgynghori ar Well Cymru.

Nid y pleidiau yn unig sydd â chyfrifoldeb yn y mater hwn ond holl sefydliadau'r gymdeithas ddinesig yng Nghymru, grwpiau pwyso a sefydliadau ymchwil, addysg a phroffesiynol. Mae gennym i gyd gyfrifoldeb i wneud hyn. Y newyddion da yw bod hyn wedi dechrau mewn difrif yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig ers y refferendwm. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig wedi arwain y ffordd ac mae eraill yn dilyn. Mae'n bwysig inni dderbyn mai yn ei fabandod y mae'r broses o adeiladu agenda polisi ar gyfer Cymru.

Mae 'Gwellcymru.com' yn rhan o'r broses ac mae'r ymgynghori yn sbardun i'r broses honno. Er gwaethaf y gwendiadau, llongyfarchwn awduron y ddogfen am roi cychwyn hanesyddol ar y dasg.

Trof yn awr at y rhagarweiniad y mae'r cynnig sydd o'n blaenau heddiw yn gofyn inni ei gefnogi. Fe ganolbwyntiaf yn arbennig ar yr elfennau o'n hargymhellion ni sydd wedi eu hymgorffori yn y ddogfen. Talaf deyrnged i Edwina Hart am eu cynnwys.

Mae'r cyfeiriad yn y weledigaeth at feithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol Cymru ynghyd â chrosawu dylanwadau diwylliannol newydd yn bwysig. Mae hyn yn gydbwysedd hanfodol. Mae'r cyfeiriad at feithrin dwyieithrwydd yn y rhestr hon o brif elfennau ein gweledigaeth yn allweddol. Yn ogystal, mae'r cyfeiriad at ddiwylliant yn y trydydd cymal yn bwysig. Mae cymal olaf y weledigaeth, ynglŷn â phobl ifanc, yn ymddangos yn ddigon diniwed. Fodd bynnag, mewn gwlad lle mae ymadawiad yr ifanc dawnus a chymwysedig bron a dod yn norm, nid yw yn ddim byd llai na chwydroadol. Ein llwyddiant i gadw'r ifanc yng Nghymru yw

crucial for the health of democracy in Wales—and this is now an important and positive point—is that every party, especially the Labour Party, should earnestly set about creating or perfecting structures and processes to build policies and programmes that are based on the priorities of Wales. Plaid Cymru is familiar with doing that. That is what has enabled us to introduce a series of policy recommendations in the Assembly and as part of the consultation process on Better Wales.

It is not only the parties who are responsible for this matter but all the institutions of civic society in Wales, pressure groups and research, educational and professional institutions. We all have a responsibility to do this. The good news is that this has begun to happen in earnest during the last few years, and especially since the referendum. The Institute of Welsh Affairs has led the way and others are following. It is important for us to accept that the process of building a policy agenda for Wales is in its infancy.

'Betterwales.com' is part of the process and the consultation is a catalyst to that process. Despite the weaknesses, we congratulate the authors of the document on a historic launch to that task.

I turn now to the introduction that the motion before us today asks us to support. I will focus on the elements of our recommendations that have been incorporated in the document. I pay tribute to Edwina Hart for including them.

The reference in the vision to nurturing the unique and diverse identity of Wales and welcoming new cultural influences is important. This is an essential balance. The reference to fostering bilingualism in this list of the main elements of our vision is crucial. In addition, the reference to culture in the third clause is important. The last clause in the vision, concerning young people, appears to be fairly innocuous. However, in a country where the departure of gifted and qualified young people has almost become the norm, it is nothing less than revolutionary. Our success in keeping young people in Wales is one of the key indicators of the success of the

un o ddangosyddion allweddol llwyddiant yr holl beth. whole thing.

Croesawn y bwriad i drefnu cyfres o gynadleddau ar faterion pwysig: nid ein hawgrym ni yw hynny. Dyna gyfraniad pwysig arall i greu'r agenda bolisi Gymreig Mae'r cyfeiriad ym mhwynt 2 at strategaeth gyflogaeth yn bwysig o ran y math o ddatblygu economaidd y dylem fod yn ei ganlyn, ac yn cydweddu â'n gwelliant 7 sydd yn cyfeirio at uwchgynhadledd Lisbon a'r angen am strategaeth gyflogaeth Ewropeaidd. Dylid adlewyrchu hynny yn ein polisiau. Yr oedd grŵp Plaid Cymru yn awyddus i gael cyfeiriad penodol at ddatblygu gwledig a chynhwysir hynny ym mhwynt 5. Mae yna ymrwymiad cadarn, o'r diwedd, ym mhwynt 11 i astudiaeth fuan o'r Fagloraeth Gymreig. Dyma gam allweddol tuag at sefydlu agenda addysgol flaengar Gymreig a chydwladol.

We support the intention to organise a series of conferences on important issues: that is not our suggestion. That is another contribution to the creation of the Welsh policy agenda. The reference in point 2 to the employment strategy is important with regard to the sort of economic development we should be following and it goes hand in hand with our amendment 7, which refers to the Lisbon summit and the need for an European employment strategy. That should be reflected in our policies. The Plaid Cymru group was eager to find a specific reference to rural development and that is included in point 5. There is a firm commitment, at last, in point 11 to an imminent study of the Welsh Baccalaureate. This is a key step towards establishing a progressive Welsh and international agenda for education.

Bu fframwaith cynllunio newydd yn fater pwysig i Blaid Cymru ers y dechrau. Nid dyma'r pwnc mwyaf secsi dan haul, ond mae'n allweddol ar gyfer datblygu economaidd sydd yn diogelu'r amgylchedd. Rhaid cael hwnnw er mwyn agor y drws i ddatblygu cynaliadwy. Mae'n allweddol i gyflawni strategaeth Amcan 1. Mae hwn yn ymrwymiad pendant ym mhwynt 12, ynghyd â phwyslais ar ynni, gwastraff a'r angen i hyrwyddo technoleg lân. Yr ydym yn hynod falch bod ymrwymiad i rôl gydwladol ac Ewropeaidd i Gymru ym mhwynt 14. Mae hynny'n egin polisi tramor ar gyfer y Cynulliad.

A new planning framework has been important to Plaid Cymru from the start. This is not the sexiest topic under the sun, but it is crucial for economic development that protects the environment. You must have that in order to open the door for sustainable development. It is crucial to delivering the Objective 1 strategy. This is a definite commitment in point 12, together with an emphasis on energy, waste and the need to promote clean technology. We are extremely pleased that there is a commitment to an international and European role for Wales in point 14. That is a budding foreign policy for the Assembly.

Cyfeiria pwynt 19 at gyrff cyhoeddus. Soniodd Edwina Hart am y rhain a'r fframweithiau cyflawni. Gobeithiaf fod hynny'n agor y drws i arolwg nid yn unig o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ond o sefydliadau cenedlaethol eraill. Byddwn yn gosod ACCAC, sydd yn gwango, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, nad ydyw'n gwango, ac Estyn ymysg y sefydliadau y dylid ystyried eu rolau, eu cyd-berthynas a sut i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni yn effeithiol.

Point 19 refers to public bodies. Edwina Hart mentioned these and the delivery frameworks. I hope that that opens the door for a review not only of Assembly sponsored public bodies but of other national institutions. I would place ACCAC, a quango, the Welsh Joint Education Committee, which is not a quango, and Estyn among the institutions which their roles, their inter-relationships and how to ensure that their functions are delivered effectively should be considered.

Bydd yr addewid i adolygu'r fformwla gyllido â phwyslais ar degwch a chydweithrediad yn ein galluogi i ddatblygu

The promise to review the funding formula with an emphasis on equity and co-operation will enable us to develop a Welsh model of

model Cymreig o berthynas ysgolion â'i gilydd ac ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn gwbl allweddol wrth i'r chwyldro Thatcheridd gerdded yn ei flaen yn Lloegr, gydag ysgolion yn gynyddol yn mynd yn fusnesau ymreolus sydd yn cystadlu â'i gilydd. Nid oes rhaid inni ddilyn y llwybr hwnnw yng Nghymru ac mae'r fformwla gyllido yn allweddol i rwystro hynny rhag digwydd.

Teimla grŵp Plaid Cymru fod gennym erbyn hyn, yn y rhagarweiniad hwn, ddatganiad sydd yn symud yr agenda bolisi genedlaethol sawl cam ymlaen. Yn y gweithredu y mae'r glo mân. O dderbyn y rhagarweiniad, byddwn yn craffu'n ofalus gydol yr amser i sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu troi yn weithredu effeithiol.

Fodd bynnag, mae dau beth yn eisiau. Yn gyntaf, yr oedd ein hymateb yn pwysu am gydnabyddiaeth fod y Cynulliad a Chymru yn gyffredinol yn gorfod ceisio byw yng nghydestun set o bolisiau ariannol a macroeconomaidd hynod o anffafriol a benderfynir yn Llundain. Yr oeddem yn pwysu am yr angen i'r Cynulliad bwysu am newid yn y fframwaith hwnnw yn Llundain. Yr oedd disgwyl i Lywodraeth Cymru gydnabod hynny yn gofyn llawer, ond nid oedd yn gofyn gormod.

**David Davies:** I was interested to hear the Member's comments and I agree with his general point. However, does he agree that it is more important that the currency is controlled from London, which is at least closer to Cardiff than is Brussels or Frankfurt?

**Cynog Dafis:** Ofnaf nad wyf yn cytuno â David Davies. Mae'n amlwg bod y polisiau macroeconomaidd a ddilynir yn Ewrop yn llawer mwy ffafriol i ofynion Cymru na'r rhai a ddilynir yn Llundain. Mae'r ewro yn sicr yn fwy o fantais i ni erbyn hyn na'r bunt.

Mae ein gwelliant 5 yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at newid y fframwaith.

Yn ail, dylai fod datganiad diamwys o blaid datganoli fel proses yn y ddogfen hon—hynny yw, mwy o ymreolaeth. Mae'r

inter-relationships between schools and local authorities. This is absolutely crucial as the Thatcherite revolution proceeds apace in England, with schools increasingly becoming autonomous businesses that compete against one another. We do not have to follow that path in Wales and the funding formula is crucial to prevent that from happening.

The Plaid Cymru group feels that we now have, in this introduction, a statement that moves the national policy agenda several steps forward. The nitty gritty is in the implementation. In accepting the introduction, we will be continuously scrutinising to ensure that these commitments are turned into effective implementation.

However, two things are missing. Firstly, our response pressed for recognition that the Assembly and Wales in general has to try to live in the context of a set of highly unfavourable fiscal and macroeconomic policies determined in London. We were pressing for the need for the Assembly to press for a change in that framework in London. Expecting the Government of Wales to acknowledge that asked much, but it was not asking too much.

**David Davies:** Yr oedd yn ddiddorol gennyf glywed sylwadau'r Aelod a chytunaf â'i bwynt cyffredinol. Fodd bynnag, a yw'n cytuno ei bod yn bwysicach y rheolir yr arian treigl o Lundain, sydd o leiaf yn nes i Gaerdydd na Brwsel neu Frankfurt?

**Cynog Dafis:** I am afraid that I do not agree with David Davies. It is obvious that the macroeconomic policies that are pursued in Europe are far more favourable to Wales's needs than those that are pursued in London. The euro is definitely of greater advantage to us by now than is the pound.

Our amendment 5 goes some way towards changing the framework.

Secondly, there should be an unequivocal statement in favour of devolution as a process in this document—that is, more autonomy.

paragraff dan y teitl 'Agenda a Luniwyd yng Nghymru' yn y rhagarweiniad yn ddefnyddiol ac fe'i croesawn, ond nid yw'n ddigon. Mae'n amlwg bod diffygion o bwys yn y model o ymreolaeth y Cynulliad. Mae'r ddadl y dylem aros hyd inni gyrraedd llawn botensial y model hwn cyn symud ymlaen i ryw beth gwell fel dweud y dylech redeg injan ddiffygiol hyd yr eithaf cyn newid y pistonau ac atgyweirio'r cransiafft.

The paragraph under the title 'A Made in Wales Agenda' in the introduction is useful and we welcome it, but it is not enough. It is obvious that there are significant defects in the Assembly's model of autonomy. The argument that we should wait until we reach this model's full potential before moving on to something better is like saying that you should run a faulty engine to the utmost before changing the pistons and repairing the crankshaft.

Rhaid inni ddechrau trafod camau nesaf datganoli yn awr. Dyna beth yw perwyl ein gwelliant 6, a gobeithiaf y deallir hynny. Mae'n welliant cymhedrol ond pwysig.

We must begin now to discuss the next steps of devolution. That is the purpose of our amendment 6, and I hope that that is understood. It is a moderate but important amendment.

**Glyn Davies:** I am interested in your point on the movement towards more power. Do you think that the people should be consulted on that, or should the Assembly just do it? Do you agree with all of the people that I met in Ceredigion during the bi-election that you still support a policy of an independent Wales or, as Dafydd Wigley has been saying, is independence not your objective or your policy?

**Glyn Davies:** Mae gennyf ddi-ddordeb yn eich pwynt am symud tuag at fwy o rym. A ydych yn credu y dylid ymgynghori â'r bobl ynglŷn â hynny, ynteu a ddylai'r Cynulliad ei wneud ei hun? A ydych yn cytuno â'r holl bobl y cyfarfûm â hwy yng Ngheredigion yn ystod yr isetholiad eich bod yn dal i gefnogi polisi o Gymru annibynnol ynteu, fel y bu Dafydd Wigley'n ei ddweud, nid annibyniaeth yw eich amcan na'ch polisi?

3:50 p.m.

**Cynog Dafis:** Rhaid imi ddefnyddio geiriau'r gân boblogaidd 'un dydd ar y tro'. Rhaid inni symud gam wrth gam yn y materion hyn. Dylem ymgynghori â phobl drwy'r amser. Yr ydym am weld trafodaeth gyhoeddus ddeallus ar gwestiwn ein model o ddatganoli. Rhaid inni ddechrau edrych ar sut y mae'r model yn gweithio, a gwneud hynny mewn modd systemataidd a manwl gan edrych hefyd am ffyrdd i'w wella. Deallaf fod cefnogaeth Edwina Hart i welliant 6 yn adlewyrchu parodrwydd i wneud hynny. O gynnwys gwelliant 6 yn y cynnig a chael ymrwymiad pendant i weithredu arno, byddai grŵp Plaid Cymru yn fodlon cefnogi'r cynnig.

**Cynog Dafis:** I must use the words of the popular song 'one day at a time'. We must move step by step in these matters. We should consult with people at all times. We want to see informed public discussion on the question of our model of devolution. We must start to look at how the model works, and do so in a systematic and detailed way and also look for ways to improve the model. I understand that Edwina Hart's support for amendment 6 reflects a willingness to do that. Including amendment 6 in the motion and receiving a firm commitment to act upon it, would mean that the Plaid Cymru group would be willing to support the motion.

O dan yr amgylchiadau hynny, yr ydym yn bwriadu ymatal ar welliant 1 yn enw Mike German. Mae gwelliant 9, hefyd yn enw Mike German yn sylfaenol ddiffygiol am ei fod yn cyfeirio at gyllid cyfatebol yn unig. Sicrhau'r arian Ewropeaidd yn y lle cyntaf yw gwreiddyn y mater, nid yr arian cyfatebol.

Under those circumstances, we intend to abstain on amendment 1 in the name of Mike German. Amendment 9, also in the name of Mike German, is fundamentally flawed because it only refers to match funding. Securing European funding in the first place is the root of the matter, not the match

Nid oes gennym ymrwymiad i sicrhau hynny. Er mor bwysig ydyw, rhywbeth ychwanegol yw'r arian cyfatebol. Mae gwelliant 5 Plaid Cymru yn gryfach a llawnach o lawer, ac felly byddwn yn ymatal ein pleidlais ar welliant 9. Byddwn hefyd yn ymatal ein pleidlais ar welliannau 3 a 4. Nid ydym yn teimlo mai priodol yw eu cynnwys ar hyn o bryd. Dylid trafod cynnwys gwelliannau o'r fath yng nghorff y ddogfen mewn blynyddoedd i ddod.

**Nick Bourne:** I propose amendment 3. In clause 2, delete the final word 'and'. After clause 2 insert:

*urges that specific grants for diversification for farmers should be made over and above the rural aid package announced by the UK Government on 30 March 2000;*

*expresses its concern about the implementation of Objective 1 funding with particular reference to facilitating access by the private sector to funding opportunities; and*

I propose amendment 4. In clause 2, delete the final word 'and'. Add third clause:

*acknowledges the central role of the NHS in the health and wellbeing of the people of Wales and emphasises the need for guaranteed waiting times for patient treatment and the importance of increasing the NHS capital programme, and;*

I will not detain the Assembly as long as the previous two speakers. I am sure that others wish to contribute to the debate.

There are elements of the document with which we do not disagree, however, it is more important that we concentrate on action rather than this continuous flow of documents. On that basis, we are unhappy with the continual obsession with documentation rather than action. Our amendments have been proposed in that spirit. Anything that avoids the hapless dithering that characterised yesterday's debate on the new building should be welcomed. In opening this debate, Edwina Hart underlined its importance. I say to her

funding. We do not have a commitment to ensure that. Match funding, despite its importance, is an additional matter. Plaid Cymru's amendment 5 is far stronger and fuller, therefore we will abstain on amendment 9. We will also abstain on amendments 3 and 4. We do not feel it appropriate to include these amendments now. Including such amendments in the body of the document should be discussed in future years.

**Nick Bourne:** Cynigaf welliant 3. Yng nghymal 2, dilëer y gair olaf 'a'. Ar ôl cymal 2, ychwaneger:

*yn annog bod grantiau penodol ar gyfer arallgyfeirio i ffermwyr yn cael eu darparu a fydd yn ychwanegol at y pecyn cymorth i gefn gwlad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 30 Mawrth 2000;*

*yn mynegi gofid ynghylch y modd y defnyddir arian Amcan 1 gan gyfeirio'n benodol at helpu'r sector preifat i fanteisio ar gyfleoedd ariannu, a*

Cynigaf welliant 4. Yng nghymal 2, dilëer y gair olaf 'a'. Ychwaneger trydydd cymal:

*yn cydnabod cyfraniad canolog yr NHS at iechyd a lles pobl Cymru ac yn pwysleisio'r angen am amserau aros gwarantedig ar gyfer trin cleifion a phwysigrwydd cynyddu rhaglen gyfalaf yr NHS, a;*

Ni chadwaf y Cynulliad cyn hired â'r ddau siaradwr blaenorol. Yr wyf yn siŵr y bydd eraill am gyfrannu at y ddadl.

Mae elfennau o'r ddogfen nad ydym yn anghytuno â hwy, fodd bynnag, mae'n bwysicach ein bod yn canolbwyntio ar weithredu yn hytrach nag ar y llyf diddiwedd hwn o ddogfennau. Ar y sail honno, yr ydym yn anhapus â'r obsesiwn parhaus â dogfennau yn lle gweithredu. Cynigiwyd ein gwelliannau ni yn yr ysbryd hwnnw. Dylid croesawu unrhyw beth sydd yn osgoi'r tindroi a nodweddai'r ddadl ddoe ar yr adeilad newydd. Wrth agor y ddadl hon, tanlinellodd Edwina Hart ei phwysigrwydd. Dywedaf wrthi na fu ond dau aelod o'r Cabinet yn

that only two Cabinet members have been present during the debate. That is perhaps an indication that it is not quite as important in the minds of some of her colleagues as she would wish it to be.

**The Presiding Officer:** Order. I have taken note on a number of occasions when Members refer to the presence or absence of other Members. The Standing Orders state clearly that priority to attendance in Plenary is expected of all Members. However, we understand that Members have other functions, including members of the Conservative Group.

**Nick Bourne:** I did not make an individual attack. It was a generic comment about members of the Cabinet. The Conservative Group did not stress the importance of this debate. I accept the point that individual Members may have reasons for being absent. However, in the spirit of the importance of this debate in the minds of some people, one would have expected other Members to be present.

In her opening speech, Edwina Hart noted that the website has received many hits and noted the importance of the cover design. That may be important, but it again reflects this obsession with process rather than substance. I warn Edwina of the danger of being wafted away on an internet magic carpet. We need to look at the issues important to Wales.

The leader of the Liberal Democrat Group seemed to be mounting an accusation against the Welsh Conservatives as being an opposition party. We would plead guilty to that. A party is either in government or in opposition, or perhaps in a third category of trying to be a government party, which would be a suitable description of the Liberal Democrats, or at least some of them.

**Michael German:** But not suitable for the Conservatives?

**Nick Bourne:** We are not seeking a coalition government. If the leader of the Liberal Democrat group wishes to confirm that he is, then let that go on the record.

bresennol yn ystod y ddadl. Efallai fod hynny'n arwydd nad yw cyn bwysiced ym meddyliau rhai o'i chyd-Aelodau ag y byddai hi'n dymuno.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf wedi sylwi droeon fod Aelodau'n cyfeirio at bresenoldeb neu absenoldeb Aelodau eraill. Mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan yn glir y disgwylir i'r holl Aelodau roi blaenoriaeth i fod yn bresennol yn y Cyfarfodydd Llawn. Fodd bynnag, deallwn fod gan Aelodau ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys aelodau o'r Grŵp Ceidwadol.

**Nick Bourne:** Ni wneuthum ymosodiad unigol. Sylw cyffredinol ydoedd am aelodau'r Cabinet. Nid y Grŵp Ceidwadol a bwysleisiodd bwysigrwydd y ddadl hon. Derbyniaf y pwynt fod gan Aelodau unigol efallai resymau i fod yn absennol. Fodd bynnag, yn ysbryd pwysigrwydd y ddadl hon ym meddyliau rhai pobl, byddwn wedi disgwyl i Aelodau eraill fod yn bresennol.

Yn ei haraith agoriadol, nododd Edwina Hart fod y safle ar y we wedi cael llawer o ymweliadau a nododd bwysigrwydd cynllun y clawr. Efallai fod hynny'n bwysig, ond mae unwaith eto'n adlewyrchu'r obsesiwn â phroses yn hytrach na sylwedd. Rhybuddiaf Edwina o'r perygl o gael ei chwythu i ffwrdd ar garped hud y rhyngwyd. Mae angen inni edrych ar y materion sydd yn bwysig i Gymru.

Yr oedd arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol fel pe bai'n cyhuddo'r Ceidwadwyr Cymreig o fod yn wrthblaid. Byddem yn pledio'n euog i hynny. Mae plaid un ai mewn llywodraeth neu yn wrthblaid, neu efallai mewn trydydd categori o geisio bod yn blaid lywodraethol, a fyddai'n ddisgrifiad addas o'r Democratiaid Rhyddfrydol, neu rai ohonynt o leiaf

**Michael German:** Ond nid yn addas i'r Ceidwadwyr?

**Nick Bourne:** Nid ydym yn ceisio llywodraeth glymblaid. Os hoffai arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol gadarnhau ei fod ef, dylid cofnodi hynny.

- notes the need to carry out an early examination of the extent to which the Assembly is able effectively to link policy development, legislation and implementation in order to bring forward proposals for improvement;* yn nodi bod angen cynnal archwiliad buan o'r graddau y gall y Cynulliad yn effeithiol gysylltu datblygu polisi, deddfwriaeth a gweithredu er mwyn prysuro cynigion ar gyfer gwella;
- agrees that, in any review of the programme, the conclusions of the Lisbon Summit, especially regarding employment, should be taken into account;* yn cytuno, wrth adolygu'r rhaglen, y rhoddir ystyriaeth i gasgliadau Uwch gynhadledd Lisbon, yn enwedig y rheini sydd yn ymwneud â chyflogaeth;
- notes that the Better Wales programme can be effectively implemented by a minority administration in the Assembly only if that administration recognises (1) the central role of the Assembly Committees in discussing and directing policy (2) the vital importance of public openness and freedom of information (3) the need to democratise Assembly sponsored public bodies; and* yn nodi na ellir gweithredu'r rhaglen Gwell Cymru yn effeithiol gan weinyddiaeth o leiafrif yn y Cynulliad oni fydd y weinyddiaeth honno yn cydnabod (1) rôl ganolog Pwyllgorau'r Cynulliad o ran trafod a chyfarwyddo polisi (2) pwysigrwydd hanfodol bod yn agored i'r cyhoedd a rhyddid i gael gwybodaeth (3) yr angen i ddemocrateiddio cyrff cyhoeddus nodedig y Cynulliad; ac
- notes that the attainment of many of the aims set out in 'A Better Wales' depends upon securing full match funding from the UK Treasury for the Objective 1 areas of Wales.* yn nodi bod cyflawni llawer o'r amcanion a ddisgrifir yn 'Gwell Cymru' yn dibynnu ar sicrhau cyllid cyfatebol llawn oddi wrth Drysorlys y DU ar gyfer yr ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 35, Ymatal 6, Yn erbyn 7.  
Amended motion: For 35, Abstain 6, Against 7.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hart, Edwina  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Marek, John  
Michael, Alun  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Pugh, Alun  
Ryder, Janet  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

Ymataliodd yr aelodau canlynol:  
The following members abstained:

Bates, Mick  
Black, Peter  
German, Michael  
Humphreys, Christine  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

*Amended motion adopted.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Melding, David  
Morgan, Jonathan  
Rogers, Peter

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.*

### **Diwygio Rheolau Sefydlog** **Revision of Standing Orders**

**The Business Secretary:** I propose that

**Y Trefnydd:** Cynigiau fod

*the Assembly, acting under Section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26*

*y Cynulliad, gan weithredu o dan Adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 26*

*i) approves the following revisions to the*

*i) yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r*

**Standing Orders;**

ii) resolves that the duty of the Cabinet to propose a motion under paragraph 23.10 of Revision 7 shall take effect for the year 2001 and onwards; and  
 iii) resolves that all other revisions shall take effect immediately

**Revision 1**

Add to the end of paragraph 1.10:

*In the absence or at the request of the Deputy Presiding Officer the Presiding Officer may perform any function allocated to the Deputy Presiding Officer by the Standing Orders. Where the Standing Orders require the Presiding Officer or the Deputy Presiding Officer to exercise a function in relation to any matter in which the Presiding Officer or Deputy Presiding Officer has any direct or indirect personal or financial interest he or she shall request that the function be exercised instead by the Deputy Presiding Officer or the Presiding Officer as the case may be.*

**Revision 2**

*In paragraphs 4.3 and 4.4 delete 'in person'. Add:*

*4.4A A Member may deliver the form referred to in paragraph 4.3 or 4.4 by taking it to the Table Office or arranging for another person to do so or by post but the form shall not be regarded as having been delivered until it is received by the Table Office.*

*4.4B Members shall be under a continuing duty to ensure, by inspecting the register of interests from time to time, that it correctly contains the particulars notified by them under paragraphs 4.3 or 4.4.*

**Revision 3**

*In paragraph 6.3(ii) delete all up to 'to answer...' and insert 'The Finance Secretary and any Assembly Secretary (including if appropriate the First Secretary) to whom a field of accountability has been allocated under S.56(3) of the Act.'. Add:*

*6.3A Where it is not reasonably practicable for an Assembly Secretary, including the First Secretary, to answer oral questions on a day when the Assembly Secretary would*

**Rheolau Sefydlog;**

ii) yn penderfynu y bydd dyletswydd y Cabinet i gyflwyno cynnig o dan baragraff 23.10 Diwygiad 7 yn dod i rym ar gyfer blwyddyn 2001 ymlaen; ac  
 iii) yn penderfynu y daw pob diwygiad arall i rym ar unwaith.

**Diwygiad 1**

Ychwaneger at ddiwedd paragraff 1.10:

*Yn absenoldeb neu ar gais y Dirprwy Lywydd, caiff y Llywydd gyflawni unrhyw swyddogaeth a neilltuir i'r Dirprwy Lywydd gan y Rheolau Sefydlog. Lle bo'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd arfer swyddogaeth mewn perthynas ag unrhyw fater y mae gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd unrhyw fuddiant personol neu ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol ynddo rhaid iddo ef neu iddi hi ofyn i'r swyddogaeth gael ei harfer gan y Dirprwy Lywydd neu'r Llywydd yn ei le neu yn ei lle yn ôl fel y digwydd.*

**Diwygiad 2**

*Ym mharagraffau 4.3 a 4.4 dileer 'mynd â hi'n bersonol' a mewnosoder 'ei chyflwyno'. Ychwaneger:*

*4.4A Caiff Aelod gyflwyno'r ffurflen y cyfeirir ati ym mharagraff 4.3 neu 4.4 trwy fynd â hi i'r Swyddfa Gyflwyno neu drefnu i berson arall wneud hynny neu ei hanfon trwy'r post ond ni fernir bod y ffurflen wedi ei chyflwyno nes iddi ddod i law yn y Swyddfa Gyflwyno.*

*4.4B Bydd yr Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau, drwy archwilio'r gofrestr fuddiannau o bryd i'w gilydd, ei bod yn cynnwys yn gywir y manylion a hysbyswyd ganddynt o dan baragraffau 4.3 neu 4.4.*

**Diwygiad 3**

*Ym mharagraff 6.3(ii) dileer popeth hyd at 'ateb cwestiynau...' ac ychwaneger 'i'r Ysgrifennydd Cyllid ac unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad (gan gynnwys lle bo'n briodol y Prif Ysgrifennydd) y clustnodwyd maes atebolrwydd iddo ef neu iddi hi o dan A.56(3) y Ddeddf.'. Ychwaneger:*

*6.3A Os nad yw'n rhesymol ymarferol i Ysgrifennydd Cynulliad, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd, ateb cwestiynau llafar ar ddiwrnod pan fydd yr Ysgrifennydd Cynulliad*

*normally do so, another Assembly Secretary may, with the prior consent of the Presiding Officer, answer questions on behalf of that Assembly Secretary.*

*In paragraph 6.28 delete 'First Secretary' and insert 'questions to the First Secretary under paragraph 6.3(i)'.*

#### **Revision 4**

*Add new paragraph 8.25A*

*8.25A The Chair of any Committee to which this paragraph relates may, after consulting the Presiding Officer, call a meeting of the Committee in a week in which the Assembly is not holding a Plenary session in order to consider a matter of urgent public importance. The Committees to which this paragraph relates are the Subject Committees and the Committee on Standards of Conduct.*

#### **Revision 5**

*Add new paragraphs to Standing Order No. 19 as follows:*

#### **Notification of certain Transactions**

*19.15 An Assembly Secretary who proposes to authorise a Notifiable Transaction, namely:*

- i) the making of a gift to which paragraph 19.17 applies;*
- ii) the incurring of a liability to which paragraph 19.18 applies or;*
- iii) the remission of a loan to which paragraph 19.19 applies;*

*shall before doing so lay before the Assembly a statement containing the information specified in paragraph 19.20. When such a statement has been laid, the Assembly Secretary shall not authorise a Notifiable Transaction until a period of 10 working days have elapsed after the statement was laid.*

*19.16 If within the period of 10 working days referred to in paragraph 19.15, at least 10 Members table a Notice requiring the Assembly Secretary to seek the approval of the Assembly for the Notifiable Transaction then the Assembly Secretary shall table a*

*fel rheol yn gwneud hynny, gall Ysgrifennydd Cynulliad arall, gyda chydysyniad gan y Llywydd o flaen llaw, ateb cwestiynau ar ran yr Ysgrifennydd Cynulliad hwnnw.*

*Ym mharagraff 6.28 dileer 'y Prif Ysgrifennydd' ac ychwaneger 'cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd o dan baragraff 6.3(i)'.*

#### **Diwygiad 4**

*Ychwaneger paragraph 8.25A newydd*

*8.25A Gall Cadeirydd unrhyw Bwyllgor y mae'r paragraff hwn yn ymwneud ag ef, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, alw cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod wythnos na fydd y Cynulliad yn cynnal Cyfarfod Llawn ynddi er mwyn ystyried mater brys o bwys cyhoeddus. Y Pwyllgorau Pwnc a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yw'r Pwyllgorau y mae'r paragraff hwn yn ymwneud â hwy.*

#### **Diwygiad 5**

*Ychwaneger paragraffau newydd at Reol Sefydlog Rhif 19 fel a ganlyn:*

#### **Hysbysu Trafodion penodol**

*19.15 Rhaid i Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn bwriadu awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, sef:*

- i) gwneud rhodd y mae paragraff 19.17 yn gymwys iddo;*
- ii) tynnu atebolrwydd mae paragraff 19.18 yn gymwys iddo neu;*
- iii) gollwng benthyciad mae paragraff 19.19 yn gymwys iddo;*

*osod gerbron y Cynulliad cyn gwneud hynny ddatganiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 19.20. Pan fydd datganiad felly wedi'i osod, ni chaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy nes y bydd 10 diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers i'r datganiad gael ei osod.*

*19.16 Os bydd o leiaf 10 Aelod, cyn pen y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff 19.15, yn cyflwyno Hysbysiad yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad geisio cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer y Trafodiad Hysbysadwy, yna bydd yr*

*motion seeking the approval of the Assembly for the Transaction and the Assembly Secretary shall not authorise the Transaction until such approval has been given.*

*Ysgrifennydd Cynulliad yn cyflwyno cynnig yn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Trafodiad Hysbysadwy ac ni chaff yr Ysgrifennydd Cynulliad awdurdodi'r Trafodiad nes bod y gymeradwyaeth honno wedi'i rhoi.*

*19.17 i) A gift to which this paragraph applies is one which:*

*19.17 i) Rhodd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yw un:*

- a) exceeds £100,000 in value or:*
- b) has characteristics (whether by way of its description or generally) or is made under circumstances (whether by reference to the intended identity of the recipient or generally) which differ materially from those of gifts customarily made by public bodies in the United Kingdom.*

- a) y mae ei werth o dros £100,000 neu;*
- b) sydd â nodweddion (boed o ran ei disgrifiad neu'n gyffredinol) neu sydd yn cael ei wneud o dan amgylchiadau (boed drwy gyfeiriad at y sawl y bwriedir gwneud y rhodd iddo neu iddi neu'n gyffredinol) sydd yn sylweddol wahanol i'r rhai sydd yn perthyn i roddion a wneir fel arfer gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.*

*ii) For the purposes of this paragraph a gift includes an indefinite loan or a loan for a period equal to or exceeding the expected useful life of an asset and any transaction whereby there is a disposal of an asset for less than full value. Where there is a disposal of an asset for less than full value the value of the gift shall be taken to be the difference between its full value and the amount of any price to be paid for it.*

*ii) At ddibenion y paragraff hwn mae rhodd yn cynnwys benthyciad am amser amhenodedig neu fenthyciad am gyfnod sydd yn gyfartal ag oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, neu'n fwy na hynny, ac unrhyw drafodiad sydd yn golygu cael gwared ar ased am lai na'i werth llawn. Lle ceir gwared ar ased am lai na'i werth llawn, cymerir mai'r gwahaniaeth rhwng ei werth llawn a swm unrhyw bris y bwriedir ei dalu amdano yw gwerth y rhodd.*

*19.18 A liability to which this paragraph applies is a contingent or actual liability which could exceed £100,000 under a guarantee, indemnity, letter or statement of comfort or other arrangement having the same or similar effect but does not include a contractual commitment to make future payments under a contract entered into in the normal course of the discharge of the Assembly's functions nor a commitment to make payments of grant under a statutory grant scheme.*

*19.18 Mae atebolrwydd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn atebolrwydd amodol neu gyflawnedig a allai fynd dros £100,000, o dan warant, indemniad, llythyr neu ddatganiad o gysur neu drefniant arall â'r un effaith neu effaith debyg ond nad yw'n cynnwys ymrwymiad contractiol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan gontract a ymrwymwyd iddo yn nhrefn arferol cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad nac ymrwymiad i wneud taliadau grant o dan gynllun grant statudol.*

*19.19 A remission of a loan to which this paragraph applies is the remission in whole or in part of an obligation to repay or return money or other property loaned by the Assembly provided the effect of the remission is to reduce the liability to the Assembly by more than £20 million.*

*19.19 Gollyngiad benthyciad y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yw gollwng, yn llwyr neu'n rhannol, rwymedigaeth i ad-dalu neu i ddychwelyd arian neu eiddo arall a fenthyciwyd gan y Cynulliad, ar yr amod mai lleihau mwy na £20 miliwn ar yr atebolrwydd i'r Cynulliad yw effaith y gollyngiad.*



19.20 a) *The statement laid before the Assembly under paragraph 19.15 shall include the following information:*

- i) where it relates to a gift, the nature and value of the gift, the circumstances in which it is proposed to be given, the recipient and if it requires a replacement, the cost and nature of the replacement and when the replacement is expected to be acquired;*
- ii) where it relates to incurring a liability, the estimated amount and duration of the liability, the reason for incurring the liability, the body or bodies involved;*
- iii) where it relates to the remission of a loan, the person or body who will benefit from the remission, the circumstances under which the loan was made, the reason for remitting the loan and the amount intended to be remitted.*

*b) The statement shall, in addition to the information specified above, contain any other relevant information necessary to enable the circumstances of the Notifiable Transaction to be understood.*

19.21 *An Assembly Secretary who becomes aware at any time:*

- i) that the information given in a statement laid before the Assembly under paragraph 19.15 or a supplementary statement laid under this paragraph is to a significant degree no longer accurate or:*
- ii) that a liability which was contingent when a statement was laid has become an actual liability:*  
*shall lay before the Assembly a supplementary statement explaining and correcting the inaccuracy or describing the circumstances under which the liability has become actual, as the case may be. If within 10 working days after the laying of a supplementary statement, at least 10 Members table a motion requiring the Assembly Secretary to make an oral statement to the Assembly explaining the circumstances requiring the supplementary statement to be laid, the Assembly Secretary shall as soon as possible make such oral statement and shall answer questions from Members on such statement.*

19.22 *An Assembly Secretary may, where*

19.20 a) *Bydd y datganiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan baragraff 19.15 yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:*

- i) os bydd yn ymwneud â rhodd, natur a gwerth y rhodd, yr amgylchiadau y bwriedir ei roi odanynt, y derbynnydd ac, os bydd angen amnewid, cost a natur yr amnewidiad a phryd y disgwilir cael yr amnewidiad;*
- ii) os bydd yn ymwneud â thynnu atebolrwydd, amcangyfrif o faint yr atebolrwydd ac am faint y disgwylir iddo barhau, y rheswm dros dynnu'r atebolrwydd, y corff neu'r cyrff o dan sylw;*
- iii) os bydd yn ymwneud â gollwng benthyciad, y person neu'r corff a fydd yn elwa ar y gollyngiad, yr amgylchiadau y gwnaethpwyd y benthyciad odanynt, y rhesymau dros ollwng y benthyciad a'r swm y bwriedir ei ollwng.*

*b) Bydd y datganiad yn cynnwys, yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir uchod, unrhyw wybodaeth berthnasol arall y bydd ei hangen i'w gwneud yn bosibl i ddeall amgylchiadau'r Trafodiad Hysbysadwy.*

19.21 *Bydd Ysgrifennydd Cynulliad sydd ar unrhyw adeg yn dod i wybod:*

- i) nad yw'r wybodaeth a roddwyd mewn datganiad a osodwyd gerbron y Cynulliad o dan baragraff 19.15, neu ddatganiad atodol a osodwyd o dan y paragraff hwn, yn gywir mwyach i radd sylweddol, neu:*
- ii) bod atebolrwydd a oedd yn amodol pan osodwyd datganiad wedi dod yn atebolrwydd cyflawnedig:*  
*yn gosod datganiad atodol gerbron y Cynulliad yn esbonio ac yn cywiro'r anghywirdeb neu'n disgrifio'r amgylchiadau y daeth yr atebolrwydd yn gyflawnedig odanynt. Os bydd o leiaf 10 Aelod, cyn pen y cyfnod o 10 diwrnod gwaith ar ôl gosod y datganiad atodol, yn cyflwyno cynnig sydd yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad wneud datganiad llafar i'r Cynulliad i esbonio'r amgylchiadau a'i gwnaeth yn ofynnol gosod y datganiad atodol, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gwneud y datganiad hwnnw mor fuan â phosibl a bydd yn ateb cwestiynau'r Aelodau ar y datganiad hwnnw.*

19.22 *Caiff Ysgrifennydd Cynulliad, lle bo*

*there is an urgent need, authorise a Notifiable Transaction falling within paragraph 19.18 without first complying with paragraphs 19.15 and 19.16 but shall, as soon as possible after doing so make an oral statement to the Assembly explaining the circumstances and shall answer questions from Members on such statement.*

*19.23 The fact that a Notifiable Transaction falling within paragraph 19.18 has been entered into without first complying with paragraphs 19.15 and 19.16 above shall not in itself affect the rights of the person to whom the potential liability is owed.*

#### **Revision 6**

*Insert after the first sentence of paragraph 22.59:*

*Time shall be made available for the motion to be debated within 20 working days of the date when it is tabled (not counting working days in a week when there is no plenary session of the Assembly).*

#### **Revision 7**

*Insert after paragraph 23.8:*

#### **Procedures for proposing public Bills and amendments thereto**

*23.9 An Assembly Secretary, or at least three Members, may table a motion calling on the UK Government to bring forward a public Bill on a matter specified in the motion, or amendments to an identified Bill currently before either House of Parliament. Such a motion shall describe the purpose and effect of the proposal in sufficient detail for the Bill or amendments called for to be drafted.*

*23.10 No later than 31 March each year, the Assembly will consider a motion under standing order 23.9 proposed by an Assembly Secretary. Such a motion will set out the Assembly Cabinet's proposals for primary legislation in the following session of the UK Parliament or, if the Cabinet has no such proposals, will invite the Assembly to note that fact. Further motions under paragraph 23.9 may nonetheless be tabled at any time.*

*23.11 An assessment of the costs, benefits*

*angen brys, awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy sydd yn dod o fewn paragraff 19.18 heb gydymffurfio yn gyntaf a pharagraffau 19.15 a 19.16 ond bydd yn gwneud datganiad llafar i'r Cynulliad mor fuan a phosibl ac yn ateb cwestiynau Aelodau ar y datganiad hwnnw.*

*19.23 Ni fydd y ffaith bod Trafodiad Hysbysadwy sydd yn dod o fewn paragraff 19.18 wedi ei gyflawni heb gydymffurfio yn gyntaf â pharagraffau 19.15 a 19.16 uchod ynddi'i hun yn effeithio ar hawliau'r person y mae'r atebolrwydd posibl yn ddyledus iddo.*

#### **Diwygiad 6**

*Ychwaneger ar ôl brawddeg gyntaf paragraff 22.59:*

*Trefnir bod amser ar gael i'r cynnig gael ei drafod o fewn 20 diwrnod gwaith o ddyddiad ei gyflwyno (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan na fydd unrhyw gyfarfod llawn o'r Cynulliad).*

#### **Diwygiad 7**

*Ychwaneger ar ôl paragraff 23.8:*

#### **Gweithdrefnau ar gyfer cynnig Mesurau cyhoeddus a diwygiadau iddynt**

*23.9 Caiff Ysgrifennydd Cynulliad, neu o leiaf dri Aelod, gyflwyno cynnig yn galw ar lywodraeth y DU i ddwyn ymlaen Fesur cyhoeddus ar fater a bennir yn y cynnig, neu ddiwygiadau i Fesur penodol sydd gerbron y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd ar y pryd. Bydd y cynnig yn disgrifio diben ac effaith y cynnig yn ddigon manwl i alluogi'r Mesur neu'r diwygiadau y gofynnir amdanynt i gael eu drafftio.*

*23.10 Erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn fan bellaf, bydd y Cynulliad yn trafod cynnig o dan baragraff 23.9 a fydd wedi'i gyflwyno gan Ysgrifennydd Cynulliad. Bydd y cynnig hwnnw yn cynnwys cynigion Cabinet y Cynulliad am ddeddfwriaeth gynradd yn sesiwn canlynol Senedd y DU neu, os nad oes gan y Cabinet unrhyw gynigion o'r fath, yn gwahodd y Cynulliad i nodi hynny. Serch hynny, gellir cyflwyno cynigion pellach o dan baragraff 23.9 ar unrhyw adeg.*

*23.11 Rhaid cyflwyno arfarniad o gostau,*

*and any other implication of the proposed Bill or amendments shall be tabled at least five working days before a motion under paragraph 23.9 is to be considered.*

*manteision ac unrhyw oblygiad arall sydd i'r Mesur neu'r diwygiadau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y trafodir cynnig o dan baragraff 23.9.*

*23.12 If the Assembly approves the motion, the First Secretary shall as soon as possible communicate its terms to the Secretary of State for Wales. The First Secretary or an Assembly Secretary shall report to the Assembly from time to time on the response of the UK Government to the Assembly's proposals and on the progress of any Bill or amendments proposed by the Assembly which the UK Government agrees to bring forward.*

*23.12 Os bydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r cynnig, bydd y Prif Ysgrifennydd yn cyfleu ei gynnwys, mor fuan a phosibl, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bydd y Prif Ysgrifennydd neu Ysgrifennydd Cynulliad yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar ymateb Llywodraeth y DU i gynigion y Cynulliad ac ar hynt unrhyw Fesur neu ddiwygiadau a gynigiwyd gan y Cynulliad ac y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno eu dwyn ymlaen.*

*23.13 In tabling, considering and acting on any motion tabled under paragraph 23.9, the Assembly and its Members shall have regard to any guidance or protocol which the Assembly may from time to time adopt on proposals for public Bills.*

*23.13 Wrth gyflwyno, trafod a gweithredu yn sgîl unrhyw gynnig a gyflwynir o dan baragraff 23.9, bydd y Cynulliad a'i Aelodau yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau neu brotocol y bydd y Cynulliad yn eu mabwysiadu o bryd i'w gilydd ar gynigion ar gyfer mesurau Cyhoeddus.*

*23.14 Paragraphs 23.9 to 23.13 are without prejudice to the right of any Assembly Secretary or any Member to make representations to the UK Government or to any Member of Parliament at any time on matters related to primary legislation.*

*23.14 Nid yw paragraffau 23.9 i 23.13 yn rhagfarnu hawl unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad neu unrhyw Aelod i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU neu i unrhyw Aelod Seneddol ar unrhyw adeg ar faterion sydd yn ymwneud â deddfwriaeth gynradd.*

#### **Revision 8**

*In paragraph 23.2 delete 'two working days' and substitute 'five working days'*

#### **Diwygiad 8**

*Ym mharagraff 23.2 dileer 'ddau ddiwrnod gwaith' a mewnosoder 'pum diwrnod gwaith'.*

#### **Revision 9**

*In paragraph 23.4 delete 'two working days' and substitute 'five working days'.*

#### **Diwygiad 9**

*Ym mharagraff 23.4 dileer 'ddau ddiwrnod gwaith' a mewnosoder 'pum diwrnod gwaith'.*

#### **Revision 10**

*In paragraph 23.6 delete 'two working days' and substitute 'five working days'.*

#### **Diwygiad 10**

*Ym mharagraff 23.6 dileer 'ddau ddiwrnod gwaith' a mewnosoder 'pum diwrnod gwaith'.*

I wish to explain the implications of the proposed changes that have been agreed by the Business Committee.

Carwn egluro goblygiadau'r newidiadau arfaethedig y mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno arnynt.

Revision 1 refers to Standing Order No. 1.10. It clarifies that the Presiding Officer can

Mae diwygiad 1 yn cyfeirio at Reol Sefydlog Rhif 1.10. Mae'n egluro y gall y Llywydd

substitute for the Deputy Presiding Officer should he or she be successful in the ballot for a Standing Order No. 22 part 7 Order, or for any other duties that the Deputy Presiding Officer may, for whatever reason, be unable to carry out.

Revision 2 refers to Standing Order No. 4.3. As currently drafted, the Standing Orders require Members who wish to register their interests, or to notify changes to their registered interests, to do so in person. My colleague, Alison Halford, has pointed out many times that, during the longer recesses, this can be difficult for those Members whose constituencies are far from Cardiff. It is therefore proposed that Members should be able to notify any changes to the register of interests by post as well as in person. The Business Committee and the Standards of Conduct Committee have considered and agreed this proposal.

Revision 3 refers to Standing Order Nos. 6.3 and 6.28. This makes technical changes to the procedure for oral questions. Where, as now, the First Secretary retains a policy portfolio, the change to Standing Order No. 6.3 makes clear that questions can be put to him or her in that capacity separately from the questions that he or she answers as First Secretary. The amendment to Standing Order No. 6.28 is consequential to that revision. These changes are needed to remove any doubt as to the procedures to be followed.

The new Standing Order No. 6.3A would allow an Assembly Secretary to answer questions on behalf of a colleague who was unavoidably absent, with the prior consent of the Presiding Officer. It is needed to deal with cases such as that last week following the tragic death of Jane Hutt's father. There may be other occasions when Assembly Secretaries genuinely cannot be present to answer questions, and this amendment addresses that sensibly.

Revision 4 refers to Standing Order No.

gymryd lle'r Dirprwy Lywydd, pe byddai ef neu hi'n llwyddo yn y bleidlais am Reol rhan 7 Rheol Sefydlog Rhif 22, neu gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill na fyddai'r Dirprwy Lywydd yn gallu eu cyflawni am ba reswm bynnag.

Mae diwygiad 2 yn cyfeirio at Reol Sefydlog Rhif 4.3. Yn y drafft presennol mae'r Rheolau Sefydlog yn mynnu bod yr Aelodau sydd am gofrestru eu buddiannau, neu nodi newidiadau i'w buddiannau cofrestredig yn gwneud hynny'n bersonol. Mae fy nghyd-Aelod, Alison Halford, wedi tynnu fy sylw sawl tro at y ffaith y gall hyn fod yn anodd yn ystod y gwyliau hwyaf i'r Aelodau hynny sydd ag etholaethau ymhell o Gaerdydd. Cynigir felly y dylai Aelodau gael nodi unrhyw newidiadau i'r gofrestr fuddiannau drwy'r post yn ogystal ag yn bersonol. Mae'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi ystyried y cynnig hwn ac wedi cytuno arno.

Mae diwygiad 3 yn cyfeirio at Reolau Sefydlog Rhifau 6.3 a 6.28. Golyga hyn newidiadau technegol i weithdrefn y cwestiynau llafar. Ar hyn o bryd mae'r Prif Ysgrifennydd yn cadw portffolio polisi, bydd y newid i Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn egluro y gellir gofyn cwestiynau iddo ef neu iddi hi yn rhinwedd y swydd honno ar wahân i'r cwestiynau hynny y mae ef neu hi yn eu hateb yn rhinwedd ei swydd fel y Prif Ysgrifennydd. Mae'r gwelliant i Reol Sefydlog Rhif 6.28 yn ôl-ddilynol i'r diwygiad hwnnw. Mae angen y newidiadau hyn arnom i gael gwared ar unrhyw ansicrwydd ynghylch y weithdrefn.

Byddai'r Rheol Sefydlog Rhif 6.3A newydd yn galluogi Ysgrifennydd Cynulliad i ateb cwestiwn ar ran cyd-Aelod a oedd yn gorfod bod yn absennol, gyda chysyniad gan y Llywydd o flaen llaw. Mae ei angen arnom i ddelio ag achosion megis yr un a gafwyd yr wythnos diwethaf yn dilyn marwolaeth drist tad Jane Hutt. Gallai achlysuron eraill godi lle nad oes modd i Ysgrifenyddion y Cynulliad fod yn bresennol i ateb cwestiynau ac mae'r gwelliant hwn yn mynd i'r afael â hynny'n synhwyrol.

Mae diwygiad 4 yn cyfeirio at Reol Sefydlog

8.25A. The current Standing Orders do not refer to calling a Committee when the Assembly is not sitting in Plenary. This revision will allow certain Committees, following consultation with the Presiding Officer, to meet to consider a matter of urgent public importance. It will apply to the Subject Committees and also to the Standards of Conduct Committee.

Revision 5 deals with new paragraphs to Standing Order No. 19—procedures for the notification of certain transactions. Standing Orders do not contain procedures for the authorisation of a notifiable transaction. Revision 5 is intended to rectify this position. A notifiable transaction by an Assembly Secretary is defined as: making a gift that is of an unusual nature or its value exceeds £100,000; incurring a liability that could exceed £100,000; or the remission of a loan by the Assembly provided the effect of the remission is to reduce the liability to the Assembly by more than £20 million.

Prior to the establishment of the Assembly, the Welsh Office was obliged to comply with the Treasury requirements on the authorisation of such transactions. Following devolution, Treasury requirements and procedures no longer apply to the Assembly. However, there continues to be a need for formal authorisation of such transactions as they represent a commitment to potential expenditure of which the Assembly would not previously have been made aware, nor had the opportunity to object.

The proposed addition to Standing Order No. 19 will require an Assembly Secretary to inform the Assembly, by the laying of a statement, of a proposal to authorise a Notifiable Transaction. Members will be given the opportunity to challenge the Assembly Secretary before the transaction is authorised. Should at least 10 Members object within 10 working days of the statement being laid, the Assembly Secretary must seek the approval of the Assembly. Only in circumstances of urgency concerning a contingent liability will an Assembly Secretary be able to authorise a transaction without first laying a statement before the Assembly. In such circumstances, he or she

Rhif 8.25A. Nid yw'r Rheolau Sefydlog presennol yn cyfeirio at alw Pwyllgor pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd mewn Cyfarfod Llawn. Bydd y diwygiad hwn yn caniatáu i Bwyllgorau penodol gyfarfod i ystyried materion o bwys cyhoeddus arbennig, yn dilyn ymgynghori â'r Llywydd. Bydd yn berthnasol i'r Pwyllgorau Pwnc a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad hefyd.

Mae diwygiad 5 yn delio â pharagraffau newydd i Reol Sefydlog Rhif 19—y weithdrefn ar gyfer hysbysu trafodion penodol. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi trafodion hysbysadwy. Bwriedir y bydd diwygiad 5 yn cywiro'r sefyllfa hon. Caiff trafodiad hysbysadwy gan Ysgrifennydd Cynulliad ei ddiffinio fel: gwneud rhodd o natur anarferol neu sydd werth dros £100,000; ysgwyddo atebolrwydd a allai fod dros £100,000; neu fod y Cynulliad yn dileu benthyciad ar yr amod mai effaith y dileu hwnnw fydd gostwng y ddyled i'r Cynulliad o fwy na £20 miliwn.

Cyn sefydlu'r Cynulliad, yr oedd yn rhaid i'r Swyddfa Gymreig gydymffurfio â gofynion y Trysorlys wrth awdurdodi trafodion o'r fath. Yn dilyn datganoli, nid yw gofynion na gweithdrefnau'r Trysorlys yn berthnasol i'r Cynulliad bellach. Fodd bynnag, mae'r angen i awdurdodi trafodion o'r fath yn ffurfiol yn parhau gan eu bod yn cynrychioli ymrwymiad i ddarpar wariant na fyddai'r Cynulliad wedi bod yn ymwybodol ohono'n flaenorol, nac wedi cael y cyfle i'w wrthwynebu.

Gyda golwg ar yr ychwanegiad arfaethedig i Reol Sefydlog Rhif 19, bydd yn rhaid i Ysgrifennydd Cynulliad osod datganiad gerbron y Cynulliad i roi gwybod am gynnig i awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy. Caiff Aelodau'r cyfle i herio Ysgrifennydd y Cynulliad cyn i'r trafodiad gael ei awdurdodi. Pe byddai o leiaf 10 Aelod yn gwrthwynebu o fewn 10 diwrnod gwaith o osod y datganiad, rhaid i Ysgrifennydd y Cynulliad geisio cymeradwyaeth y Cynulliad. Dim ond mewn amgylchiadau o frys sydd yn ymwneud ag atebolrwydd amodol y bydd Ysgrifennydd Cynulliad yn gallu awdurdodi trafodiad heb osod datganiad gerbron y Cynulliad yn gyntaf. Mewn amgylchiadau o'r

would have to make an oral statement to the Assembly as soon as possible after the transaction had been authorised. This has been included because there may well be circumstances when it is vital for a liability to be accepted when the Assembly is not sitting or when there is insufficient time to follow the full procedures. There is no provision for urgency arrangements for gifts or loan redemption since these transactions should be known about well in advance.

Revision 6 refers to Standing Order No. 22 part 7. This revision will ensure that a Member, who has been successful in the ballot under part 7 of Standing Order No. 22 to table a motion calling on an Assembly Secretary to bring forward a piece of subordinate legislation, shall have time made available for the debate of the motion within 20 working days of its being tabled. This is our version of a Private Member's Bill in the House of Commons.

Revision 7—proposals for primary legislation. This revision implements the proposals that the Assembly considered as part of the debate on the response to the UK Government's legislative programme in February, in particular the draft protocol that was discussed then. The procedure is similar to other elements of Standing Order No. 23 as it requires three Members or an Assembly Secretary to propose a motion, to give five day's notice and to include an analysis of costs and benefits. It would allow the Assembly to debate proposed Bills or amendments at any time and it requires the First Secretary to communicate resolutions on it to the Secretary of State for Wales and report back to the Assembly on progress. The Cabinet would be required to bring forward amendable proposals for debate each year. This should be at a time consistent with the UK Government's internal consideration of future legislation to maximise our chances of success. The Business Committee believes that this change to Standing Orders reflects the consensus view in the Assembly that we need to always ensure that Welsh needs as well as the Assembly role are reflected in the making of primary legislation. This change gives us a new and more systematic way of doing that. Standing Order No. 23, revisions

fath, byddai rhaid iddo ef neu iddi hi wneud datganiad llafar i'r Cynulliad mor fuan â phosibl ar ôl awdurdodi'r trafodiad. Mae hyn wedi'i gynnwys oherwydd gallai amgylchiadau godi lle byddai'n hanfodol derbyn atebolrwydd pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd neu pan nad oes digon o amser i ddilyn y gweithdrefnau llawn. Nid oes darpariaeth ar gyfer trefniadau brys i ad-dalu rhoddion neu fenthyciadau oherwydd y dylid bod yn gwybod am y trafodion hyn ymhell o flaen llaw.

Mae diwygiad 6 yn cyfeirio at ran 7 Rheol Sefydlog Rhif 22. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau y bydd Aelod, a lwyddodd yn y bleidlais dan ran 7 Rheol Sefydlog Rhif 22 i osod cynnig yn galw ar Ysgrifennydd Cynulliad i gyflwyno darn o ddeddfwriaeth, eilaidd yn cael amser ar gyfer dadl y cynnig o fewn 20 diwrnod gwaith o'i osod. Hwn yw'n fersiwn ni o Fesur Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin.

Diwygiad 7—cynigion am ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn ei ddadl ar ymateb y Cynulliad i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ym mis Chwefror, ystyriodd y Cynulliad y cynigion a roddir ar waith dan y diwygiad hwn, yn enwedig y protocol drafft a drafodwyd bryd hynny. Mae'r weithdrefn yn debyg i elfennau eraill Rheol Sefydlog Rhif 23 gan ei fod yn mynnu bod tri Aelod neu Ysgrifennydd Cynulliad yn gwneud cynnig, i roi pum niwrnod o rybudd a chynnwys dadansoddiad o gostau a buddiannau. Byddai'n caniatáu i'r Cynulliad drafod Mesurau neu welliannau arfaethedig unrhyw bryd ac mae'n mynnu bod y Prif Ysgrifennydd yn dweud wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei benderfyniadau a rhoi gwybod i'r Cynulliad am y cynnydd. Byddai'n rhaid i'r Cabinet gyflwyno cynigion diwygiadwy i'w trafod bob blwyddyn. Dylai hyn fod ar adeg sydd yn gyson â'r adeg y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried deddfwriaeth y dyfodol yn fewnol i gynyddu'n siawns o lwyddo. Cred y Pwyllgor Busnes fod y newid hwn i'r Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu'r consensws barn yn y Cynulliad bod angen inni sicrhau bob amser y caiff anghenion Cymru yn ogystal â swyddogaeth y Cynulliad eu hadlewyrchu wrth lunio deddfwriaeth

8-10 are consequential amendments to the earlier decision to amend Standing Orders to ensure that any papers tabled for debate are available five days in advance of that debate.

sylyfaenol. Mae'r newid hwn yn rhoi ffordd newydd a mwy systematig inni wneud hynny. Mae diwygiadau 8-10 Rheol Sefydlog Rhif 23 yn welliannau ôl-ddilynol i'r penderfyniad cynharach i wella Rheolau Sefydlog i sicrhau bod unrhyw bapurau a gyflwynir ar gyfer dadl ar gael pum niwrnod cyn y ddadl honno.

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Dim Safleoedd Niwclear Newydd yng Nghymru No New Nuclear Sites in Wales**

**Richard Edwards:** Christine Humphreys and Rhodri Glyn Thomas have indicated that they wish to take part in this debate. In keeping with custom, I shall, after my own contribution, invite them to speak for a minute each before Sue Essex responds.

**Richard Edwards:** Mae Christine Humphreys a Rhodri Glyn Thomas wedi dweud eu bod am gymryd rhan yn y ddadl hon. Yn ôl yr arferiad, byddaf, ar ôl fy nghyfraniad i, yn eu gwahodd i siarad am funud yr un cyn i Sue Essex ymateb.

For more than a year and a half, the beautiful Trecŵn valley, on the doorstep of the Pembrokeshire National Park—Britain's only coastal park—has been blighted by what can best be termed as a madcap proposal to store nuclear waste at the former Royal Navy Armaments Depot. This facility was purchased from the Ministry of Defence in 1997 by Omega Pacific, an Anglo-Irish consortium, for a derisory £330,000. That is, a three and a half mile Pembrokeshire valley purchased for the price of a semi-detached house in Cardiff Bay.

Am dros flwyddyn a hanner, mae dyffryn hardd Trecŵn, ar drothwy Parc Cenedlaethol Sir Benfro—unig barc arfordirol Cymru—wedi ei ddifetha gan yr hyn y gellir ei alw orau yn gynnig hurt i storio gwastraff niwclear yn hen Storfa Arfau y Llynges Frenhinol. Prynwyd y cyfleuster hwn oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 1997 gan Omega Pacific, consortiwm Eingl-Wyddelig, am swm chwerthinllyd o £330,000. Hynny yw, dyffryn tair milltir a hanner yn Sir Benfro wedi'i brynu am bris tŷ pâr ym Mae Caerdydd.

Nonetheless, the purchase was originally welcomed by the local community. An area stricken by high unemployment had the prospect of 500 quality jobs in a new aero-engine refurbishment plant. The company has yet to make any moves in this direction. However, on 8 October 1998 they announced that they were offering the 58 underground storage chambers, built into the steep valley sides, for the storage of low and intermediate level nuclear waste. It is instructive to consider what is meant, precisely, by the terms low-level and intermediate nuclear waste. Low-level waste is materials that have had very low levels of contamination, for instance protective clothing, packaging, scrap metal, concrete rubble from building demolition and so on. That currently accounts for 70 per cent of nuclear waste volume in

Er hynny, croesawodd y gymuned leol y pryniant hwn ar y cychwyn. Yr oedd ardal a oedd yn dioddef lefelau diweithdra uchel yn gweld gobaith o 500 o swyddi o ansawdd mewn safle adnewyddu peiriannau awyrennau newydd. Nid yw'r cwmni eto wedi cymryd unrhyw gamau i'r cyfeiriad hwn. Fodd bynnag, ar 8 Hydref 1998 cyhoeddasant eu bod yn cynnig y 58 o siambrau storio dan ddaear, a adeiladwyd i mewn i ochrau serth y dyffryn, ar gyfer storio gwastraff niwclear lefel isel a chanolig. Mae'n addysgiadol ystyried beth a olygir, yn union, gan y termau gwastraff niwclear lefel isel a chanolig. Gwastraff lefel isel yw deunyddiau sydd wedi cael lefelau isel iawn o halogiad, er enghraifft dillad gwarchodol, deunydd pecynnu, metel sgrap, rwbel concrit ar ôl dymchwel adeiladau ac yn y blaen.

the UK, most of which is disposed of at the repository at Drigg in Cumbria. The 'experts' have claimed that low-level waste poses little threat to the public but that is hotly disputed.

Intermediate level waste contains substances that will emit dangerous radiation for hundreds of thousands of years. It requires shielding and containment and is encased in concrete, stored in steel drums and housed above ground at existing nuclear sites. The amount of intermediate level waste will rise dramatically due to reprocessing of spent fuel and decommissioning of existing nuclear power stations. A plan to build a permanent underground repository at Sellafield failed in 1997 and the Government is now assessing the options for dealing with the huge problem of nuclear waste, and more of that anon.

Omega Pacific's proposal so far is purely speculative. They have yet to seek planning permission. It is speculative but destructive. Property prices are already falling in the Trecŵn area and there is widespread concern about safety and the environment. Pembrokeshire's main asset is its clean environment and resplendent scenery, which attracts thousands of tourists every year. The economy of the county depends largely on tourism, agriculture and fishing, and these are all dependent on a clean environment and an undefiled image. A nuclear waste store would have a devastating impact on all these sectors and would completely undermine the much-needed opportunities offered by Objective 1 funding. The people of Pembrokeshire have united as never before in total opposition to what is perceived as an act of community mugging. Petitions with over 30,000 signatories have been presented to Parliament, and I take this opportunity to commend the community leadership shown by members of the Pembrokeshire anti-nuclear alliance—individuals, community groups and organisations and local businesses, who have co-ordinated the campaign against nuclear dumping at Trecŵn.

Dyna yw 70 y cant o'r holl wastraff niwclear sydd i'w gael yn y DU ar hyn o bryd, a gwaredir y rhan fwyaf o hwn yn y gloddfa yn Drigg yn Cumbria. Mae'r 'arbenigwyr' wedi honni mai ychydig o fygythiad y mae gwastraff lefel isel yn ei beri i'r cyhoedd ond amheuir hyn yn arw.

Mae gwastraff lefel ganolig yn cynnwys sylweddau a fydd yn rhyddhau ymbelydredd peryglus am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Rhaid ei warchod a'i reoli ac fe'i caeir mewn concrit, ei storio mewn barilau dur a'i gadw uwchlaw'r ddaear mewn safleoedd niwclear sydd yn bodoli eisoes. Bydd swmp y gwastraff lefel ganolig yn cynyddu'n aruthrol yn sgîl ailbrosesu gweddillion tanwydd a datgomisiynu gorsafodd pŵer niwclear sydd yn bodoli eisoes. Methodd cynllun i adeiladu cloddfa dan ddaear barhaol yn Sellafield yn 1997 ac, yn awr, mae'r Llywodraeth yn asesu'r opsiynau ar gyfer delio gyda'r broblem anferth o wastraff niwclear, a bydd mwy am hynny yn y man.

Damcaniaethol yn unig yw cynnig cwmni Omega Pacific hyd yma. Nid ydynt eto wedi cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Mae'n ddamcaniaethol ond yn ddiinstriol. Mae prisiau eiddo yn syrthio'n barod yn ardal Trecŵn a cheir pryder cyffredinol am ddiogelwch a'r amgylchedd. Prif gaffaeliad Sir Benfro yw ei hamgylchedd glân a'i golygfeydd godidog, sydd yn denu miloedd o dwristiaid yno bob blwyddyn. Mae economi'r sir yn dibynnu i raddau helaeth ar dwristiaeth, amaethyddiaeth a physgota, ac mae'r rhain oll yn ddibynnol ar amgylchedd glân a delwedd ddihallog. Byddai ystorfa wastraff niwclear yn cael effaith ddiinstriol ar yr holl sectorau hyn a byddai'n tanseilio'n llwyr y cyfleoedd a gynigir drwy arian Amcan 1 y mae gwir angen amdanynt. Mae pobl Sir Benfro wedi uno fel na wnaethant erioed o'r blaen mewn gwrthwynebiad llwyr i'r hyn a ystyrir yn weithred o ymosodiad cymunedol. Cyflwynwyd deisebau ag arnynt 30,000 o lofnodwyr i'r Senedd, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ganmol yr arweiniad cymunedol a welwyd gan aelodau cynghrair gwrth-niwclear Sir Benfro—unigolion, grwpiau a mudiadau cymunedol a busnesau lleol, sydd wedi cydlynu'r ymgyrch yn erbyn gollwng gwastraff niwclear yn Nhrecŵn.



However, Omega Pacific continues to show utter contempt for the safety, economy and environment of west Wales by refusing to scrap its destructive plans. I emphasise the point because a misleading press report last December—if you can contemplate such an unlikely phenomenon—claimed that the company no longer planned to use the site for nuclear waste disposal. This was based on a comment from Omega Pacific that it had no intention of applying for a nuclear licence. The fact is that Omega Pacific has always maintained that it would not apply for a nuclear licence itself, but would let the site to a third party who would operate the nuclear facility. It has been busy marketing Trecŵn in the hope that someone will take up its offer and give it a substantial profit. The company's behaviour is tantamount to commercial vandalism and should be outlawed.

It cannot be right, reasonable or sensible for a company with no nuclear credentials, no sanction from any government agency or department and no backing from any section of the nuclear industry to be allowed to make a proposal of this sort. The British nuclear industry and the Ministry of Defence have also denied any involvement with the plans. We desperately need better and tighter regulations. It is also scandalous that a company can make a speculative planning move that blights a whole area with no prospect of redress for the people affected. There is a clear anomaly that Parliament needs to address, but it is a legal quagmire. The misery of Trecŵn has implications far beyond Pembrokeshire. It may be Trecŵn today but where might speculative nuclear blight strike tomorrow? The transport of nuclear materials to Pembrokeshire poses a serious hazard to all areas en route, whether by road, rail, sea or air. Cases of spillage during loading and from leaching or sweating in transit are well documented. The effects of a single incident would blight an entire area for generations. The Sea Empress disaster in 1996 would pale into insignificance.

Serch hynny, mae cwmni Omega Pacific yn parhau i ddangos dirmyg llwyr tuag at ddiogelwch, economi ac amgylchedd gorllewin Cymru drwy wrthod taflu ei gynlluniau dinistriol ar y domen. Pwysleisiaf y pwynt oherwydd i adroddiad camarweiniol yn y wasg fis Rhagfyr diwethaf—os gallwch ragweld digwyddiad mor annisgwyl—honni nad oedd y cwmni yn bwriadu defnyddio'r safle i waredu gwastraff niwclear mwyach. Yr oedd hyn yn seiliedig ar sylwadau gan gwmni Omega Pacific nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ymgeisio am drwydded niwclear. Y gwir ydyw fod cwmni Omega Pacific wastad wedi honni na fyddai'n ymgeisio am drwydded niwclear ei hun, ond y byddai'n gosod y safle i drydydd parti a fyddai'n rhedeg y cyfleuster niwclear. Bu'n brysur yn marchnata Trecŵn yn y gobaith y bydd rhywun yn derbyn ei gynnig ac yn rhoi elw sylweddol iddo. Mae ymddygiad y cwmni yn cyfateb i fandaliaeth fasnachol a dylid ei wahardd.

Ni all fod yn iawn, yn rhesymol nac yn synhwyrol, fod cwmni sydd heb unrhyw gymwysterau niwclear, unrhyw sancsiynau gan unrhyw asiantaeth nac adran o'r llywodraeth nac unrhyw gefnogaeth gan unrhyw ran o'r diwydiant niwclear yn cael caniatâd i wneud cynnig o'r math hwn. Mae diwydiant niwclear Prydain a'r Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd wedi gwadu unrhyw gysylltiad gyda'r cynlluniau. Mae arnom wir angen rheoliadau gwell a mwy caeth. Mae hefyd yn warthus y gall unrhyw gwmni gymryd camau cynllunio damcaniaethol sydd yn difetha ardal gyfan heb unrhyw obaith o wneud iawn i'r bobl yr effeithir arnynt. Ceir anghysondeb amlwg y mae'n rhaid i'r Senedd fynd i'r afael ag ef, ond y mae'n gors gyfreithiol. Mae gan ddiodeffaint Trecŵn oblygiadau ymhell y tu hwnt i Sir Benfro. Efallai mai Trecŵn sydd yn dioddef heddiw ond ble bydd y felltith niwclear ddamcaniaethol yn taro yfory? Mae cludo deunyddiau niwclear i Sir Benfro yn achosi perygl difrifol i bob ardal ar y daith, boed hynny ar y ffordd, y rheilffordd, drwy'r awyr neu ar y môr. Mae cryn dystiolaeth i achosion o arllwysiadau yn ystod llwytho ac yn sgîl deunyddiau yn diferu neu'n chwysu wrth gael eu cludo. Byddai effeithiau un digwyddiad yn difetha ardal gyfan am genedlaethau. Buan y

byddai trychineb y Sea Empress yn 1996 yn mynd yn anghof.

What can the Assembly do? One of my first actions as a Member was to table a statement of opinion inviting fellow Members to oppose Omega Pacific's proposal. At the last count, 30 Members had done so. That total excludes the Cabinet, the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer, who are barred from signing statements of opinion. There is a clear statement to Omega Pacific that there is no endorsement here for their baleful plan. I am grateful for such resounding cross-party support even if, unfortunately, it has not extended yet to the Conservatives. Nick has made enquiries about it but has not signed it yet. However, I am pleased that both he and Glyn have subscribed to my statement of opinion on no new nuclear sites. It is a shame about Alun Cairns, who has told me in no uncertain terms that no matter how often I ask him to sign my statement, the answer will be 'no', and his e-mail message was followed by 12 exclamation marks just in case I was in any doubt. However, 30 Members have signed that statement of opinion.

If Omega Pacific ever turns its speculative proposal into a formal planning application, the Assembly will act as the appellate body. As a local Member, I will be excluded from any quasi-judicial role the Assembly may be required to discharge. No application has been forthcoming, but the blight continues, debilitating a community that feels it has the proverbial sword of Damocles dangling over it. This brings me back to the general issue of a nuclear waste management strategy. The UK Government is due to publish a Green Paper in the summer to facilitate widespread consultation on the best way to manage radioactive wastes, and develop a comprehensive policy in an open and transparent way to ensure maximum possible public acceptance. Note that the emphasis is on the essential need for local support.

It seems incredible that the nuclear industry has been allowed to progress in the way that it has without a nationally managed policy

Beth all y Cynulliad ei wneud? Un o'm gweithredoedd cyntaf fel Aelod oedd cyflwyno datganiad o farn yn gwahodd fy nghyd-Aelodau i wrthwynebu cynnig Omega Pacific. Ar y cyfrif diwethaf, yr oedd 30 aelod wedi gwneud hynny. Nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys y Cabinet, y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd, gan eu bod wedi eu rhwystro rhag llofnodi datganiadau o farn. Mae datganiad clir i gwmni Omega Pacific nad oes cymeradwyaeth yma i'w gynllun bygythiol. Yr wyf yn ddiolchgar am y fath gefnogaeth ar draws y pleidiau hyd yn oed os nad yw eto, yn anffodus, wedi ymestyn i'r Ceidwadwyr. Mae Nick wedi bod yn holi yn ei gylch ond heb ei lofnodi eto. Fodd bynnag, yr wyf yn falch ei fod ef a Glyn wedi cefnogi fy natganiad o farn ar ddim safleoedd niwclear newydd yng Nghymru. Mae'n drueni am Alun Cairns, sydd wedi dweud wrthyf yn gwbl bendant waeth ba mor aml y byddaf yn gofyn iddo lofnodi fy natganiad, mai 'na' fydd yr ateb, a dilynwyd ei neges e-bost gan 12 ebychnod, rhag ofn fod gennyf unrhyw amheuaeth. Fodd bynnag, mae 30 Aelod wedi llofnodi'r datganiad hwn o farn.

Os bydd cwmni Omega Pacific fyth yn troi ei gynnydd damcaniaethol yn gais cynllunio ffurfiol, bydd y Cynulliad yn gweithredu fel y corff apeliadol. Fel Aelod lleol, byddaf yn cael fy nghau allan o unrhyw rôl led-farnwrol y bydd yn rhaid i'r Cynulliad ei chyflawni. Ni chyflwynwyd unrhyw gais, ond mae'r felltith yn parhau, gan wanhau cymuned sydd yn teimlo bod cleddyf diarhebol Damocles yn crogi uwch ei phen. Daw hyn â mi yn ôl at y mater cyffredinol o strategaeth rheoli gwastraff niwclear. Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Papur Gwyrdd yn yr haf i hyrwyddo ymgynghoriad helaeth ar y ffordd orau ymlaen i reoli gwastraff ymbelydrol, a llunio polisi cynhwysfawr mewn ffordd agored a thryloyw i sicrhau bod cynifer â phosibl o'r cyhoedd yn ei dderbyn. Sylwer y rhoddir y pwyslais ar yr angen holl bwysig am gefnogaeth leol.

Ymddengys yn anghredadwy fod y diwydiant niwclear wedi cael rhwydd hant i frw ymlaen fel ag y gwna heb bolisi a reolir yn

for safeguarding our future against radioactive waste. This consultation stems from the refusal of planning consent for a laboratory to investigate the suitability of Sellafield as a deep repository for intermediate level waste.

5:10 p.m.

Subsequently, a sub-committee of the House of Lords Select Committee on Science and Technology reviewed the whole subject of nuclear waste management and its report, published a year ago, strongly favoured phased underground disposal but stressed the need for public consultation. The UK Government has refused to endorse any management option until widespread public consultation is completed.

The problems of nuclear waste will be with us for thousands of years. The problems affect us all and the responsibility for their long-term management must be shared by us all. There is no point in resorting to crude nimbyism because this is an all-pervasive hazard that knows no boundaries. The consequences of a disaster, be it in Cumbria, north Wales or west Wales will not be confined to those areas. Chernobyl has taught us that much. Therefore, we need the safest, most appropriate methods and locations.

If the long-term option is to use deep disposal, then clearly the geology of mainland Wales is unsuitable for the creation of a deep repository. A map produced by NIREX confirms that. Trecŵn could never be considered for such a purpose. The area is heavily faulted and cracked, giving rise to extensive movement of ground water through the rock and tunnels. The risk of groundwater contamination would be high, leading to contamination of watercourses. Ninety per cent of Pembrokeshire's water is taken from the Cleddau, which receives water directly from Trecŵn.

However, there is no scientific consensus about the safety of a repository solution at the moment. Nuclear waste technology is in relative infancy and there are serious doubts

genedlaethol i ddiogelu ein dyfodol yn erbyn gwastraff ymbelydrol. Deillia'r ymgynghoriad hwn yn sgîl gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer labordy i archwilio addasrwydd Sellafield fel cloddfa ddofn ar gyfer gwastraff lefel ganolig.

Yn sgîl hynny, bu i is-bwyllgor Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg adolygu'r pwnc o reoli gwastraff niwclear yn ei gyfanrwydd ac yr oedd ei adroddiad, a gyhoeddwyd flwyddyn yn ôl, yn gryf o blaid gwaredu graddol dan ddaear ond pwysleisiai'r angen am ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod cymeradwyo unrhyw opsiwn rheoli nes cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus helaeth.

Bydd y broblem gwastraff niwclear gyda ni am filoedd o flynyddoedd. Mae'r problemau yn effeithio arnom oll a rhaid inni oll rannu'r cyfrifoldeb dros eu rheoli yn y tymor hir. Nid oes unrhyw bwynt mewn caniatâu i beth o'r fath ddigwydd mewn rhannau eraill o'r wlad ond nid yn ein bro ein hunain oherwydd mae hwn yn berygl hollbresennol nad oes ffiniau iddo. Ni fyddai canlyniadau trychineb, boed hwnnw yn Cumbria, gogledd Cymru neu orllewin Cymru, yn cael eu cyfyngu i'r ardaloedd hynny. Mae Chernobyl wedi dysgu cymaint â hynny inni. Felly, rhaid inni gael y dulliau a'r lleoliadau mwyaf diogel ac addas.

Os mai'r opsiwn tymor hir yw defnyddio dulliau gwaredu dwfn, yna mae'n amlwg bod daeareg tir mawr Cymru yn anaddas ar gyfer creu cloddfa ddofn. Mae map a luniwyd gan NIREX yn cadarnhau hynny. Ni ellid fyth ystyried Trecŵn at ddiben o'r fath. Mae'r ardal yn llawn ffawtiau a chraciau, sydd yn peri i lawer iawn o ddŵr daear symud drwy'r creigiau a'r twnneli. Byddai risg uchel i'r dŵr daear gael ei halogi, gan arwain at halogi cyrsiau dŵr. Daw 90 y cant o ddŵr Sir Benfro o Gleddau, sydd yn derbyn dŵr yn uniongyrchol o Drecŵn.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gonsensws gwyddonol am ddiogelwch cloddfa fel ateb ar hyn o bryd. Mater cymharol newydd yw technoleg gwastraff niwclear a cheir

about the durability of the concrete and steel containers used for storage and limited predictive capabilities about the long-term behaviour of emplaced wastes. There is almost universal agreement that until available science offers a failsafe long-term solution, the best option for nuclear waste management in the interim is to store it above ground where it is retrievable and monitorable on the sites where it is generated and where there is the expertise. That would avoid the need to transport it, with all the potential hazards that that entails, to new nuclear sites and despoil fresh areas of countryside.

The nuclear industry maintains that it has sufficient on-site capacity for waste arising from current contracts and that there is no justification for creating new nuclear storage sites. The plain fact is that Omega Pacific is in for a long wait indeed before UK policy development on radioactive waste reaches the point where new storage outside existing nuclear sites is either needed or acceptable. However, Trecŵn, Pembrokeshire and west Wales cannot afford to wait much longer for the speculative nuclear blight to end.

Let us be clear that no responsible Government should allow private companies driven by profit to deal with a long-term problem of such magnitude. There is an opportunity here for the Assembly to be ahead of the game. Radioactive waste disposal is an UK-wide problem requiring an UK-wide solution. However, thanks to devolution, Wales, through the Assembly, can develop discrete radioactive management policies to guide landuse planning and radioactive waste management decisions.

I want this Assembly to frustrate the nuclear vandals and make it clear that new nuclear sites in Wales, either for storage or generating purposes, are not an option. I want this Assembly to declare, as a matter of principle, that there will be no new nuclear sites in Wales. I want the proposition debated fully in this Chamber with a vote. That would show the Assembly in a positive light, taking the initiative with full public support on a

amheuron difrifol am wydnwch y cynwysyddion concrit a dur a ddefnyddir ar gyfer storio a dim ond gallu cyfyngedig a geir i broffwydo ynghylch ymddygiad gwastraff a leolwyd yn y tymor hir. Ceir cytundeb llwyr bron, hyd y bydd y wyddoniaeth sydd ar gael yn cynnig ateb tymor hir di-feth, mai'r opsiwn gorau i reoli gwastraff niwclear yn y cyfamser yw ei storio uwchlaw'r ddaear lle gellir cael ailafael arno a'i fonitro ar y safleoedd lle caiff ei gynhyrchu a lle ceir yr arbenigedd. Fel hyn, ni fyddai'n rhaid ei gludo, gyda'r holl beryglon posibl a ddaw yn sgîl hynny, i safleoedd niwclear newydd ac ysbeilio ardaloedd cefn gwlad dilwgr.

Mae'r diwydiant niwclear yn honni fod ganddo ddigon o le ar ei safleoedd ar gyfer y gwastraff a gyfyd o gontractau cyfredol ac nad oes unrhyw gyfiawnhad dros greu safleoedd storio niwclear newydd. Y ffaith blaen ydyw y bydd yn rhaid i gwmni Omega Pacific aros yn hir iawn yn wir cyn y bydd datblygiadau polisi'r DU ar wastraff ymbelydrol yn cyrraedd pwynt pan fydd ystorfeydd newydd y tu allan i safleoedd niwclear presennol un ai'n angenrheidiol neu'n dderbyniol. Fodd bynnag, ni all Trecŵn, Sir Benfro na gorllewin Cymru fforddio aros llawer hwy i'r felltith niwclear ddamcaniaethol ddod i ben.

Gadewch inni fod yn glir na ddylai unrhyw Lywodraeth gyfrifol ganiatáu i gwmnïau preifat, a yrrir gan elw, ddelio gyda phroblem tymor hir gymaint â hon. Ceir cyfle yma i'r Cynulliad fod ar flaen y gad. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn broblem drwy'r DU gyfan sydd yn gofyn am ateb DU gyfan. Fodd bynnag, diolch i ddatganoli, gall Cymru, drwy'r Cynulliad, lunio polisiau rheoli ymbelydrol ar wahân er mwyn arwain penderfyniadau am gynllunio defnydd tir a rheoli gwastraff ymbelydrol.

Yr wyf am i'r Cynulliad hwn rwystro'r fandaliaid niwclear hyn a'i gwneud yn glir nad yw safleoedd niwclear newydd yng Nghymru yn opsiwn—boed y rheini at ddibenion storio neu gynhyrchu. Yr wyf am i'r Cynulliad hwn ddatgan, fel mater o egwyddor, na fydd unrhyw safleoedd niwclear newydd yng Nghymru. Yr wyf am i'r cynnig gael ei drafod yn llawn yn y Siambr hon gyda phleidlais. Byddai hynny'n

matter of the greatest importance and seen to be safeguarding our country for future generations. We do not have to wait for consultation. We can flag up our position now; flag it up so high that no rogue speculator can be in any doubt—no new nuclear sites in Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolchaf i Richard am godi'r pwnc pwysig hwn. Bellach, yr ydym yn medi canlyniadau penderfyniadau i adeiladu gorsafoedd niwclear. Dywedodd y gwyddonwyr wrthym eu bod yn gwbl ddiogel. Dywedasant hefyd eu bod yn ffordd effeithlon o greu ynni. Profwyd y gwyddonwyr yn anghywir ar y ddau osodiad. Rhaid inni yn awr ddelio â'r broblem o storio'r gwastraff. Yr wyf am sicrhau Richard fod Plaid Cymru yn cefnogi ei ddatganiadau ar wrthwynebu sefydliadau niwclear newydd ac ar storio gwastraff niwclear yn Nhrecŵn.

Yr ydym yn trafod y ffaith fod Cymru, drwy awdurdodau lleol yn ystod y 1980au, wedi gwneud penderfyniad gwleidyddol i wneud Cymru yn wlad ddi-niwclear. Yn anffodus nid oedd y Cynulliad yn bodoli ar y pryd ac nid oedd modd i weithredu'r penderfyniad hwnnw. Serch hynny, yr oedd yn benderfyniad gwleidyddol hynod o bwysig. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn gallu gwneud datganiadau a phenderfyniadau gwleidyddol tebyg i ddiogelu ansawdd bywyd yng Nghymru o hyn ymlaen.

**Christine Humphreys:** The Liberal Democrat policy on nuclear power stations is clear. We believe that they are not cost-effective without subsidies and we would withdraw them from service at the end of their working lives. Environmental cost, in particular when dealing with waste, is more significant than financial cost. The two nuclear power stations in north Wales are Wylfa on Anglesey and Trawsfynydd in Gwynedd; the latter in the process of being decommissioned. Ownership has recently passed from Magnox to BNFL, who now have to satisfy the Environment Agency before they are given licences to continue producing electricity. Public meetings will be

dangos y Cynulliad mewn goleuni ffafriol, yn cymryd yr awenau gyda chefnogaeth lwyr y cyhoedd ar fater o'r pwys mwyaf a chael ei weld yn diogelu ein gwlad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid oes yn rhaid inni aros am ymgynghoriad. Gallwn dynnu sylw at ein safiad yn awr; tynnu cymaint o sylw ato fel na fydd unrhyw gnaf o ddamcaniaethwr mewn unrhyw amheuaeth—dim safleoedd niwclear newydd yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** I thank Richard for raising this important subject. We are now reaping the consequences of decisions to build nuclear power stations. The scientists told us that they were completely safe. They also said that they were an efficient way of creating energy. The scientists have been proved wrong on both accounts. We must now deal with the problem of storing the waste. I assure Richard that Plaid Cymru supports his statements on objecting to new nuclear installations and on storing nuclear waste at Trecŵn.

We are discussing the fact that Wales, through local authorities during the 1980s, made a political decision to make Wales a nuclear free country. Unfortunately the Assembly did not exist at that time and there was no means of implementing the decision. Even so, it was an extremely important political decision. I hope that the Assembly can make similar political statements and decisions to safeguard the quality of life in Wales from now on.

**Christine Humphreys:** Mae polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol ar orsafoedd pŵer niwclear yn glir. Credwn nad ydynt yn gost-effeithiol heb gymorthdaliadau a byddem yn eu rhwystro rhag gwasanaethu ar ddiwedd eu bywyd gwaith. Mae'r gost amgylcheddol, yn enwedig wrth ddelio gyda gwastraff, yn fwy sylweddol na'r gost ariannol. Y ddwy orsaf pŵer niwclear yng ngogledd Cymru yw Wylfa ar Ynys Môn a Thrawsfynydd yng Ngwynedd; mae'r olaf wrthi'n cael ei datgomiynu. Trosglwyddwyd hon o afael Magnox i BNFL yn ddiweddar, ac mae'n rhaid i BNFL yn awr fodloni Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y cânt drwyddedau i barhau i gynhyrchu trydan. Cynhelir cyfarfodydd

held to gauge public opinion and they are likely to hear a great deal of evidence. Two reactors at Wylfa had to be shut down in January after a refuelling operation went wrong. Last June, six workers at Trawfynydd suffered internal radioactive contamination while cleaning a cooling pond. Irradiated fuel was formerly stored in the area. Decommissioning began there in 1993 but it is likely to take several decades to complete.

Even if Wales were to say no to the development of further nuclear sites, on which I agree with Richard, we still need to be wary of those nuclear sites on our doorstep. Recent events at the Sellafield plant have been well documented and I do not need to elaborate on them. They follow a long line of incidents that have occurred at the plant. There has long been a debate on the alleged impact of emissions from Sellafield on the surrounding area, on the north Wales coast in particular, especially in relation to an increased presence of cancer among the population. You may recall that I recently met with representatives from Stormont and the Dáil in the Assembly, much to the annoyance of some Members. They came here to present evidence that suggests that Sellafield has had an impact on County Louth in Ireland.

**Y Llywydd:** Dim ond munud oedd gennyf i siarad. Mae'r funud honno wedi dod i ben.

**The Secretary for Transport, Planning and the Environment (Sue Essex):** I thank Richard for raising this issue. I know that it is dear to his heart and to the hearts of the people whom he represents in Pembrokeshire. I understand the concerns raised by Members. Much of the radiation to which we are exposed comes from natural sources, nevertheless we are all aware of the potential consequences of nuclear sites not being managed safely and properly. Richard was right to remind us about Chernobyl. Some sheep farmers in Wales are still paying for the consequences of that incident. Unfortunately, there are thousands of people in the old Soviet Union who bear a heavier burden. It is always relevant to think about those people further afield whose lives were

cyhoeddus i fesur y farn gyhoeddus ac maent yn debygol o glywed cryn dipyn o dystiolaeth. Bu'n rhaid cau dau adweithydd yn Wylfa ym mis Ionawr ar ôl i waith ail-lenwi â thanwydd fynd o'i le. Fis Mehefin diwethaf, dioddefodd chwe gweithiwr yn Nhrawsfynydd halogiad ymbelydrol mewnol tra'n glanhau pwll oeri. Arferwyd storio tanwydd arbelydredig yno. Dechreuodd y gwaith datgomisiynu yno yn 1993 ond mae'n debygol o gymryd sawl degawd i'w gwblhau.

Hyd yn oed pe byddai Cymru yn dweud na wrth ddatblygu safleoedd niwclear pellach, mater yr wyf yn cytuno gyda Richard yn ei gylch, rhaid inni wyllo o hyd rhag y safleoedd niwclear hynny sydd ar riniog ein drws. Mae cryn dystiolaeth i'r digwyddiadau diweddar yn safle Sellafield ac nid oes yn rhaid imi ymhelaethu ar hynny. Dilynant linell faith o ddigwyddiadau sydd wedi digwydd ar y safle. Bu dadl faith ar effaith honedig y gollyngiadau o Sellafield ar yr ardal gyfagos, ar arfordir gogledd Cymru yn enwedig, yn arbennig yng nghyswllt cynnydd mewn achosion o ganser ymhlith y boblogaeth. Efallai y cofiwch fy mod wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Stormont a'r Dáil yn y Cynulliad yn ddiweddar, er dicter rhai o'r Aelodau. Daethant yma i gyflwyno tystiolaeth sydd yn awgrymu bod Sellafield wedi cael effaith ar Swydd Louth yn Iwerddon.

**The Presiding Officer:** You only had a minute in which to speak. That minute is up.

**Yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd (Sue Essex):** Diolchaf i Richard am godi'r mater hwn. Gwn ei fod yn annwyl i'w galon ac i galonnau'r bobl y mae'n eu cynrychioli yn Sir Benfro. Deallaf y pryderon a godwyd gan Aelodau. Daw llawer o'r ymbelydredd y down i gysylltiad ag ef o ffynonellau naturiol, serch hynny yr ydym oll yn ymwybodol o ganlyniadau posibl safleoedd niwclear na chânt eu rheoli'n ddiogel ac yn briodol. Yr oedd Richard yn iawn i'n hatgoffa am Chernobyl. Mae rhai ffermwyr defaid yng Nghymru yn dal i dalu am ganlyniadau'r digwyddiad hwnnw. Yn anffodus, ceir miloedd o bobl yn yr hen Undeb Sofietaidd sydd yn ysgwyddo baich trymach. Mae bob amser yn berthnasol inni feddwl am y bobl hynny ymhellach i fwrdd

totally blighted by the incident.

The title of the resolution today, 'No New Nuclear Sites in Wales' presents two elements—the nuclear power station situation and the important point of nuclear waste, highlighted by the discussion about Trecŵn. It would be fair for most of us here to admit that nuclear power generation was seen as the brave new world. We now know that it is the antithesis of sustainable development because of the residue that it produces and the dangers it causes to people working at nuclear plants and living in local communities, as Christine said.

5:20 p.m.

I cannot imagine that in our lifetime somebody will devise a proposal for an economic and safe nuclear plant. It is often thought that nuclear power can affect the damage caused by gases on climate change. However, existing technologies for nuclear power generation provide no easy solution. It is important to remember that. There is no easy solution to the problems of climate change. We must look elsewhere, especially in terms of energy production and promotion, if we are to have a clean and sustainable future. By looking positively at energy production, we have a chance in Wales to do things differently. We have real scope in this country to show the way forward. We do not have the terrible consequences and pollution effects of things that we have tried before. In that venture, I recognise the—

**Glyn Davies:** You referred to consequences. Anybody who farms in Wales is aware of the impact of the Chernobyl incident, especially on farmers in north Wales. I am aware of the consequences of nuclear power. The Chernobyl incident proves that you cannot isolate yourself from the rest of the world. One reason that I intervened is because I would have liked to have spoken. I want to offer Richard Edwards my support in the matter he has raised today. I am equally aware of the negative impact of what is

y bu i'w bywydau gael eu difetha'n llwyr gan y digwyddiad.

Mae teitl y cynnig heddiw, 'Dim Safleoedd Niwclear Newydd yng Nghymru' yn cyflwyno dwy elfen—sefyllfa'r gorsafoedd pŵer niwclear a'r pwynt pwysig o wastraff niwclear, a amlygwyd gan y drafodaeth ar Drecŵn. Byddai'n deg i'r rhan fwyaf ohonom yma gyfaddef yr ystyriwyd cynhyrchu pŵer niwclear fel y byd newydd gwrol. Yr ydym yn gwybod yn awr ei fod yn gwrthgyferbynnu â datblygu cynaliadwy oherwydd y gweddillion y mae'n ei gynhyrchu a'r perygl y mae'n ei achosi i bobl sydd yn gweithio mewn gweithfeydd niwclear ac i bobl sydd yn byw mewn cymunedau lleol, fel y dywedodd Christine.

Nid allaf ddychmygu y bydd rhywun, tra byddwn ni byw, yn dyfeisio cynnig ar gyfer safle niwclear economaidd a diogel. Credir yn aml y gall pŵer niwclear effeithio ar y niwed y mae nwyon yn ei achosi ar y newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, nid yw'r technolegau presennol ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear yn cynnig unrhyw ateb syml. Mae'n bwysig cofio hynny. Nid oes unrhyw ateb syml i broblemau newid yr hinsawdd. Rhaid inni edrych yn rhywle arall, yn enwedig o safbwynt cynhyrchu a hybu ynni, os ydym am gael dyfodol glân a chynaliadwy. Drwy edrych yn gadarnhaol ar gynhyrchu ynni, mae gennym gyfle yng Nghymru i wneud pethau'n wahanol. Mae gennym bosibiliadau go iawn yn y wlad hon i ddangos y ffordd ymlaen. Nid ydym yn gweld canlyniadau erchyll ac effeithiau llygredd pethau yr ydym wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen. Yn y fenter honno, cydnabyddaf y—

**Glyn Davies:** Cyfeiriasoch at ganlyniadau. Mae unrhyw un sydd yn ffermio yng Nghymru yn ymwybodol o effaith digwyddiad Chernobyl, yn enwedig ar ffermwyr yng ngogledd Cymru. Yr wyf yn ymwybodol o ganlyniadau pŵer niwclear. Mae digwyddiad Chernobyl yn profi na allwch ynysu eich hun oddi wrth weddill y byd. Un rheswm pam fy mod wedi ymyrryd yw oherwydd y buaswn wedi hoffi cael siarad. Hoffwn gynnig fy nghefnogaeth i Richard Edwards yn y mater y mae wedi ei

proposed on the economy, particularly in terms of agriculture and tourism, which are important to Pembrokeshire. It is a difficult subject. The genie is out of the bottle. We cannot put it back.

**The Presiding Officer:** This is long for an intervention. It is almost a surrogate speech.

**Glyn Davies:** Llywydd, you are hard on me. I conclude by saying that I am pleased that Richard put the matter forward and I am sure that I will support everything he says and Sue's response. Thank you, Llywydd, for being so indulgent.

**Sue Essex:** I am sure that Glyn had the best intention. I thank you, as I am sure Richard will because as well as looking at difficulties in this debate, we are looking at solutions. Through this positive approach, we can at least try to learn from the lessons of the past on not only nuclear energy but also other energy production which does not produce the pollution and terrible consequences to which our past decisions have led. As well as the difficulties of this subject, we need to look at the opportunities for cleaner, renewable energy. We must pay attention to that.

I want to talk about the issue of waste, which is the main point of Richard's discussion. Whatever our views about the case for new nuclear power generation sites, I am sure that most people in this room cannot ignore the need to deal with the real and growing problem of handling nuclear waste. It is a salutary fact that the quantities of such waste will grow even if no nuclear power plants are constructed. It is a phenomenon that, even with no further construction, waste will grow. Some of the radioactive waste remains hazardous for hundreds of thousands of years, which is what I meant about it being the most unsustainable energy source. We have created an unimaginable problem for future generations. It is essential that we face facts and manage the problems that are created by the issue of waste in the way most likely to limit the potential harm to human health and the environment over these long

goddi heddiw. Yr wyf yr un mor ymwybodol o effaith negyddol yr hyn a gynigir ar yr economi, yn enwedig o safbwynt amaethyddiaeth a thwristiaeth, sydd yn bwysig i Sir Benfro. Mae'n bwnc anodd. Mae'r *genie* allan o'r lamp. Ni allwn ei roi yn ei ôl.

**Y Llywydd:** Mae hon yn ymyrraeth hir. Bron nad yw'n araith ddirprwyol.

**Glyn Davies:** Llywydd, yr ydych yn galed arnaf. Hoffwn gloi drwy ddweud fy mod yn falch bod Richard wedi cyflwyno'r mater ac yr wyf yn sicr y byddaf yn cefnogi popeth a ddywed ef ynghyd ag ateb Sue. Diolch i chi, Llywydd, am fod mor oddefgar.

**Sue Essex:** Yr wyf yn sicr fod gan Glyn y bwriad gorau. Diolchaf i chi, fel y gwna Richard yr wyf yn sicr, oherwydd yn ogystal ag edrych ar anawsterau yn y ddadl hon, yr ydym yn edrych ar atebion. Drwy weithredu'n gadarnhaol fel hyn, gallwn o leiaf geisio dysgu oddi wrth wersi'r gorffennol ar nid yn unig ynni niwclear ond hefyd ar ffyrdd eraill o gynhyrchu ynni nad yw'n cynhyrchu'r llygredd a chanlyniadau erchyll y mae ein penderfyniadau yn y gorffennol wedi arwain atynt. Yn ogystal ag anawsterau'r pwnc hwn, rhaid inni edrych ar y cyfleoedd i gael ynni glanach, adnewyddadwy. Rhaid inni roi sylw i hynny.

Hoffwn siarad am y mater o wastraff, sef prif bwynt trafodaeth Richard. Beth bynnag yw ein safbwyntiau am yr achos dros safleoedd cynhyrchu pŵer niwclear newydd, yr wyf yn sicr na all y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ystafell hon anwybyddu'r angen i ddelio gyda'r broblem wirioneddol a chynyddol o ddelio â gwastraff niwclear. Mae'r ffaith y bydd gwastraff o'r fath yn cynyddu hyd yn oed os na adeiledir unrhyw orsafoedd pŵer niwclear newydd yn ein sobri. Mae'n ffenomen y bydd gwastraff yn dal i dyfu, hyd yn oed heb unrhyw adeiladu pellach. Erys peth o'r gwastraff ymbelydrol yn beryglus am gannoedd o filoedd o flynyddoedd, a dyna beth yr oeddwn yn ei feddwl drwy ddweud mai dyma'r ffynhonnell ynni fwyaf anghynaliadwy. Yr ydym wedi creu problem anhygoel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n holl bwysig ein bod yn wynebu'r ffeithiau ac yn rheoli'r problemau a grëir gan



timescales. Serious and irreparable harm might be caused if nuclear waste is not managed adequately, because of human error, technical failure or natural causes. This provides strong grounds for applying the precautionary principle in considering proposals to establish nuclear activity. In recent years, we have been given the opportunity to consider how the precautionary principle can be applied on an environmental basis. However, the waste problem exists and quantities will increase. We must find ways of managing that waste.

Much nuclear waste is generated by the decommissioning of nuclear installations. In the absence of the long-term UK repository, Trawsfynydd and, in due course, Wylfa, which are of considerable importance to the economy of north and west Wales, will require radioactive waste storage facilities on site. Nycomed Amersham in my constituency would cease to operate if it was not able to store low-level radioactive waste on site. In the case of Trawsfynydd, the Welsh Office exercised its power to call in a planning application for the decommissioning of the station. That application will fall to the Assembly to determine, and it is on hold while the company revisits its environmental statement.

The main point at the end of Richard's speech was about what the Assembly can do. The licensing of radioactive waste on nuclear sites is the responsibility of the Nuclear Installations Inspectorate, as part of the Health and Safety Executive. Proposals for disposing radioactive waste, not on nuclear sites, would require the consent of the Environment Agency, which has a statutory obligation to consult the Health and Safety Executive, local authorities and other relevant bodies. It would be for the Assembly to consider whether to call in applications to the agency for its own determination or leave the responsibility with the Environment Agency. It is important that we understand that.

In discharging the responsibility for assessing

y gwastraff yn y ffordd sydd fwyaf tebygol o gyfyngu ar y niwed posibl i iechyd pobl a'r amgylchedd dros y cyfnodau maith hyn. Gallai gwastraff niwclear nas rheolir yn iawn beri difrod difrifol ac anhrwsiadwy, oherwydd camgymeriad pobl, methiant technegol neu achosion naturiol. Rhydd hyn seiliau cryf i ddefnyddio'r egwyddor ragofalus wrth ystyried cynigion i sefydlu gweithgaredd niwclear. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cawsom y cyfle i ystyried sut y gellir defnyddio'r egwyddor ragofalus ar sail amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r broblem wastraff yn bodoli a bydd y swmp yn cynyddu. Rhaid inni ddarganfod ffyrdd o reoli'r gwastraff hwnnw.

Cynhyrchir llawer o wastraff niwclear wrth ddatgomiynu safleoedd niwclear. Yn absenoldeb cloddfa tymor hir yn y DU, bydd yn rhaid i safle Trawsfynydd a, maes o law, Wylfa, sydd yn bwysig iawn i economi gogledd a gorllewin Cymru, gael cyfleusterau storio gwastraff ar y safle. Byddai Nycomed Amersham, yn fy etholaeth, yn rhoi gorau i weithredu pe na allai storio gwastraff ymbelydrol lefel isel ar y safle. Yn achos Trawsfynydd, bu i'r Swyddfa Gymreig ddefnyddio ei phwerau i alw i mewn gais cynllunio ar gyfer datgomiynu'r orsaf. Cyfrifoldeb y Cynulliad fydd gwneud penderfyniad ar y cais hwn, ac mae'r cais wedi ei ddal yn ôl tra bod y cwmni yn edrych eto ar ei ddatganiad amgylcheddol.

Y prif bwynt ar ddiwedd araith Richard oedd yr hyn y gall y Cynulliad ei wneud. Cyfrifoldeb yr Arolygaeth Safleoedd Niwclear, fel rhan o'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yw trwyddedu gwastraff niwclear ar safleoedd niwclear. Byddai'n rhaid i gynigion i waredu gwastraff ymbelydrol ar safleoedd heblaw am safleoedd niwclear gael caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd â rhwymedigaeth statudol i gysylltu â'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol a chyrrff eraill perthnasol. Mater i'r Cynulliad fyddai ystyried a ddylid galw i mewn geisiadau a gyflwynwyd i'r asiantaeth er mwyn gwneud ei benderfyniad ei hun neu adael y cyfrifoldeb yn nwylo Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n bwysig ein bod yn deall hynny.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb dros asesu a

whether to call in an application for determination, it is essential that I do not rule out, as a matter of policy or principle, the acceptability of such an application. We must discharge our responsibility within the statutory framework, which is principally concerned with proper protection for human health and the environment. I would have to make a decision within the relevant statutory framework and would be open to legal challenge if I were not seen to do so. These principles, requiring a case-by-case assessment within the legal framework, are broadly akin to those that apply in considering planning applications.

Richard is concerned about Trecŵn, in his constituency, because there are proposals to store radioactive waste there. It has been made clear, and I must continue to make clear, that any such application would need to be considered on its merits and cannot be prejudged by anything that we say today. As there is no application on the table, there is nothing to consider at this point. Proposals to store waste at Trecŵn have not been aired for some time. However, Richard made a strong argument, emphasising the effect on his constituents and the potential damage.

On radioactive waste, as Richard rightly said, for many years solutions have been sought to the long-term disposal of solid radioactive waste. That indicates how difficult this is. Successive Governments have struggled with this issue. Following the decision of the then Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions not to approve an underground rock repository at Sellafield in 1997, there has been considerable reflection on the future direction of radioactive waste management policy in the UK. The House of Lords Select Committee on Science and Technology provided an input into this process last year. We have agreed to produce a consultation document in partnership with the UK Government and the other devolved administrations later this year. The aim of this consultation is to begin a process that will lead to the implementation of a radioactive waste management policy, which will command widespread support.

ddyliid galw cais i mewn i benderfynu yn ei gylch, mae'n holl bwysig nad wyf, fel mater o bolisi nac egwyddor, yn diystyru derbynioldeb cais o'r fath. Rhaid inni gyflawni ein cyfrifoldeb o fewn y fframwaith statudol, sydd yn ymwneud yn bennaf â sicrhau gwarchodaeth briodol i iechyd pobl a'r amgylchedd. Byddai'n rhaid imi wneud penderfyniad o fewn y fframwaith polisi perthnasol a buaswn yn agored i gael fy herio yn gyfreithiol pe'm gwelwyd yn peidio â gwneud hynny. Mae'r egwyddorion hyn, y mae'n rhaid eu hasesu fesul achos o fewn fframwaith cyfreithiol, yn eithaf tebyg i'r rheini sydd yn weithredol wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Mae Richard yn pryderu am Drecŵn, yn ei etholaeth, oherwydd y ceir cynigion i storio gwastraff ymbelydrol yno. Gwnaethpwyd hyn yn glir, a rhaid imi ddal i wneud hyn yn glir, y byddai'n rhaid i unrhyw gais gael ei ystyried ar ei rinweddau ac na ellir ei ragddyfarnu gan unrhyw beth a ddywedwn heddiw. Gan nad oes unrhyw gais ar y bwrdd, nid oes unrhyw beth i'w ystyried ar hyn o bryd. Ni wyntyllwyd cynigion i storio gwastraff yn Nhrecŵn ers cryn amser. Fodd bynnag, cyflwynodd Richard ddadl gref, gan bwysleisio'r effaith ar ei etholwyr a'r difrod posibl.

Ynghylch gwastraff ymbelydrol, fel y dywedodd Richard yn iawn, am lawer o flynyddoedd ceisiwyd cael atebion i waredu gwastraff ymbelydrol soled yn y tymor hir. Dengys hynny ba mor anodd yw hyn. Mae Llywodraethau blaenorol wedi ymaflyd gyda'r mater hwn. Yn sgîl penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar y pryd i beidio â chymeradwyo cloddfa garreg dan ddaear yn Sellafield yn 1997, gwelwyd cryn fyfyrion ar gyfeiriad polisi rheoli gwastraff ymbelydrol y DU i'r dyfodol. Bu i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwydd ar Wyddoniaeth a Thechnoleg gyfrannu at y broses hon y llynedd. Yr ydym wedi cytuno i lunio dogfen ymgynghori mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau eraill datganoledig yn ddiweddarach eleni. Nod yr ymgynghoriad hwn yw dechrau ar broses a fydd yn arwain at weithredu polisi rheoli gwastraff ymbelydrol a fydd yn mynnu cefnogaeth eang.

Richard gave ideas about what the Assembly can do. I will take them back to the officials to see whether they are possible. When it comes to nuclear activity, whether it is power generation or waste, the issue of no place being an island is crucial. Another solitary fact is that a substantial amount of radioactive waste is produced at sites in Wales, with spent fuel from Wylfa being reprocessed at Sellafield. It is essential that we identify the best means of dealing with such waste. Above all, we have a commitment to sustainable development in Wales. It is included in the legislation and we must be aware of it at all times. The difficulties of nuclear waste disposal and what it could mean to communities and future environments must be at the fore of our thinking. Discussions are taking place with the UK Government, and I hope that we can get a strategic base on nuclear waste that will provide a context for any future schemes for the disposal of nuclear waste. Then we would not have speculative proposals like those that we had at Trecŵn. I will forcibly take back Richard's points in light of his experiences and those of his constituents, to see if we can revisit them.

**Y Llywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodaethau heddiw. Diolch.

Rhoddodd Richard syniadau am yr hyn y gall y Cynulliad ei wneud. Adroddaf yn ôl am yr rhain wrth y swyddogion i weld a ydynt yn bosibl. Wrth drafod gweithgaredd niwclear, boed hynny'n gynhyrchu pŵer neu'n wastraff, mae'r ystyriaeth nad oes unman yn ynys yn holl bwysig. Un ffaith arall yw bod swm sylweddol o wastraff ymbelydrol yn cael ei gynhyrchu mewn safleoedd yng Nghymru, gyda gweddillion tanwydd o Wylfa yn cael ei ailbroseu yn Sellafield. Mae'n holl bwysig ein bod yn canfod y ffordd orau o ddelio gyda gwastraff o'r fath. Yn anad dim, mae gennym ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Fe'i cynhwysir yn y ddeddfwriaeth a rhaid inni fod yn ymwybodol ohono bob amser. Rhaid i anawsterau gwaredu gwastraff niwclear a'r hyn y gallai ei olygu i gymunedau ac amgylcheddau'r dyfodol fod yn flaenaf yn ein meddyliau. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU a gobeithiaf y gallwn gael sylfaen strategol ar wastraff niwclear a fydd yn darparu cyddestun ar gyfer unrhyw gynlluniau i'r dyfodol i waredu gwastraff niwclear. Wedyn, ni fyddai gennym gynigion damcaniaethol fel y rheini a gawsom yn Nhrecŵn. O'm hanfodd, derbynïaf bwyntiau Richard yng ngoleuni ei brofiadau a phrofiadau ei etholwyr, i weld a allwn droi atynt drachefn.

**The Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close. Thank you.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.32 p.m.  
The session ended at 5.32 p.m.*